Give your address			17
Ask for someone's address			17
Ask about someone's work			19
Say what you think of your job			21

03

teulu siarad am eich

talk about your family

In this unit you will learn how to

- enquire about someone's family
- talk about someone's marital status
- say you possess something
- ask someone's age
- ask how many or how much of something someone has
- talk about things you collect

Deialog 1

Elen, Jayne and Matthew discuss their families.

- Jayne** Oes plant 'da chi, Elen?
Elen Oes, mae dwy ferch 'da fi o'r enw Heledd a Siwan ond dw i eisiau rhagor o blant. Dw i'n dod o deulu mawr a hoffwn i gael teulu mawr hefyd. Mae Heledd yn bedair oed ac mae Siwan yn saith.
Jayne Mae un ferch 'da fi o'r enw Haf. Mae Haf yn un deg naw oed, mae hi'n gweithio mewn ysgol feithrin. Mae Haf yn hoffi ei gwaith yn fawr ond dyw'r gwaith ddim yn talu'n dda iawn.
Matthew Faint o frodyr a chwiorydd sy 'da chi Elen?
Elen Mae un brawd a thair chwaer 'da fi. Beth amdanoch chi?
Matthew Unig blentyn ydw i a does dim plant 'da fi.

- 1 How old are Elen's children?
- 2 Why does she want more children?
- 3 What is the disadvantage of Haf's work?
- 4 Does Matthew have any brothers or sisters?

	o'r enw	<i>called</i>
	rhagor o (SM)	<i>more</i>
	teulu (m.) -oedd	<i>family</i>
ysgol feithrin (f.)	ysgolion meithrin	<i>nursery school</i>
	brawd (m.) brodyr	<i>brother</i>
	chwaer (f.) chwiorydd	<i>sister</i>
	unig blentyn	<i>an only child</i>

Points to notice

The pattern used to say you have something in Welsh is:

Mae _____ **'da fi** / *have a* _____ **Mae ffôn** **'da fi.** / *I have a phone.*

'da is the shortened form of **gyda**. **Mae ffôn 'da fi** literally means *There is a phone with me.*

To say 'he has', 'she has', 'we have', etc., **fi** (me) is changed for the appropriate personal pronoun.

Personal pronouns

fi <i>me</i>	fe <i>he</i>	ni <i>we</i>	nhw <i>they</i>
ti <i>you (fam.)</i>	hi <i>she</i>	chi <i>you</i>	

Mae ffôn 'da fi.

I have a phone.

Mae fideo 'da ti.

You have a video. (fam.)

Mae paned o de 'da fe.

He has a cup of tea.

Mae'r manyllon 'da hi.

She has the details.

Mae mab 'da ni.

We have a son.

Mae enw diddorol 'da chi.

You have an interesting name.

Mae dwy ferch 'da nhw.

They have two daughters.

Exercise 1

Compose sentences based on the pictures. e.g. **Fi**

Mae llyfr 'da fi.



fi



ti



fe



hi



ni



chi



nhw

ci (m.) cŵn	<i>dog</i>
cath (f.) -od	<i>cat</i>
arian (m.)	<i>money</i>
beic (m.) -iau	<i>bike</i>

1 Asking if someone has something

To ask if someone has something, **oes** takes the place of **mae**:

Oes llyfr 'da chi?

Have you got a book?

Oes ci 'da fe?

Has he got a dog?

Oes arian 'da John?

Has John got any money?

Exercise 2

Look again at the pictures in Exercise 1. Compose questions based on the pictures, e.g. *Oes llyfr 'da fi?*

2 To say you have not got something

Does dim is used to say you have *not* got something:

Does dim arian 'da fe.	<i>He hasn't got any money.</i>
Does dim ci 'da hi.	<i>She hasn't got a dog.</i>
Does dim plant 'da nhw.	<i>They haven't got any children.</i>

Points to notice

As you saw in Unit 1, there is no one word for either yes or no in Welsh. Questions beginning with **oes** are answered by saying either **Oes** (yes) or **Nac oes** (no):

Oes plant 'da chi?	<i>Have you got any children?</i>
Oes, mae dau fab 'da fi.	<i>Yes, I have two sons.</i>
Oes tŷ 'da fe?	<i>Has he got a house?</i>
Oes, mae tŷ mawr 'da fe.	<i>Yes, he has a big house.</i>
Oes ci 'da fe?	<i>Has he got a dog?</i>
Nac oes, does dim ci 'da fe.	<i>No, he hasn't got a dog.</i>

Exercise 3

Answer the following questions.

e.g. *Oes car 'da'r plant? (✓)* *Oes, mae car 'da nhw.*
Oes tŷ 'da hi? (X) *Nac oes, does dim tŷ 'da hi.*

- Oes car 'da nhw? (✓)*
- Oes ci 'da ti? (X)*
- Oes arian 'da ni? (✓)*
- Oes cath 'da John? (✓)*
- Oes plant 'da chi? (X)*
- Oes llyfr 'da hi? (X)*

Exercise 4

	Bob	Gwenda	David	Lisa	Y plant
Ci	✓	X	X	✓	✓
Cath	X	✓	✓	✓	X
Tŷ mawr	✓	✓	X	X	✓

Check from the table whether the following statements are true or false.

- Mae ci 'da Bob.*
- Does dim cath 'da David.*
- Mae tŷ mawr 'da'r plant.*
- Does dim tŷ mawr 'da Gwenda.*
- Does dim ci 'da'r plant.*
- Mae cath 'da Lisa.*
- Mae cath 'da'r plant.*
- Does dim cath 'da Bob.*
- Does dim ci 'da Lisa.*
- Mae tŷ mawr 'da Bob.*

Points to notice

Note the following useful expressions which use **gyda/'da**:

Mae'n ddrwg 'da fi.	<i>I'm sorry.</i>
Mae'n dda 'da fi.	<i>I'm pleased.</i>
Does dim ots 'da fe.	<i>He doesn't mind. (often shortened to 'sdim ots)</i>
Does dim syniad 'da fi.	<i>I've no idea.</i>

Gen i In some areas of Wales, especially in the North, you will hear these forms in place of **gyda/'da**:

gen i	gynnon ni
gen ti	gynnoch chi
gynno fo	gynnyn nhw
gynni hi	
Mae gen i ddwy ferch.	<i>I have two daughters.</i>
Mae gynno fo dri mab.	<i>He has three sons.</i>
Mae gynnon ni dŷ mawr.	<i>We have a big house.</i>

As you can see from these examples, **gen i** etc. is placed straight after **mae**. When used in this position, **gen i**, **gen ti** etc. are followed by a soft mutation. Regional differences are discussed in more detail in Appendix 1.

Deialog 2

Tom and Matthew are talking over coffee in the leisure centre café. They have been playing squash.

Tom *Dw i ddim eisiau bod yn rhy hir Matthew. Hoffwn i ffonio fy mab, Steffan, mae e wedi dyweddio dros y penwythnos.*
Matthew *Beth yw oedran Steffan?*

- Tom** Dau ddeg pedair oed. Mae cariad Steffan yn ferch hyfryd iawn, mae hi'n ddau ddeg pump oed ac yn gweithio i'r un cwmni â fe.
- Matthew** Jiw jiw, Tom, dych chi ddim yn edrych yn ddigon hen i fod yn dad i fachgen dau ddeg pedair oed!
- Tom** Wel, diolch ond bydda i'n bum deg cyn hir. Dw i siŵr o fod yn ddigon hen i fod yn dad i chi Matthew.
- Matthew** Wel, dw i'n ddau ddeg wyth oed ond dw i'n teimlo'n bum deg wyth nawr ar ôl y gêm.

- 1 Why does Tom want to phone his son?
- 2 Does Tom like Steffan's girlfriend?
- 3 How old is Matthew?

bod	to be
rhy (SM)	too
mae e wedi dyweddio	he has got engaged
dros (SM)	over
penwythnos (m.) -au	weekend
oedran (m.) -nau	age
cariad (m.) -on	sweetheart
hyfryd	lovely
yr un	the same
cwmni (m.) cwmnïau	company
â (AM)	as
jiw jiw!	good God!
edrych	to look
digon	enough
hen	old
bachgen (m.) bachgyn	boy
bydda i	I will be
siŵr o fod	probably
teimlo	to feel

3 Beth yw'ch oedran chi?

How old are you?

Beth yw dy oedran di? *How old are you? (fam.)*

As you can see from the dialogues, the feminine forms of 2, 3 and 4 are used when referring to age:

Dw i'n dri deg tair oed. *I am 33 years old.*
 Mae Ann yn un deg pedair oed. *Ann is 14 years old.*


Exercise 5

Write the ages of the following people in full.

e.g. Sandra (32) *Mae Sandra'n dri deg dwy oed.*

Sally (42), Bob (13), Gwyn (3), Gwenda (98), Tony (64), Alan (73), Lisa (27), Sam (59)

Exercise 6 Coeden achau/family tree



Points to notice

In Welsh, phrases such as 'Elen's house', 'Gwennie's dog' and 'Elen's phone number' are expressed by placing the thing which is possessed in front of the possessor:

tŷ Elen **ci Gwennie** **rhif ffôn Elen**

This pattern also translates such phrases as 'the... of...':

Maer Califfornia *the mayor of California*
Prifysgol Cymru *the University of Wales*
Capten y tîm *the captain of the team*

pwyl yw?	who is?
tad (m.) -au	father
mam-gu (f.)	grandmother
modryb (f.) -edd	aunt
ewythr (m.) -edd	uncle
gŵr (m.) gwŷr	husband
gwraig (f.) gwagedd	wife
tad-cu (m.)	grandfather

Answer the questions based on the family tree.

- 1 Pwy yw tad David?
- 2 Pwy yw chwaer John?
- 3 Pwy yw mam Rhys?
- 4 Pwy yw mam-gu Bethan?
- 5 Pwy yw modryb Gethin a Rhys?
- 6 Pwy yw ewythr John a Bethan?
- 7 Pwy yw gŵr Angela?
- 8 Pwy yw gwraig Ian?
- 9 Oes gwraig 'da Gwyn?
- 10 Oes chwaer 'da Rhys?
- 11 Oes modryb 'da John?
- 12 Oes plant 'da Angela?
- 13 Oes dau fab 'da Gwyn a Jane?
- 14 Oes plant 'da Bethan?
- 15 Oes plant 'da David?

4 Dw i'n briod I'm married

Dw i ddim yn briod.	<i>I am not married.</i>
Dw i'n sengl.	<i>I'm single.</i>
Dw i wedi gwahanu.	<i>I'm separated.</i>
Gŵr gweddw ydw i.	<i>I'm a widower.</i>
Gwraig weddw ydw i.	<i>I'm a widow.</i>
Dw i wedi cael ysgariad.	<i>I am divorced.</i>

Exercise 7

Listen to the recording. You will hear four people being described; fill in the grid.

Name	Married	Single	Divorced	Widowed	Son	Daughter

5 Faint o... sy 'da chi?

How many/much... have you got?

Sawl... sy 'da chi?

How many... have you got?

Faint o and **sawl** both mean *how many?* **Faint o** is used with plural nouns (**faint o lyfrau?** *how many books?*) and **sawl** with singular nouns (**sawl llyfr?** *how many books?*). **Faint o** is usually used when you expect a large number in the answer or if the answer cannot be counted: **Faint o Gymraeg?** *How much Welsh?*

Faint o Gymraeg sy 'da chi? *How much Welsh do you speak?*

Faint o sglodion sydd ar y plât? *How many chips are on the plate?*

Faint o laeth sy yn y coffi? *How much milk is in the coffee?*

Faint o waith sy 'da chi? *How much work have you got?*

Sawl is applied only to nouns that can be counted and is followed by a singular noun:

Sawl dysgwr sy yn y dosbarth? *How many learners are in the class?*

Sawl tiwtor sy ar y cwrs? *How many tutors are on the course?*

Sawl wy? *How many eggs?*

Sawl brechdan? *How many sandwiches?*

Points to notice

Sy is a form of the present tense of **bod**. **Sy** is used after **pwyl**, **beth**, **faint o**, **sawl**, **pa**, and **pa fath o** when it is followed by a verb-noun, an adjective or a preposition: **Pwy sy'n gweithio?** **Faint sy'n dod?** **Beth sy'n ddiddorol?** **Sawl tiwtor sy ar y cwrs.** **Sy'n** can also mean *who is*, *which is*. **Sy** is the shortened version of **sydd**.

Deialog 3

Tom is excited after buying a new model ship to add to his collection. He asks his friends whether they collect anything.

Tom Dych chi'n casglu unrhywbeth Jayne?
Jayne Ydw, dw i'n casglu dreigiau.

- Tom** Faint o ddreigiau sy 'da chi?
Jayne Mae dros ddau ddeg o ddreigiau 'da fi erbyn hyn. Maen nhw dros y tŷ i gyd, ac mae'r casgliad yn tyfu drwy'r amser.
Tom Mae llawer o fodolau 'da fi - modelau o longau o bob cyfnod.
Matthew Wel, dw i ddim yn casglu dim byd. Dw i ddim eisiau llenwi fy fflat â phethau twp fel dreigiau a llongau!

- 1 What does Jayne collect and how many does she have?
- 2 Does Matthew collect anything?
- 3 What does Matthew think about collecting things?

casglu	to collect
unrhywbeth	anything
draig (f.) dreigiau	dragon
coch	red
erbyn hyn	by now
dros y tŷ i gyd	all over the house
casgliad (m.) -au	collection
tyfu	to grow
drwy'r amser	all the time
llawer o (SM)	lots of
llong (f.) -au	ship
pob	every
cyfnod (m.) -au	period
dim byd	nothing, anything
twp	silly
llenwi	to fill

Exercise 8

Answer the questions that follow according to the example. The questions are based on the grid of Gwyn, Tina, Clare and John's collections.

Faint o recordiau sy 'da Gwyn? Mae tri deg chwech o recordiau 'da Gwyn.

	Recordiau	Llyfrau	Stampiau	Llongau
Gwyn	36	23	64	31
Tina	21	90	55	89
Clare	78	45	87	47
John	52	14	99	66

- 1 Faint o lyfrau sy 'da Clare?
- 2 Faint o stampiau sy 'da John?
- 3 Faint o recordiau sy 'da Tina?
- 4 Faint o longau sy 'da Gwyn?
- 5 Faint o stampiau sy 'da Clare?
- 6 Faint o lyfrau sy 'da Tina?

Exercise 9

Many of the class members also have pets. Form questions and answers based on the following pictures. Remember that sawl is followed by a singular noun. An example is given below.

Alison



Sawl cath sy 'da Alison?

Mae dwy gath 'da hi.

Sarah



Megan



Linda



cwningen (f.) cwniogod rabbit
 ceffyl (m.) -au horse

Welsh names

There is a variety of Welsh first names, reflecting the many aspects of Welsh history, religion and culture. Many are the names of kings and queens, poets and saints and are between 1,000 and 2,000

years old. Others reflect aspects of nature and the Welsh countryside, while many of the most popular names today can be traced to the *Four Branches of the Mabinogi*, some of the oldest Welsh folktales.

It is also becoming increasingly popular to give children Welsh last names. One way is to reverse an anglicized surname to its Welsh form, for example *Griffiths* > **Gruffudd**. Another way is to use the father's first name after **ap-** (son) (or **ab** in the case of a vowel) or **ferch** (daughter). For example, **Gethin ap Phylip**. Yet another alternative is to use the father's first name as a last name, for example, **Gwenllïan Owen**. The last name can be omitted altogether or the name of a district can be used.

Can you now do the following?	Yes	No	If not, go to page
Say how many children you have			26
Say that you possess something			24
Say how old you are			28
Ask others how old they are			28
Ask how much of something someone has			31
Ask someone what they collect and talk about things you collect			32

04

siarad am eich hoffterau a'ch anhoffterau

talking about your likes and dislikes

In this unit you will learn how to

- say what you and others like doing
- use the present tense
- talk about your likes, dislikes and preferences
- talk about what you do on different days of the week
- describe someone

Deialog 1

Elen and Jayne discuss what they do in their spare time.

- Elen** Beth dych chi'n hoffi ei wneud yn eich amser hamdden Jayne?
Jayne Dw i'n hoffi darllen a dw i'n hoffi coginio. Dw i'n mynd i nofio bob wythnos hefyd.
Elen Dw i ddim yn hoffi'r dŵr ond mae fy ngŵr Rob a'r plant yn nofio'n aml.
Jayne Pa mor aml maen nhw'n mynd i'r pwll?
Elen Wel, mae Rob yn mynd â'r plant dair gwaith yr wythnos. Mae e'n hoffi cadw'n heini.
Jayne Pa fath o bethau dych chi'n eu gwneud yn eich amser rhydd?
Elen Dw i'n hoffi chwarae tennis a dw i'n gwneud pethau gyda'r plant. Dyn ni'n merlota bob penwythnos.
Jayne Oes ceffyl 'da nhw?
Elen Nac oes, ond maen nhw'n gofyn am un bob dydd.

- 1 How often does Jayne swim?
- 2 Who does Rob take to the swimming pool?
- 3 Have the children got a horse?

hamdden (f.)	leisure
darllen	to read
coginio	to cook
nofio	to swim
wythnos (f.) -au	week
aml	often
pwll (m.) pyliau	pool
mynd â (AM)	to take
tair gwaith	three times
cadw'n heini	to keep fit
pa fath o (SM)	what sort of
gwneud	to do, to make
rhydd	free
chwarae	to play
merlota	to pony trek
gofyn am (SM)	to ask for

Points to notice

The Welsh word for 'every' is **pob**. **Pob** mutates softly to **bob** when it is followed by a noun which conveys time in one form or other:

bob dydd iau	<i>every Thursday</i>
bob penwythnos	<i>every weekend</i>
bob amser	<i>all the time</i>
bob tro	<i>every time</i>
bob dydd	<i>every day</i>

1 Finding out what someone likes doing in their spare time

Beth dych chi'n hoffi ei wneud yn eich amser hamdden?

Dw i'n hoffi coginio.

Dw i ddim yn hoffi chwarae pêl-droed.

Beth mae e'n hoffi ei wneud yn ei amser hamdden?

Mae e'n hoffi chwarae criced.

Dyw e ddim yn hoffi merlota o gwbl.

Beth mae hi'n hoffi ei wneud yn ei hamser hamdden?

Mae hi'n hoffi mynd i'r sinema.

Dyw hi ddim yn hoffi mynd i'r dafarn.

Beth maen nhw'n hoffi ei wneud yn eu hamser hamdden?

Maen nhw'n hoffi mynd i'r theatr.

Dyn nhw ddim yn hoffi chwaraeon o gwbl.

pêl-droed (f.)	<i>football (soccer)</i>
ei (SM)	<i>his</i>
i'r	<i>to the</i>
dafarn (f.) -au	<i>pub</i>
eu	<i>their</i>
chwaraeon	<i>sport</i>

2 Saying how often someone does their hobby

Pa mor aml dych chi'n sgïo? *How often do you ski?*
Dw i'n rhedeg yn aml. *I run often.*
Dw i'n merlota nawr ac yn y man. *I go pony trekking now and again.*
Mae e'n cadw'n heini ddwywaith yr wythnos. *He keeps fit twice a week.*
Mae hi'n nofio yn yr haf. *She swims in summer.*
Maen nhw'n sgïo yn y gacaf. *They ski in winter.*

Points to notice

You have already seen the word **gwaith** which means *work*. Gwaith can also mean *time*. When meaning time, it is a feminine singular noun and therefore the feminine numbers you saw in Unit 3 are used. In the sentence **Mae e'n cadw'n heini ddwywaith yr wythnos**, dwywaith mutates as it is an adverb of time.

Exercise 2

Listen to the recording and fill in the table.

	Diddordeb	Pa mor aml
1		
2		
3		
4		

3 Pa fath o raglenni teledu dych chi'n eu hoffi?

Dw i'n hoffi rhaglenni natur.
Dyn ni'n hoffi rhaglenni ffugwyddonol.
Pa fath o raglenni teledu mae Phyl yn eu hoffi? *Mae e'n hoffi rhaglenni dogfen.*
Pa fath o raglenni maen nhw'n eu hoffi? *Maen nhw'n hoffi dramâu.*

Points to notice

You will have noticed the different letter changes after the pronouns in the last examples. (We look at pronouns again in Unit 10.) Both **ei** (*her*) and **eu** (*their*) cause the letter 'h' to be placed in front of a vowel: **ei horeu hi** (*her orange*); **eu horeu nhw** (*their orange*).

So far in the course you have seen some of the forms of the verb-noun **bod** (*to be*). Here is the complete list:

dw i (I am)	ydw i? (am I?)	dw i ddim (I'm not)
rwyt ti (you are)	wyt ti? (are you?)	dwyt ti ddim (you're not)
mae e (he is)	ydy e? (is he?)	dyw e ddim (he's not)
mae hi (she is)	ydy hi? (is she?)	dyw hi ddim (she's not)
dyn ni (we are)	dyn ni? (are we?)	dyn ni ddim (we're not)
dych chi (you are)	dych chi? (are you?)	dych chi ddim (you're not)
maen nhw (they are)	dyn nhw? (are they?)	dyn nhw ddim (they're not)

Dyn ni ddim yn nerfus. *We are not nervous.*
Maen nhw'n dod o Bontypridd. *They come from Pontypridd.*

Dyn nhw'n gwellthio'n galed? *Are they working hard?*

In English, there are three ways of expressing the present tense, i.e. *I read, I am reading, I do read*. In Welsh, these are all expressed in the same way: **Dw i'n darllen**.

Dych chi'n darllen? *Do you read? Are you reading?*

You will also have noticed **yw** in sentences such as **Beth yw'ch rhif ffôn chi?** **Pwy yw tad David?** **Yw** is used when two nouns refer to the same thing or have the same identity: **Ysgrifenyddes yw hi**. You might also hear **ydy**: **Beth ydy'ch rhif ffôn chi?** **Beth ydy'ch enw chi?** **Ysgrifenyddes ydy hi**.

Even when the subject of a sentence is plural (**Mae'r plant yn merlota**; **mae'r dysgwyr yn y dosbarth**), the verb used is **mae**, the third person singular.

Exercise 1

How would you say the following sentences in Welsh?

- I like sugar and strong black coffee.
- He is very interesting.
- They aren't busy.
- Are we playing football tomorrow?
- Are they learning Welsh in an evening class?
- Is he nervous?
- You are not going to the cinema again! (fam.)
- We like sports.
- He doesn't collect ships.
- Are they enjoying the swimming?

rhaglen (f.) -ni	<i>programme</i>
natur (f.)	<i>nature</i>
ffugwyddonol	<i>science fiction</i>
rhaglen ddogfen (f.)	<i>documentary</i>
rhaglenni dogfen (f.)	<i>documentaries</i>
drama (f.) dramâu	<i>plays</i>

Deialog 2

Matthew is a keen cricket fan and wants to know if Tom would like to watch the game between England and Australia on his television.

- Matthew** Dych chi'n dod i wyllo'r gêm, Tom? Mae teledu symudol 'da fi yn fy ystafell.
- Tom** Pa gêm?
- Matthew** Yr un rhwng Lloegr ac Awstralia wrth gwrs. Does dim diddordeb 'da chi mewn criced 'te?
- Tom** Oes, mae tipyn bach o ddiddordeb 'da fi, ond mae'n well 'da fi snwcer. Dw i'n mynd i chwarae yn y dafarn nawr ac yn y man.
- Matthew** Dw i'n hoff o chwarae snwcer hefyd.
- Elen** Mae'n gas 'da fi griced ond mae Rob yn hoffi'r gêm yn fawr iawn. Fe yw capten tîm y dref.
- Tom** Mae mwy o ddiddordeb 'da fi mewn rygbi. Dw i'n mynd i wyllo fy nhîm rygbi lleol bob wythnos yn y gaeaf.

- Does Tom like cricket?
- What sport does Elen's husband play?
- What team does Tom follow every week?

gwyllo	<i>to watch</i>
symudol	<i>portable, mobile</i>
ystafell (f.) -oedd	<i>room</i>
pa? (SM)	<i>which?</i>
rhwng	<i>between</i>
Lloegr (f.)	<i>England</i>
'te	<i>then</i>
hoff o (SM)	<i>fond of</i>
mwy o (SM)	<i>more</i>
lleol	<i>local</i>

4 How to ask if someone is interested in something

The *gyda* construction introduced in Unit 3 can also be used when talking about interests and preferences:

- Oes diddordeb 'da chi mewn hanes? *Are you interested in history?*
- Oes diddordeb 'da chi mewn llenyddiaeth? *Are you interested in literature?*
- Oes diddordeb 'da chi yn y theatr? *Are you interested in the theatre?*
- Nac oes, dw i'n credu ei fod e'n ddiflas. *No, I think it is boring.*
- Mae diddordeb mawr 'da fi ynddo fe. *I have a great interest in it.*
- 'Sdim diddordeb 'da fi ynddo fe o gwbl. *I am not interested in it at all.*

The *gyda* construction is also used to express a hatred of something:

- Mae'n gas 'da ni ffilmiau arswyd. *We hate horror films.*
- Mae'n gas 'da hi goginio. *She hates cooking.*

You could also say:

- Dyn ni'n casáu ffilmiau arswyd. *We hate horror films.*
- Mae hi'n casáu coginio. *She hates cooking.*

Preferences are also expressed using *gyda*:

- Mae'n well 'da fe nofio. *He prefers swimming.*

Points to notice

Mewn as you saw in Unit 1 means 'in' and is followed by an indefinite noun:

Oes diddordeb 'da ti mewn criced? (in general)

Yn is used with definite nouns:

Oes diddordeb 'da ti yn y criced? (i.e. a particular match)

Definite: a word preceded by either *y*, a proper name (Cardiff, Sam), a pronoun (me, her) or a possessive pronoun (my, her).

A soft mutation follows the construction: **mae'n gas 'da fi** and **mae'n well 'da fi**:

- Mae'n gas 'da fi griced.** *I hate cricket.*
- Mae'n well 'da hi ferlota.** *She prefers pony trekking.*

Exercise 3

The grid shows how different people (Sonia, Byron and Catrin) rate different activities.

	Sonia	Byron	Catrin
operâu sebon	5/10	10/10	10/10
rhaglenni cwis	10/10	0/10	2/10
y newyddion	0/10	5/10	3/10
rhaglenni chwaraeon	1/10	8/10	4/10

opera sebon (f.) operâu sebon
newyddion soap opera
news

Using the grid, fill in the blanks in the sentences.

- 1 Mae'n well 'da Sonia _____.
- 2 Mae'n gas 'da Byron _____.
- 3 Mae Catrin yn eithaf hoff o _____.
- 4 Dyw Sonia ddim yn hoffi _____ na _____.
- 5 Mae'n gas 'da Catrin _____.
- 6 Mae Byron yn eithaf hoff o'r newyddion, ond mae'n well 'da fe _____.
- 7 Dyw Catrin ddim yn hoffi'r newyddion o gwbl, mae'n well 'da hi _____.

5 Dyddiau'r wythnos Days of the week

dydd Sul	Sunday	nos Sul	Sunday evening/night
dydd Llun	Monday	nos Lun	Monday evening/night
dydd Mawrth	Tuesday	nos Fawrth	Tuesday evening/night
dydd Mercher	Wednesday	nos Fercher	Wednesday evening/night
dydd Iau	Thursday	nos Iau	Thursday evening/night
dydd Gwener	Friday	nos Wener	Friday evening/night
dydd Sadwrn	Saturday	nos Sadwrn	Saturday evening/night

6 How to find out where someone is going

Ble dych chi'n mynd?
Pryd dych chi'n mynd?
Sut dych chi'n mynd?
Pam dych chi'n mynd?

mewn awyren
ar long
mewn tacsî

Dw i'n mynd i'r theatr.
Dw i'n mynd dydd Iau.
Dw i'n mynd ar y bws.
Dw i'n mynd i weld drama.

in an aeroplane
on a ship
in a taxi

Points to notice

I'r theatr – to the theatre. Sometimes you say 'to the' in Welsh where you say only 'to...' in English. The main examples are: **i'r ysgol**, to school, **i'r eglwys**, to church, **i'r capel**, to chapel, **i'r dref**, to town, **i'r dosbarth**, to class, **i'r gwely**, to bed, **i'r ysbyty**, to hospital.

Mae Siôn yn y gwely, Siôn is in bed. **Y** is also used when you would normally say 'in' in English. You would use **yn y** rather than just **yn** with the words just listed: **yn yr ysgol**, at school, **yn yr eglwys**, in church etc.

Deialog 3

After the cricket game has finished, Matthew rejoins his friends who are discussing clubs and societies.

Matthew Dw i'n hoffi canu hefyd, dw i'n aelod o gôr y capel yn Llundain. Dyn ni'n ymarfer bob nos Fercher ac yn canu yn y gwasanaeth bore dydd Sul.

Elen Dych chi'n cystadlu mewn eisteddfodau?

Matthew Ydyn, gwaetha'r modd. Dyn ni'n cystadlu yn yr eisteddfodau yn Llundain ond dyn ni ddim yn ennill yn aml. Dw i ddim yn rhy hoff o eisteddfodau a chystadlu.

Elen Oes rhywun arall yn aelod o gôr neu gymdeithas? Dw i'n aelod o Merched y Wawr, dyn ni'n cwrdd bob mis yn festri'r capel.

Tom Dw i'n aelod o'r gymdeithas hanes lleol yn y dref.

Jayne Mae diddordeb 'da fi mewn hanes, ond dw i ddim yn aelod o unrhyw gymdeithas hanes. Dw i'n aelod o'r clwb golff.

- 1 Does Matthew practise every Friday night?
- 2 Is Matthew's choir successful?
- 3 Is Jayne a member of a history society?

canu	to sing
aelod (m.) -au	member
côr (m.) corau	choir
gwasanaeth (m.) -au	service
cystadlu	to compete
eisteddfod (f.) -au	literary and music festival
gwaetha'r modd	worse luck
ennill	to win
rhywun	anyone, someone
neu (SM)	or
cymdeithas (f.) -au	society
mis (m.) -oedd	month
festri (f.) festrioedd	vestry

Points to notice

In Welsh, phrases such as the choir of the church, the church choir and the church's choir are all expressed the same way: the two parts of the phrase are placed together: **côr y capel**.

The words 'of the' are not translated:

festri'r capel	<i>the chapel vestry/the vestry of the chapel/the chapel's vestry</i>
tîm hoci'r ysgol	<i>the school's hockey team/ the hockey team of the school</i>

Note that the answer to **Dych chi...?**, when you are addressing a group of people is **Ydyn/Nac ydyn**: **Dych chi'n hoffi chwarae golff?** **Ydyn**

In Welsh, if you are talking about a particular day, there is no need to use the word **ar** (on):

Ble dych chi'n mynd ddydd Llun?	<i>Where are you going on Monday? (on a specific Monday)</i>
--	--

By putting **ar** in front of a day of the week, you are saying that you go somewhere or do something on that day every week: **ar ddydd Llun** (on Mondays):

Dw i'n mynd i nofio ar ddydd Gwener.	<i>I go swimming on Fridays.</i>
---	----------------------------------

7 Beth yw'ch hoff ffilm chi? What is your favourite film?

The Welsh word for favourite is **hoff**. Hoff belongs to a special group of adjectives that come before the noun. All adjectives coming before the noun they describe cause a soft mutation:

Beth yw'ch hoff lyfr chi?	<i>What is your favourite book?</i>
Beth yw'ch hoff fwyd chi?	<i>What is your favourite food?</i>
Fy hoff lyfr i yw <i>The Hobbit</i> .	<i>My favourite book is The Hobbit.</i>
Fy hoff ffilm i yw <i>StarWars</i> .	<i>My favourite film is StarWars.</i>
Fy hoff fwyd yw <i>bananas</i> .	<i>My favourite food is bananas.</i>

Points to notice

The other main adjectives which behave in the same way as **hoff** and come before the noun are **hen** (old), **unig** (only) and **prif** (main): **hen lyfr**, an old book; **unig ddiddordeb**, only interest; **prif ddiddordeb**, main hobby, main interest.

8 Describing someone

You will remember the pattern used in Unit 3 to say that you possess something: **Mae car 'da fi**. We use the same pattern to describe someone's physical features:

Mae gwallt du 'da fe.	<i>He has black hair.</i>
Mae clustiau mawr 'da nhw.	<i>They have big ears.</i>
Mae llygaid gwyrdd 'da hi.	<i>She has green eyes.</i>

Exercise 4 Elen a'i dosbarth Elen and her class

Mae Elen yn ferch bert iawn. Mae gwallt cyrliog du 'da hi. Mae ei gwallt yn fyr iawn. Mae hi'n denau ac yn fyr. Mae llygaid brown 'da hi. Mae Tom yn dal iawn ac mae trwyn hir 'da fe. Mae gwallt brown syth 'da fe a barf drwchus. Mae mwstas 'da fe hefyd. Dyw Matthew ddim yn benfoel eto ond mae e'n dechrau colli ei wallt. Mae e'n olygus ac mae llygaid glas 'da fe a gwallt coch. Mae Jayne yn hapus ac yn gwenu trwy'r amser. Mae gwallt hir melyn 'da hi a wyneb crwn. Mae llygaid glas 'da hi.

llygad (f.)	llygaid	eye
	pert	pretty
	cyrlog	curly
	byr	short
	tenau	thin
	tai	tall
trwyn (m.)	-au	nose
	syth	straight
barf (f.)	-au	beard
	trwchus	thick
mwstas (m.)	mwstaslys	moustache
	penfoel	bald
	eto	yet
	colli (coll-)	to lose, to miss
	golygus	handsome
	glas	blue
gwenu (gwen-)		to smile
	melyn	yellow
wyneb (m.)	-au	face
	crwn	round

Answer the following questions.

- 1 Is Tom taller than Elen?
- 2 Has Matthew got blue eyes?
- 3 Who has red hair?
- 4 Who has curly hair?
- 5 What is the colour of Jayne's hair?
- 6 Has Jayne got short hair?

9 Asking someone if they can do something

Dych chi'n gallu gyrru car?	Can you drive a car?
Dych chi'n gallu defnyddio cyfrifiadur?	Can you use a computer?
Dych chi'n gallu chwarae offeryn cerddorol?	Can you play a musical instrument?

Asking how easy or how difficult something is

Pa mor hawdd yw hi?	How easy is it?
Pa mor anodd yw hi?	How difficult is it?
Mae hi'n anodd.	It is difficult.

Mae hi'n eithaf anodd.	It is quite difficult.
Mae'n ddigon hawdd.	It is easy enough.
Mae'n rhy anodd.	It is too difficult.

Asking how someone is getting on at something

Sut dych chi'n dod ymlaen?	How are you getting on?
Dw i'n gwneud yn dda iawn.	I'm doing very well.
Dw i ddim yn gwneud yn dda.	I'm not doing well.
Dw i'n anobeithiol.	I'm hopeless.

Asking how often someone has lessons

Pa mor aml dych chi'n cael gwersi?	How often do you have lessons?
Dw i'n cael gwers bob nos Lun.	I have a lesson every Monday night.

Welsh societies

There are many different societies in Wales operating in the Welsh language. **Urdd Gobaith Cymru**, a voluntary youth movement founded in 1922, organizes activities such as quizzes, sports and trips locally, nationally and regionally. There are two Urdd activity centres at Llangrannog and Glanllyn near Bala, where Urdd members can experience a wide range of outdoor activities. The Urdd organizes an annual eisteddfod held at the end of May which is believed to be the largest youth festival in Europe.

Merched y Wawr is a Welsh social movement for women which was founded in 1967. It has branches throughout Wales and organizes an annual eisteddfod and publishes a quarterly magazine entitled *Y Wawr*. A sister organization, **Gwawr**, was recently founded with the aim of attracting younger members to the movement.

Cymdeithas Edward Llwyd is a society for anyone who is interested in nature and the history of Wales, its main activity being organized walks which are held weekly. Study sessions and workshops are held at regular intervals and a magazine entitled *Y Naturiaethwr* is printed annually.

Can you now do the following?	Yes	No	If not, go to page
Say what you and others like doing			37
Say how often someone does their hobby			39
Talk about what television programmes you like			39
Talk about things you dislike			41
Say what day of the week it is			42
Talk about your favourite film, book or food			45
Ask someone if they can do something			46
Describe someone			45

05

estyn a derbyn gwahoddiad extending and accepting an invitation

In this unit you will learn how to

- extend, accept and refuse an invitation
- apologize to someone
- ask someone what they are doing at a particular time
- arrange to meet someone
- answer questions in the present tense
- talk about the weather

Deialog 1

Elen invites some of her group to go to the local eisteddfod with her.

- Elen** Mae hi'n wyl y banc y penwythnos 'ma a bydd eisteddfod yn Neuadd y Dref. Hoffech chi ddod? Mae tocynnau 'da fi i'r cyngerdd nos Sadwrn hefyd.
- Matthew** Na hoffwn, dw i'n mynd i lawer o eisteddfodau yn Llundain. Mae'n gas 'da fi edrych ar blant yn perfformio!
- Jayne** Mae diddordeb 'da fi mewn mynd, dw i eisiau cael y cyfle i glywed Cymraeg ac i ymarfer yr iaith. Dyn ni ddim yn cael digon o gyfle i siarad â Chymry Cymraeg ar y cwrs, does dim digon o amser 'da ni. Maen nhw'n siarad yn gyflym iawn yn yr ardal 'ma.
- Tom** Hoffwn i ddod hefyd, mae'n gas 'da fi eisteddfodau ond hoffwn i ymarfer fy Nghymraeg.
- Elen** Dych chi eisiau tocyn i'r cyngerdd?
- Jayne** Ydw, os gwelwch yn dda.
- Matthew** Dim diolch – ych a fi.
- Tom** Gaf i bedwar tocyn, os gwelwch yn dda. Mae fy ngwraig, fy mab a'i gariad yn dod i ymweld â fi'r penwythnos 'ma.
- Jayne** Ydyn nhw'n siarad Cymraeg?
- Tom** Nac ydyn, ond mae tipyn bach o Gymraeg 'da Jenny, cariad Steffan. Mae hi'n mynd i ddosbarth bob nos Lun mewn tafarn yn y dref.

- 1 Does Matthew want to go to the eisteddfod?
- 2 How many people are coming to stay with Tom?
- 3 Where is Jenny learning Welsh?

gŵyl y banc (f.)	gwyliau'r banc	bank holiday
neuadd y dref (f.)	neuaddau tref	town hall
tocyn (m.)	-nau	ticket
cyngerdd (m.)	cyngerddau	concert
	edrych ar (SM)	to look at
cyfle (m.)	-oedd	opportunity
	clwyd	to hear
	ymarfer	to practise
	cyflym	fast
ardal (f.)	-oedd	area
	ych a fi!	yuk!

1 Extending invitations

Hoffech chi...?	Would you like...?
Dych chi eisiau...?	Do you want...?
Hoffech chi ymuno â ni heno?	Would you like to join us tonight?
Dych chi eisiau dod i'r parti?	Do you want to come to the party?

2 Accepting and refusing an invitation

Hoffwn, hoffwn i ddod yn fawr iawn.	Yes, I would like to come very much.
Na hoffwn, mae gormod o waith 'da fi.	No, I have too much work.
Pam lai, dw i ddim yn brysur heddiw.	Why not, I'm not busy today.
Alla i ddim, mae'n ddrwg 'da fi.	I'm sorry, I can't.
Nac ydw, mae'n well i fi aros i mewn heno.	No, I'd better stay in tonight.
Ydw, dw i'n hoffi cwrdd â phobl newydd.	Yes, I like meeting new people.

3 Ways of saying you're sorry

Mae'n ddrwg 'da fi.	I'm sorry.
Mae'n ddrwg calon 'da fi.	I'm really sorry.
Mae'n rhaid i fi ymddiheuro.	I have to apologise.

4 Giving excuses

Mae'n rhaid i fi edrych ar ôl y plant.	I have to look after the children.
Dw i'n mynd i gael cinio gyda fy rhieni.	I'm going to have dinner with my parents.
Dw i wedi addo mynd allan gyda John.	I have promised to go out with John.
Mae hi'n rhy oer i nofio.	It's too cold to swim.

Points to notice

Note the soft mutation after **hoffech chi**: **hoffech chi ddod**?

Wedi is used with the present tense to express **have**:

Dw i'n mynd	I am going
Dw i wedi mynd	I have gone

We look at **wedi** in more detail in Unit 6.

Mae'n rhaid i fi (*I must*). A soft mutation follows the word **fi**. **Rhaid** is covered in more detail in Unit 7.

Exercise 1

Look at these seven sentences based on Deialog 1. Are they true or false?

- 1 Bydd yr eisteddfod yn y dafarn.
- 2 Does dim tocynnau 'da Elen.
- 3 Mae Matthew'n hoffi gweld plant yn perfformio.
- 4 Mae Jayne yn siarad â Chymry Cymraeg bob dydd.
- 5 Mae'n gas 'da Tom eisteddfodau.
- 6 Dyw Matthew ddim eisiau tocyn.
- 7 Mae mab Tom yn mynd i ddosbarth.

Exercise 2

Listen to the recording and then answer the questions. Three flatmates are discussing what they are doing that evening.

- 1 What is the invitation for?
- 2 Why doesn't Ceri want to go?
- 3 How many go in the end?

5 Asking someone what they will be doing

Beth dych chi'n ei wneud nos yfory?	<i>What are you doing tomorrow night?</i>
Beth dych chi'n ei wneud y prynhawn 'ma?	<i>What are you doing this afternoon?</i>
Dw i ddim yn gwneud dim byd.	<i>I'm not doing anything.</i>
Dw i'n rhydd nos yfory.	<i>I'm free tomorrow night.</i>

6 Question and answer forms

As you saw in Unit 1, there is no one word in Welsh for 'yes' or 'no'. Here are the answer forms for the present tense:

Ydw	<i>Yes (I am)</i>	Nac ydw	<i>No (I'm not)</i>
Wyt	<i>Yes (you are)</i>	Nac wyt	<i>No (you're not) (fam.)</i>
Ydy	<i>Yes (he/she is)</i>	Nac ydy	<i>No (he's/she's not)</i>
Ydyn	<i>Yes (we are)</i>	Nac ydyn	<i>No (we're not)</i>
Ydych	<i>Yes (you are)</i>	Nac ydych	<i>No (you're not)</i>
Ydyn	<i>Yes (they are)</i>	Nac ydyn	<i>No (they're not)</i>
Dych chi'n dod o Gymru?		Ydw.	
Dyn nhw'n nerfus?		Nac ydyn.	

Exercise 3

Answer the following questions according to the example.

Ydyn nhw eisiau mynd i ferlota? (✓) **Ydyn**

- 1 Ydy Elen eisiau dod i'r dafarn nos Wener? (X)
- 2 Dych chi eisiau chwarae criced heno? (✓)
- 3 Hoffech chi weld y ffilm? (✓)
- 4 Ydyn ni'n cwrdd nos Wener? (X)
- 5 Oes chwaer 'da hi? (X)
- 6 Ydw i'n ennill? (✓)
- 7 Hoffech chi gystadlu yn yr eisteddfod? (X)
- 8 Gaf i'r manylion os gwelwch yn dda? (✓)
- 9 Oes sinema yn y dref? (✓)
- 10 Gaf i ddod gyda chi i'r clwb heno? (X)

Exercise 4 Rhagolygon y tywydd Weather forecast

On Sunday morning the farming forecast on **Radio Cymru** summarizes the weather for the following week:

Os dych chi'n teithio fore dydd Llun, mae rhybudd o rew i Gymru gyfan. Bydd hi'n sych a heulog yn y bore ond bydd glaw'n dod o'r gorllewin a bydd hi'n wlyb iawn erbyn y prynhawn. Bydd hi'n rhewi unwaith eto yn y nos, a bydd hi'n niwlog iawn yn y de.

Bydd hi'n sych bore dydd Mawrth ond bydd hi'n mynd yn gymylog iawn a bydd cawodydd trwm yn y prynhawn. Bydd y tymheredd yn naw gradd Celsius, pedwar deg naw gradd Fahrenheit. Bydd gwyntoedd yn chwythu'n gryf o'r de-orllewin.

Ddydd Mercher bydd y tywydd yn fwyn ond yn wyntog ac yn bwrw glaw yn y gogledd. Bydd y tymheredd yn un deg tair gradd Celsius, pum deg chwech gradd Fahrenheit.

Bydd hi'n wyntog iawn ddydd Iau a bydd y gwyntoedd cryf a'r glaw trwm yn gwneud gyrru'n anodd. Bydd y tywydd yn naw gradd Celsius, pedwar deg naw gradd Fahrenheit.

Bydd y tywydd yn well y penwythnos nesaf. Bydd hi'n heulog ac yn sych ddydd Gwener a dydd Sadwrn. Bydd y tymheredd yn un deg wyth gradd Celsius, chwe deg pedair gradd fahrenheit.

- 1 Will it be dry on Monday afternoon?
- 2 What will the temperature be on Tuesday?
- 3 Will it rain in South Wales on Wednesday?
- 4 What will make driving conditions difficult on Thursday?
- 5 Is the weather likely to improve over the weekend?

teithio	to travel
rhybudd (m.) -lon	warning
rhew (m.)	ice, frost
cyfan	whole
bydd hi	it will be
sych	dry
heulog	sunny
glaw (m.)	rain
gwlyb	wet
erbyn	by
rhewi	to freeze
unwaith	once
niwlog	foggy, misty
cymylog	cloudy
cawod (m.) -ydd	shower
trwm	heavy
tymheredd (m.)	temperature
gradd (f.) -au	degree
gwynt (m.) -oedd	wind
chwythu	to blow
mwyn	mild
gwyntog	windy
bwrw glaw	to rain
gyrru	to drive

Points to notice

As you saw in the excuse, **Mae hi'n rhy oer i nofio**, and in the radio weather forecast, when discussing the weather the feminine forms of the verb **bod** are used:

Mae hi'n stormus heddiw.	<i>It is stormy today.</i>
Bydd hi'n oer yfory.	<i>It will be cold tomorrow.</i>

Mae hi'n is often contracted to **mae'n**: **Mae'n stormus heddiw.**

Yr/y always comes before the seasons in Welsh:

yr haf	summer	yr hydref	autumn
y gaeaf	winter	y gwanwyn	spring


To discuss today's weather the present tense is used:

Sut mae'r tywydd heddiw? *How is the weather today?*

In conversational Welsh you are likely to hear people using the immediate future:

Mae'n mynd i fwrw glaw.	<i>It is going to rain.</i>
Mae'n mynd i fwrw cesair.	<i>It is going to hail.</i>

Exercise 5 Points of the compass



Look at the map of Wales in the front of this book (page xvi) and locate the following places, e.g. **Mae Pwllheli yn y gogledd-orllewin.**

Pwllheli, Tyddewi, Aberystwyth, Harlech, Caerdydd, Wrecsam, Abertawe, Conwy.

Points to notice

Nasal mutation

Yn (in) causes the nasal mutation. There is an example of this when Tom says in Unit 2 that he is a solicitor, **yngh Nghaerdydd**. Look at the letter changes on the mutation chart on page xviii. The preposition **yn** (in), is never shortened. **Yn** itself changes its sound before **m**, **mh**, **ng** and **ngh** to be like the sound it creates:

Portmeirion ym **M**hortmeirion Caerfyrddin yng **N**ghaerfyrddin
Bangor ym **M**angor Gwynedd yng **N**gwynedd
Tywyn yn **N**hywyn Dolgellau yn **N**olgellau

1 The National Eisteddfod

The National Eisteddfod is the main cultural festival in Wales. It is held annually during the first full week in August and the location alternates between North and South Wales.

There are three main ceremonies during Eisteddfod week – the Crowning ceremony to honour the best free verse poet, the Prose Medal Ceremony and the Charing ceremony for the best ode written in strict metres. Around the main pavilion where these ceremonies are held, there are various stalls including the visual arts, crafts, learners, drama, science, etc.

Can you now do the following?	Yes	No	If not, go to page
Ask someone whether they would like to do something			51
Tell someone you would like to do something			51
Refuse to do something			51
Say you are sorry and give an excuse			51
Ask what someone will be doing			52
Describe the weather			54

Now turn to page 241 and try progress test 1.

max help you?

gaf i'ch helpu
chi?

In this unit you will learn how to

- ask someone for something in a shop
- compare different things
- say how much something costs
- express an opinion on something
- say you have done something
- describe something

Deialog 1

Elen goes shopping after receiving an invitation to a wedding party.

- Siopwr** Bore da. Gaf i'ch helpu chi?
Elen Bore da. Dw i'n chwilio am esgidiau maint pump.
Siopwr Pa fath o esgidiau dych chi eu heisiau?
Elen 'Sdim ots, ond dw i eisiau eu gwisgo nhw gyda ffrog. Dw i wedi cael gwahoddiad i barti priodas nos Sadwrn nesaf.
Siopwr Unrhyw liw arbennig?
Elen Mae'r ffrog yn las ond mae'n gas 'da fi esgidiau gwyn neu ddu.
Siopwr Af i i weld beth sy 'da ni.

- 1 What shoe size is Elen?
- 2 When is the wedding party?
- 3 What colour is Elen's dress?

siopwr (m.)	siopwyr	shopkeeper
esgid (f.) -iau		shoe
maint (m.)	meintiau	size
	gwisgo	to wear
	ffrog (f.) -iau	dress
gwahoddiad (m.) -au		invitation
priodas (f.) -au		wedding
	nesaf	next
lliw (m.) -iau		colour
arbennig		special, particular
gwyn		white
af i		I'll go
gweld		to see
beth sy 'da ni		what we have

1 Offering assistance

Gaf i'ch helpu chi?	May I help you?
Alla i'ch helpu chi?	Can I help you?
Dych chi'n chwilio am rywbeth arbennig?	Are you looking for something in particular?
Beth dych chi ei eisiau?	What do you want?

2 Asking for something in a shop

You already know *gaf i?* (*may I have?*) and *hoffwn i* (*I would like*). Here are some other useful phrases for asking for something in a shop.

Dw i'n chwilio am ____	I'm looking for ____
Oes ____ 'da chi?	Have you any ____?
Dych chi'n gwerthu ____?	Do you sell ____?
Dw i eisiau ____	I want ____
Ble mae'r ____ os gwelwch yn dda?	Where is the ____ please?
Alla i gael ____?	Can I have ____?

Exercise 1

a Using the phrase *Dw i'n chwilio am* ____ tell the shop assistant that you are looking for the following items (see pictures). Remember that *am* causes a soft mutation.



b Repeat exercise a, this time using the phrase *Alla i gael* ____?

3 Lliwiau Colours

oren	orange	gwyrdd	green	porffor	purple
llwyd	grey	brown	brown	coch	red
glas tywyll	dark blue	glas golau	light blue		

Exercise 2

Complete the sentences using the items in brackets in the sentence (remember to mutate if necessary).

- a Dw i'n chwilio am _____. (black trousers)
- b Oes _____ 'da chi? (blue eyes)
- c Dych chi'n gwerthu _____? (wedding invitations)
- d Alla i gael _____? (a cheese sandwich)
- e Gaf i _____? (fresh orange juice)
- f Ble mae fy _____? (brown suit)

trowsus (m.) -au	trousers
caws (m.)	cheese
ffres	fresh

Exercise 3

You go to a clothes shops to buy a suit. Complete your side of the dialogue.

- Siopwr** Dych chi'n chwilio am rywbeth arbennig?
Chi Say yes, you want a dark suit for a wedding.
Siopwr Dych chi wedi gweld rhywbeth dych chi'n ei hoffi?
Chi Say no, ask if they have more suits.
Siopwr Nac oes, ond byddwn ni'n cael rhagor dydd Mercher. Pryd mae'r briodas?
Chi Tell him it's next Saturday.
Siopwr Does dim llawer o amser 'da chi. Dych chi'n gallu dod i'r siop dydd Mercher?
Chi Say yes, and thank him.

siwt (f.) -lau	suit
byddwn ni	we will be

Deialog 2

Elen is not the only person shopping for the wedding party...

- Cwsmer** Ydy hi'n bosib i fi drïo hon?
Siopwr Ydy, wrth gwrs. Mae'r ystafell newid ar y chwith.
Cwsmer Diolch.
(She goes to try the dress on.)
Cwsmer Mae'n rhy dynn, a dyw'r lliw ddim yn fy siwtio i. Oes rhai mwy 'da chi?

Siopwr Oes, mae digon o ddewis 'da ni. Mae llawer o liwiau a meintiau eraill 'da ni. Pa liw hoffech chi?

Cwsmer Oes rhai du 'da chi? Mae'n well 'da fi ffrogiau hir hetyd.

- Where is the changing room?
- What is wrong with the dress?
- What colour does the customer ask for?

cwsmer (m.) -laid	customer
posib	possible
trïo	to try (you will also hear ceisio)
hon	this
ystafell newid (f.) ystafelloedd newid	changing room
chwith	left
tynn	tight
siwtio	to suit
rhai	ones, some
mwy	bigger
dewis (m.) -ladau	choice, also to choose

4 Asking for more detail about something you want to buy

Oes rhai eraill 'da chi?	Have you got any others?
Pa liwiau sy 'da chi?	Which colours have you got?
Dych chi'n gwerthu mathau eraill?	Do you sell other types?
Pa fath o gameras sy 'da chi?	What types of camera do you have?
Pa mor ddrud dyn nhw?	How expensive are they?
Oes rhagor o'r rhain 'da chi?	Have you got more of these?

Points to notice

arall/eraill. Both these words mean *other*. **Arall** is used with singular nouns and **eraill** with plural nouns:

lliw arall	another colour	lliwiau eraill	other colours
ffrog arall	another dress	ffrogiau eraill	other dresses

You have already seen **pa mor** in Unit 4, meaning *how*. It is only used with adjectives. **Pa mor** causes a soft mutation: **pa mor gryf, pa mor fawr, pa mor dywyll.**

Pa means *which*, although you will sometimes hear 'what' in corresponding English sentences: **Pa ieithoedd eraill dych chi'n eu siarad?** *What other languages do you speak?*

Other useful phrases using **pa** include: **pa fath?** (*what type?*) **pa liw?** (*which colour?*) **pa rai?** (*which ones?*) **pa un?** (*which one?*).

5 Asking the price of something

Faint yw'r gwin 'ma?	<i>How much is this wine?</i>
Beth yw pris y bara 'ma?	<i>What is the price of this bread?</i>
Faint sy arna i?	<i>How much do I owe?</i>

Asking what the total price is

Faint yw hynny i gyd?	<i>How much is all that?</i>
-----------------------	------------------------------

Points to notice

You have already seen how to say *this weekend*: **y penwythnos** 'ma; and *this afternoon*: **y bore** 'ma in Unit 5. To say 'this _____', **y** is placed in front of the word and 'ma after it: **yr arian** 'ma *this money*, **y bwyty** 'ma *this restaurant*, **y capel** 'ma *this chapel*.

With plural nouns, **y** _____ 'ma takes the meaning 'these _____': **y chwaraeon** 'ma *these sports*, **y dramâu** 'ma, *these plays*.

To say 'that _____', **y** is placed in front of the noun and 'na after it: **yr ystafell** 'na *that room*, **y rhaglen** 'na *that programme*, **yr ysbyty** 'na *that hospital*.

With plural nouns, **y** _____ 'na takes the meaning 'those _____': **y meintiau** 'na *those sizes*, **y sglodion** 'na *those chips*.

The Welsh word for 'all' is **i gyd**, which comes after the noun: **y plant i gyd** *all the children*, **fy chwiorydd i gyd** *all my sisters*.

6 Giving the price of something

You are familiar with the feminine and masculine forms of the numbers 2, 3 and 4. The words **ceiniog** (*penny*) and **punt** (*pound*) are both feminine, and therefore the feminine forms **dwy**, **tair** and **pedair** are used. **Cant** (100) is masculine and like **pump** and **chwech**, drops the last consonant before a noun. **Mil**

(1,000), like **ceiniog** and **punt**, is feminine in South Wales, and therefore uses the feminine forms of numbers.

Note the following examples:

51c	pum deg un geiniog
73c	saith deg tair ceiniog
£2.64	dwy bunt chwe deg pedair ceiniog
£4.50	pedair punt pum deg ceiniog
£18.14	un deg wyth punt un deg pedair ceiniog
£322	tri chant dau ddeg dwy bunt
£500	pum can punt
£1,000	mil o bunnau
£2,000	dwyl fil o bunnau

It is common to use the phrase **o bunnau** (*of pounds*), instead of **punt** when dealing with large amounts of money.

Exercise 4

You are working as a shop assistant and customers are asking what various items cost. Answer their questions.

- 1 **Pa mor ddud yw'r esgidiau** 'ma? (£35.00)
- 2 **Faint yw'r ffrog** 'ma? (£56.99)
- 3 **Faint mae'r car** 'ma'n ei gostio? (£6,580)
- 4 **Beth yw pris y siwt** 'ma? (£258.82)
- 5 **Faint yw'r sgert** 'ma? (£16.25)
- 6 **Beth yw pris y tŷ** 'na? (£65,458)
- 7 **Pa mor ddud yw'r te** 'ma? (32c)
- 8 **Faint mae'r ceffyl** 'na'n ei gostio? (£1,043)

Deialog 3

Tom is keen to add another model ship to his collection and goes to a specialist shop to find one.

Tom	Esgusodwch fi. Faint yw hwn?
Siopwr	£38.99.
Tom	Mae'n rhy ddud i fi. Dw i ddim eisiau talu cymaint â hynny. Oes rhai rhatach 'da chi?
Siopwr	Oes. Beth am hwn? Mae e'n costio £21.50. Mae hynny'n rhesymol iawn.
Tom	Ydy, cymera i hwnna 'te. Dyma bedwar deg punt. Oes newid 'da chi?
Siopwr	Oes, mae digon o newid 'da fi.
Tom	Diolch am eich help.

- 1 How does Tom say 'I don't want to pay as much as that'?
- 2 How much does Tom give the assistant?
- 3 Has the assistant got enough change?

esgusodwch fi	excuse me
drud	expensive
cymaint â (AM)	as much as
rhatach	cheaper
rhaf	cheap
costio	to cost
rhesymol	reasonable
cymera i	I will take
newid (m.) -iadau	change

Points to notice

Earlier in this unit we introduced the pattern **y _____ 'ma** to express 'this _____. **Hwn** and **hon** also mean *this* in Welsh. **Hwn** is used with masculine nouns and **hon** is used with feminine nouns: **y tocyr hwn**, *this ticket*, **y rhaglen hon**, *this programme*. Unlike the pattern **y _____ 'ma**, **hwn** and **hon** can be used without referring to the name of the object:

Faint yw hwn?	<i>How much is this?</i>
Faint yw hon?	<i>How much is this?</i>
Mae hwn yn dda.	<i>This is good.</i>

Hwnna/honna. To say 'that one' the words **hwnna** and **honna** are used. **Hwnna** is used with masculine nouns and **honna** with feminine nouns.

The words **hyn** (*this*) and **hynny** (*that*) are used when referring to something abstract, such as news, events and sayings:

Ydy e wedi gwneud hynny?	<i>Has he done that?</i>
Beth rwyf ti'n ei feddwl am hyn?	<i>What do you think about this?</i>

Y rhain means 'these' and is used when you do not name the object:

Faint yw'r rhain?	<i>How much are these?</i>
--------------------------	----------------------------

Y rhaina means 'those' and is also used when you do not name the object:

Faint yw'r rhaina?	<i>How much are those?</i>
---------------------------	----------------------------

Exercise 5

Listen to the recording and fill in the grid.

Item	Cost	Comment

Deialog 4

Matthew goes shopping at the local grocer.

- Matthew** Dw i eisiau tatws newydd os gwelwch yn dda.
Groser Sawl cilo dych chi ei eisiau? Tatws lleol dyn nhw.
Matthew Faint maen nhw'n ei gostio?
Groser Dau ddeg pum ceiniog y cilo.
Matthew Gaf i bum cilo os gwelwch yn dda?
Groser Dyna chi. Dych chi eisiau rhywbeth arall?
Matthew Ydw. Dych chi'n gwerthu wyau?
Groser Ydyn. Mae wyau clos 'da ni os dych chi eisiau, maen nhw'n costio £1.50 y dwsin. Mae'r wyau eraill yn £1.15 y dwsin.
Matthew Cymera i'r wyau clos, os gwelwch yn dda. A hoffwn i flodfresychen hefyd.
Groser Mae'n ddrwg 'da fi, does dim ar ôl 'da ni.
Matthew O wel, diolch yn fawr beth bynnag. Oes bresych 'da chi?
Groser Oes, maen nhw'n 53c yr un.
Matthew Dyna'r cwbl diolch.

- 1 What's special about the new potatoes that Matthew buys?
- 2 Does the grocer sell eggs?
- 3 Does Matthew buy a cauliflower?

dyna chi	<i>there you are</i>
wy clos (m.) wyau clos	<i>free range egg</i>
dwsin (m.) -au	<i>dozen</i>
blodfresychen (f.) blodfresych	<i>cauliflower</i>
ar ôl	<i>left, remaining</i>
beth bynnag	<i>anyway</i>
bresych	<i>cabbage</i>
yr un	<i>each</i>
cwbl	<i>everything</i>

Points to notice

In expressions of price/quantity, **y** is used where English requires 'a':

y dwsin	<i>a dozen</i>	y cilo	<i>a kilo</i>
y bag/paced	<i>a bag/packet</i>	y pwys	<i>a pound</i>
y botel	<i>a bottle</i>	y litr	<i>a litre</i>
y bocs	<i>a box</i>	y peint	<i>a pint</i>

For example, **53c y botel**, *53p a bottle*, **78c y litr**, *78p a litre*

Exercise 6

Give the appropriate answers to the following questions.

- 1 Faint yw'r wyau? (£1.84 *a dozen*)
- 2 Beth yw cost yr orennau? (*15p each*)
- 3 Faint yw'r tatws? (£2.68 *a bag*)
- 4 Faint yw'r gwin? (£3.89 *a bottle*)
- 5 Faint mae'r afalau'n eu costio? (*63p a kilo*)

oren (m.) -au	<i>orange</i>
afal (m.) -au	<i>apple</i>
winwnsyn (m.) winwns	<i>onion (NW: nionyn (m.) nionod)</i>

Exercise 7

Listen to the recording. It is Tom's turn to cook supper. Listen to his conversation in the greengrocer and complete the grid.

Item	Price

7 Mae'n rhatach *It's cheaper*

There are two ways of expressing the comparative degree (-er) in Welsh.

By adding -ach to the adjective

hir → hirach	Dw i eisiau un hirach. <i>I want a longer one.</i>
twym → twymach	Mae'n dwymach heddiw. <i>It is warmer today.</i>

By using the word *mw*y

niwlog → mw y niwlog	Mae hi'n fwy niwlog heddiw. <i>It is foggier today.</i>
rhesymol → mw y rhesymol	Mae'r gwin 'ma'n fwy rhesymol. <i>This wine is more reasonable.</i>

However, there are certain irregular adjectives which do not follow either of these patterns:

da → gwell	Mae honna'n fy siwtio i'n well. <i>This one suits me better.</i>
drwg → gwaeth	Does dim byd gwaeth na hynny. <i>There's nothing worse than that.</i>
mawr → mw y	Hoffwn i gar mw y. <i>I would like a bigger car.</i>
bach → llai	Mae'r crys 'ma'n llai na hwnna. <i>This shirt is smaller than that one.</i>
uchel → uwch	Mae Eferest yn uwch na'r Wyddfa. <i>Everest is higher than Snowdon.</i>
isel → is	Mae lefel y dŵr yn is heddiw. <i>The level of the water is lower today.</i>

mawr	<i>big, great</i>
bach	<i>small</i>
uchel	<i>high, loud</i>
isel	<i>low</i>

Points to notice

Na (*than*) becomes **nag** before vowels: **Mae Tom yn dalach nag Elen**, *Tom is taller than Elen*. **Na** causes an aspirate mutation: **Mae cathod yn llai na chŵn**, *Cats are smaller than dogs*.

As you saw in the word **rhatach**, if an adjective ends in 'd', the 'd' becomes 't' when you add **ach** to it: **rhad** → **rhatach**, **drud** → **drutach** (*dear* → *dearer*). If an adjective ends in 'g', the 'g' becomes a 'c' and if it ends in 'b', the 'b' becomes a 'p'. For example:

gwlyb → gwaeth	wet → wetter
teg → tecach	fair → fairer

Exercise 8

Enw'r siop	Bara	Caws	Llaeth	Tatws
Greens	68c	4.50c y cilo	32c y peint	50c y cilo
Murreys	89c	3.75c y cilo	35c y peint	72c y cilo
FreshFood	98c	5.70c y cilo	42c y peint	35c y cilo
Evans	46c	3.09c y cilo	39c y peint	45c y cilo

Are the following statements true or false?

- 1 Mae bara Greens yn ddrutach na bara FreshFood.
- 2 Mae caws Evans yn rhatach na caws Greens.
- 3 Mae llaeth Murreys yn ddrutach na llaeth Evans.
- 4 Mae tatws Murreys yn ddrutach na tatws Greens.

8 Dw i wedi prynu gormod o bethau I have bought too many things

You will remember the phrase *Dw i wedi cael gwahoddiad* from Deialog 1 in this unit. To say you have done something in Welsh, *wedi* is used with the forms of the present tense. *Wedi* replaces *yn*: *Dw i'n siopa* (*I am shopping*), *dw i wedi siopa* (*I have shopped*), *mae hi'n gwisgo* (*she is dressing*), *mae hi wedi gwisgo* (*she has dressed*).

Deialog 5

A local radio reporter has come to interview some of the students from Elen's class about the course. Tom, Matthew and Jayne have volunteered to take part and are talking to the reporter after their meal.

- Gohebydd** Peidiwch â bod yn nerfus. Dych chi wedi bod ar y radio o'r blaen?
- Jayne** Dw i wedi bod ar y radio sawl gwaith yn America.
- Gohebydd** Pam?
- Jayne** Dw i'n gweithio fel swyddog y wasg i gwmni rhyngwladol mawr; mae siarad ar y radio'n rhan o fy swydd i.
- Tom** Dw i ddim wedi bod ar y radio ond dw i wedi bod ar y teledu ar ôl achosion llys.

Gohebydd Mae'r tri ohonoch chi wedi dysgu Cymraeg yn dda iawn. Dych chi wedi cael y cyfle i weld llawer o'r ardal leol?

Jayne Dw i wedi teithio tipyn. Dw i wedi ymweld â'r gogledd ddwywaith a dyn ni i gyd yn edrych ymlaen at fynd i Dyddewi ddydd Mawrth.

Gohebydd Dych chi'n dawe iawn Matthew. Dw i wedi clywed eich bod chi wedi cwrdd â rhywun enwog iawn yr wythnos diwethaf.

Matthew Daeth y Prif Weinidog i ymweld â'r dref, cwrddais i â fe bryd hynny.

- 1 How many of the class have been on the radio before?
- 2 When has Tom been on the television?
- 3 Why are the class looking forward to Tuesday?
- 4 Who came to town last week?

gohebydd (m.)	gohebwy	reporter
o'r blaen		before
sawl gwaith		several times
swyddog y wasg (m.)	swyddogion y wasg	press officer
rhyngwladol		international
achos llys (m.)	achosion llys	court case
ymweld â (AM)		to visit
edrych ymlaen at (SM)		to look forward to
tawel		quiet
eich bod chi		that you
enwog		famous
yr wythnos diwethaf		last week
daeth		came
prif weinidog (m.)	prif weinidogion	prime minister

i Rugby

Rugby union football is generally regarded as the national sport of Wales, although in fact more people follow association football or soccer.

At national level, Wales has had varying success, with perhaps the 1970s being remembered as the golden era, when Wales won the Grand Slam twice and the Triple Crown four times in a row.

National Lottery funding was secured to build the Millennium Stadium in Cardiff in order to host the 1999 Rugby World Cup Final. The new stadium has a capacity of 75,000, together with a sliding roof, which is used when events such as rock concerts are held there.

Can you now do the following?	Yes	No	If not, go to page
Offer assistance in a shop			58
Ask for something in a shop			59
Describe the colour of something			59
Give and ask the price of something			62, 63
Compare two things			66
Say you have done something			68

07

gofyn am gyfarwyddiadau askina for directions

In this unit you will learn
how to

- give directions and commands
- ask someone politely to do something
- say something is the best, worst or hottest
- say you have to do something

Deialog 1

Elen takes her class to St Davids (Tyddewi) for the day.

- Elen** Esgusodwch fi, dych chi'n gwybod ble mae'r eglwys gadeiriol, os gwelwch yn dda?
- Dyn 1** Nac ydw, dw i ddim yn dod o'r ardal 'ma, dw i newydd gyrraedd 'ma. Dw i'n chwilio am yr eglwys gadeiriol hefyd.
- Menyw 1** Gaf i'ch helpu chi?
- Elen** Dyn ni ar goll. Dyn ni'n chwilio am yr eglwys gadeiriol.
- Menyw 1** Dych chi ddim yn bell i ffwrdd. Dyw Tyddewi ddim yn fawr iawn, mae'n amhosib mynd ar goll yma. Ewch i lawr y stryd 'ma, wedyn trowch i'r dde, ac ar ôl cerdded am dipyn, gwelwch chi'r sgwâr. Croeswch y sgwâr, ac ewch i lawr y stryd sy'n wynebu'r sgwâr. Cerddwch i lawr y stryd, ac mae'r eglwys gadeiriol ar y dde. Mae rhaid i chi gerdded i lawr llawer o risiau cyn cyrraedd y drws.
- Elen** Diolch am eich help.

- 1 Why is the man unable to help them?
- 2 Is Tyddewi a large town?
- 3 Is the cathedral on top of a hill?

dyn (m.) -ion	man
gwybod	to know
eglwys gadeiriol (f.)	cathedral
newydd (SM)	just
cyrraedd (cyrraedd-)	to arrive
menyw (f.) -od	woman
ar goll	lost
wedyn	afterwards, then
pell	far
i ffwrdd	away
amhosib	impossible
ewch	go
i lawr	down
stryd (f.) -oedd	street
trowch	turn
de (f.)	right
gwelwch chi	you will see
sgwâr (m.) sgwariau	square
croeswch	cross
sy'n wynebu	which faces
mae rhaid i chi	you have to
gris (m.) -lau	step, stair
cyn	before
drws (m.) drysau	door

Points to notice

Dw i newydd gyrraedd. **Newydd** is used with the present forms of **bod** to say something has just happened:

Dw i'n cyrraedd.	<i>I am arriving.</i>
Dw i newydd gyrraedd.	<i>I have just arrived.</i>
Maen nhw'n chwilio.	<i>They are looking.</i>
Maen nhw newydd chwilio.	<i>They have just looked.</i>

1 Saying where something is

ar y gornel	<i>on the corner</i>
ar gornel	<i>on the corner of</i>
drws nesaf i (SM)	<i>next door to</i>
ar y chwith	<i>on the left</i>
ar y dde	<i>on the right</i>
o flaen	<i>in front of</i>
rhwng	<i>between</i>
wrth (SM)	<i>by</i>
gyferbyn â (AM)	<i>opposite</i>
tu ôl i (SM)	<i>behind</i>
ynghanol	<i>in the middle of</i>
yn agos i (SM)	<i>near to</i>
Mae'r eglwys gadeiriol	<i>The cathedral is on the left</i>
ar y chwith wrth y bont.	<i>by the bridge.</i>
Mae'r coleg ynghanol y ddinas.	<i>The college is in the middle of the city.</i>
Mae'r siop fwyd gyferbyn â'r cigydd.	<i>The food shop is opposite the butchers.</i>
Mae'r banc tu ôl i'r ysbyty.	<i>The bank is behind the hospital.</i>
Mae'r caffi drws nesaf i'r orsaf dân.	<i>The café is next door to the fire station.</i>

Points to notice

All the words and phrases we have just seen are prepositions. Prepositions describe where something is in relation to something else. In Welsh, the joining word **yn** seen in sentences such as **Mae Richard yn hapus** is never used before prepositions: **Mae Richard o flaen y tŷ.**

Exercise 1 Llanfechan



Fill in the blanks:

- 1 Mae'r archfarchnad _____ Chanolfan Siopa Dewi Sant.
- 2 Mae'r Llys Ynadon _____ y dref.
- 3 Mae'r cigydd _____'r ysgol gynradd.
- 4 Mae'r siop chwaraeon _____ y banc a Swyddfa'r Post.
- 5 Mae'r Siop Gelfi _____ Heol Ddu.
- 6 Mae'r Amgueddfa _____'r swyddfeydd.
- 7 Os dych chi'n cerdded o start mae'r Ysgol Uwchradd _____ ac mae'r siop wyliau _____.

archfarchnad (f.) -oedd	supermarket
swyddfa'r post (f.)	post office
amgueddfa (f.) amgueddfeydd	museum
siop gelfi (f.) siopau celfi	furniture shop
canolfan siopa (m.) canolfannau siopa	shopping centre
maes parcio (m.) meysydd parcio	car park
llys ynadon (m.) llysoedd ynadon	magistrates' court
llyfrgell (f.) -oedd	library
gorsaf yr heddlu (f.)	police station
canolfan gwaith (m.) canolfannau gwaith	job centre
siop wyliau (f.) siopau gwyliau	travel agent
siop bapurau (f.) siopau papurau	newsagent
os	if

2 Giving directions

Trowch wrth y goleuadau.
Cerddwch ar hyd y

Stryd Fawr.

Ewch lan y stryd 'ma hyd
at y bont.

Ewch i gyfeiriad gorsaf
yr heddlu.

Ewch dros y bont a dilynwch
yr arwydd.

Ewch drwy'r dref a
chymrwch yr A483.

Trowch i'r chwith wrth
y groesffordd.

Ewch heibio i'r amgueddfa.
Cerddwch nes cyrraedd

y cylchfan.

y tro cyntaf

yr ail dro

y trydydd tro

Turn at the lights.

Walk along the High Street.

Go up this street as far as
the bridge.

Go in the direction of the
police station.

Go over the bridge and follow
the sign.

Go through the town and
take the A483.

Turn left at the crossroads.

Go past the museum.

Walk until reaching the
roundabout.

the first turning

the second turning

the third turning

Points to notice

The words **esgusodwch fi**, **ewch**, **trowch**, and **cerddwch** in Dialog 1 are all examples of commands. Commands are formed by adding the ending **-wch** to the stem of a verb-noun. All verb-nouns have stems. The stem of a verb-noun is usually formed by dropping the last vowel, e.g. the stem of the verb-noun **canu** is **can-**, and the stem of the verb-noun **gweithio** is **gweithl-**. From now on in the course, all the stems of verb-nouns will be placed in brackets by the side of the verb-nouns in the vocabulary lists. As you can see from the vocabulary in Dialogue 1 above, the stem of the verb-noun **cyrraedd** is **cyrhaedd-**, therefore the command form is **cyrhaeddwch!** Arrive! **Cyrhaeddwch cyn pump!** Arrive before five!

There are some irregular commands.

Verb-noun	Command	English	Command (fam.)
mynd	ewch!	go!	cer! (fam.)
dod	dewch!	come!	dere! (fam.)
bod	byddwch!	be!	bydd! (fam.)
gwneud	gwnewch	do! make!	gwna! (fam.)

The command form for a person that you address using the **ti** forms is the stem of the verb-noun:

darllen (darllen-) **Darllen y llyfr!** *Read the book!*

In the case of verb-nouns formed from adjectives or nouns and verb-nouns whose stems end in -l, add -a to the stem to form the **ti** command:

canu (can-) **Cana yn yr eglwys!** *Sing in the church!*

The word following a command mutates softly:

Prynwch ddillad newydd! *Buy new clothes!*
Dysgwch Gymraeg! *Learn Welsh!*

The answers to these commands are **gwnaf** (yes, I will) and **na wnaif** (no, I won't):

Ewch i'r llyfrgell! **Gwnaf!**
Yfych lai o goffil! **Na wnaif!**

The answer to a command beginning **byddwch** is **byddaf** (yes, I will be) or **na fydda** (no, I won't be):

Byddwch yn dawel! **Byddaf!**
Byddwch yn dawel! **Na fyddaf!**

Exercise 2

Look at the map of Llanfechan again and read the following directions. To where do they lead you?

- 1 O start, ewch i lawr y stryd nes cyrraedd Stryd yr Ysgol, trowch i'r chwith a cherddwch i lawr Stryd yr Ysgol, heibio i'r siop wyliau a'r canolfan gwaith. Trowch i'r chwith wrth y canolfan gwaith ac mae e drws nesaf i'r llyfrgell.
- 2 O start, trowch i'r dde, a chroeswch Stryd yr Ysgol. Ewch heibio i'r ysgol gynradd a'r cigydd. Dych chi'n cyrraedd y Stryd Fawr. Cymerwch y trydydd tro ar y chwith ac mae hi gyferbyn â'r maes parcio.
- 3 O start, ewch i'r chwith a cherddwch i lawr Stryd yr Ysgol nes cyrraedd y cylchfan. Trowch i'r dde wrth y cylchfan ac ewch i lawr y stryd heibio i Ganolfan Siopa Dewi Sant. Croeswch y Stryd Fawr ac ewch i lawr Heol Las. Mae e gyferbyn â'r archfarchnad wrth y banc.
- 4 O start, croeswch Stryd yr Ysgol a cherddwch heibio i Neuadd y Dref a chymerwch y tro cyntaf ar y chwith. Yn y Stryd Fawr, trowch i'r chwith. Ewch i lawr y Stryd Fawr nes cyrraedd y Llys Ynadon. Mae hi gyferbyn â chi rhwng y banc a swyddfa'r post.

Exercise 3

Listen to the recording and fill in the blanks.

- 1 Mae'r ganolfan siopa _____.
- 2 Mae'r ganolfan hamdden _____.
- 3 Mae'r eglwys _____.
- 4 Mae'r ysgol uwchradd _____.
- 5 Mae'r coleg _____.
- 6 Mae'r cylchfan _____.

3 Telling someone not to do something

In Welsh, this is expressed by the verb-noun **peidio** which is followed by **â**. Remember that **â** causes an aspirate mutation. **Â** is replaced by **ag** before a vowel:

Verb-noun	Formal/plural command	Familiar command
peidio â	peidiwch â	paid â

Peidiwch â cherdded i lawr y stryd 'na. *Don't walk down that street.*
Paid ag aros yn hwyr. *Don't stay late.*

Prohibitions on public notices are usually preceded by **dim**:

Dim cŵn. *No dogs.*
Dim ysmegu. *No smoking.*
Dim bwyta nac yfed. *No eating or drinking.*

Other useful phrases using **dim** are:

Dim diolch. *No thanks.*
Dim o gwbl. *Not at all.*
Dim gobaith. *Not a hope, no hope.*
Dim syniad. *No idea.*

Exercise 4

Match each sentence on the left with the appropriate response from the right.

- | | |
|-------------------------------|-------------------------|
| a Mae'r trowsus 'ma'n rhy hir | Ewch i'r banc |
| b Mae hi'n oer iawn | Peidiwch â gyrru |
| c Dw i eisiau dysgu Cymraeg | Dewch i mewn |
| d Dw i eisiau prynu bara | Edrychwch ar y manylion |
| e Does dim arian 'da fi | Triwch y rhain |

f	Dw i wedi yfed gormod	Gwisgwch eich cot
g	Dw i eisiau cadw'n heini	Darllenwch <i>Teach Yourself Welsh</i>
h	Dw i eisiau prynu'r tŷ 'na	Cerddwch i'r gwaith
i	Cnoc Cnoc Cnoc	Ewch i'r siop fwyd

4 Asking someone to do something

If you wish to ask someone to do something, rather than instructing them to do it, **wnewch chi?** (*will you?*) is used:

Wnewch chi agor y ffenest?	<i>Will you open the window?</i>
Wnewch chi ffonio eich mam-gu?	<i>Will you phone your grandmother?</i>

For people you address using **ti**, the form is **wnei di?**:

Wnei di agor y ffenest?
Wnei di ffonio dy fam-gu?

A soft mutation follows both **wnewch chi?** and **wnei di?**:

Wnewch chi brynu llaeth?	<i>Will you buy milk? There's</i>
Does dim ar ôl.	<i>none left.</i>

The reply to **wnewch chi?** or **wnei di?** is **gwnaf** (*yes, I will*) or **na wnaif** (*no, I won't*):

Wnewch chi dalu am y bwyd?	Gwnaf.
Wnei di dalu am y gwin?	Na wnaif.

Exercise 5

Change the commands into polite requests according to the example given.

Bwytwch eich cinio → Wnewch chi fwyta eich cinio os gwelwch yn dda?

- Canwch
- Casglwch y plant
- Newidiwch y tŷ
- Talwch y bil
- Peidiwch â chroesi'r stryd brysur
- Dewisiwch rywbeth arall
- Dewch gyda'ch tad
- Helpwch eich brawd
- Eisteddych i lawr
- Ewch i'r siop wyliau

Deialog 2

Having looked around the cathedral, some members of the class discuss what to do next.

Tom	Mae syched arna i nawr. Ble mae'r caffi agosaf? Mae rhaid i fi gael coffi. Dw i ddim wedi cael paned ers tair awr o leiaf.
Matthew	Beth am fynd i gael hufen iâ? Mae siop dda ar ben y bryn 'ma.
Jayne	Mae rhaid i fi brynu cardiau post ac anrhegion i fy nheulu.
Elen	Mae rhaid i chi fwyta rhywbeth Jayne, dyn ni ddim wedi cael unrhywbeth ers brechwast.
Jayne	Pryd mae rhaid i ni fod yn ôl ar y bws?
Matthew	Pump o'r gloch, felly mae digon o amser 'da chi i brynu pob draig goch yn Nhyddewi os dych chi eisiau.
Elen	Awn ni i gael rhywbeth i'w fwyta nawr a siopa wedyn 'te.

- How long is it since Tom drank anything?
- What does Jayne want to do?
- What time do they have to be back in the bus?

mae syched arna i	<i>I'm thirsty</i>
agosaf	<i>nearest</i>
ers	<i>since, for</i>
awr (f.) oriau	<i>hour</i>
o leiaf	<i>at least</i>
hufen iâ (m.)	<i>ice cream</i>
ar ben	<i>at the top of</i>
bryn (m.) -iau	<i>hill</i>
cerdyn post (m.) cardiau post	<i>postcard</i>
anrheg (f.) -ion	<i>present (gift)</i>
yn ôl	<i>back</i>
awn ni	<i>we will go</i>
rhywbeth	<i>something</i>

Points to notice

Ble mae'r caffi agosaf? You saw in Unit 6 how to compare two things by adding the ending **-ach**. The superlative (**-est** in English) is formed by adding the ending **-af**. Remember that the final 'f' is usually dropped in spoken Welsh.

The same adjectives which have irregular comparative degrees also have irregular superlative degrees:

da → gorau	Hi yw'r orau.	<i>She is the best.</i>
drwg → gwaethaf	Pwy yw'r gwaethaf?	<i>Who is the worst?</i>
mawr → mwyaf	Hon yw'r ystafell fwyaf yn y tŷ.	<i>This is the biggest room in the house.</i>
bach → lleiaf	Daniel yw'r lleiaf.	<i>Daniel is the smallest.</i>
uchel → uchaf	Yr Wyddfa yw'r mynydd uchaf.	<i>Snowdon is the highest mountain.</i>
isel → isaf	Honna yw'r lefel isaf.	<i>That is the lowest level.</i>

As you can see from these examples, when you are using the superlative, the order of the sentence is changed. The thing you are describing comes first.

Longer adjectives use **mwyaaf** to form the superlative:

Fe yw'r mwyaaf anobeithiol.	<i>He is the most hopeless.</i>
Dydd Sul oedd y diwrnod mwyaaf cymylog.	<i>Sunday was the most cloudy day.</i>

If the adjective ends in *g*, *b*, or *d*, these letters become *c*, *p*, and *t* when the ending **-af** is added:

enwog → enwocaf	Fe yw actor enwocaf Cymru.	<i>He is Wales' most famous actor.</i>
gwlyb → gwlypaf	Heddiw yw'r diwrnod gwlypaf.	<i>Today is the wettest day.</i>
drud → drutaf	Hwnna yw'r drutaf.	<i>That one is the most expensive.</i>

If you are referring to a singular feminine noun, the superlative mutates softly after **y**: **Sali yw'r fwyaf**. **Rh** and **ll** never mutate after **y**: **honna yw'r rhataf**.

Exercise 6

Create your own sentences using the adjectives given according to the example.

(Matthew/Tom/ifanc) Mae Matthew yn ifancach na Tom. Matthew yw'r ifancaf.

- 1 Tom/Matthew/rhugl
- 2 Caernarfon/Blaenau Ffestiniog/mawr
- 3 Jayne/Elen/nerfus
- 4 Sam/Dan/drwg
- 5 Mair/Alis/egniol
- 6 ceffyl/cwningen/cryf
- 7 Dan/Sam/da

Saying you have to do something

Mae rhaid i fi brynu cardiau post' said Jayne in Deialog 2. To say I have to ____, they have to ____, the pattern is:

mae rhaid i fi	<i>I must, I have to</i>
mae rhaid i ti	<i>you must, you have to (fam.)</i>
mae rhaid iddo fe	<i>he must, he has to</i>
mae rhaid iddi hi	<i>she must, she has to</i>
mae rhaid i ni	<i>we must, we have to</i>
mae rhaid i chi	<i>you must, you have to</i>
mae rhaid iddyn nhw	<i>they must, they have to</i>

To ask a question, **oes** is used in the same way as you saw with the possessive construction in Unit 3. Does **dim** is used in negative sentences:

Oes rhaid i fi fynd?	<i>Do I have to go?</i>
Does dim rhaid iddo fe fynd.	<i>He doesn't have to go.</i>

The answers given are either **oes** or **nae oes** as we saw in Unit 3:

Oes rhaid i fi fynd?	Oes, mae rhaid i chi fynd.
Oes rhaid iddo fe fynd?	Nae oes, does dim rhaid iddo fe fynd.

Note that there is a soft mutation after the pattern **Mae rhaid i / Oes rhaid iddyn nhw?/Does dim rhaid i ni**:

Mae rhaid i ni brynu tocyn.	<i>We have to buy a ticket.</i>
Oes rhaid iddyn nhw berfformio heno?	<i>Do they have to perform tonight?</i>
Does dim rhaid iddi hi gerdded, mae car 'da hi.	<i>She doesn't have to walk, she has a car.</i>

You will also hear the verb-noun **gorfod** in place of **mae rhaid i fi**:

Mae rhaid i fi fynd.	Dw i'n gorfod mynd.
-----------------------------	----------------------------

Does dim rhaid i chi aros means *you don't have to stay*. To tell someone they must *not* stay, the verb-noun **peidio** you saw earlier is used:

Mae rhaid i chi beidio ag aros.	<i>You must not stay.</i>
Mae rhaid iddyn nhw beidio â choginio.	<i>They must not cook.</i>
Mae rhaid i ni beidio â defnyddio'r ffôn.	<i>We must not use the phone.</i>

Exercise 7

The library assistant in Llanfechan wishes to place a list of rules in Welsh on the noticeboard. Can you help him?

- 1 You must be quiet.
- 2 You must put all the books back on the shelf.
- 3 You must not eat in the library.
- 4 You must not drink in the library.
- 5 You must not smoke in the library.

i Saint David

Saint David or Dewi Sant has been regarded as the patron saint of Wales since the twelfth century. His death is recorded under 588/9 in Irish Annals and his Saint's Day, March 1, is celebrated by the wearing of a daffodil or a leek. He was the son of Sandde, the king of Ceredigion, and his mother's name was Non.

There are many interesting stories about David, such as the one about him preaching in the village of LlanddewiBrefi. A large crowd had come to see him, but they could not see or hear him, until suddenly the earth rose up underneath his feet. This miracle and many others are told in *Buchedd Dewi*, the Life of St David, composed by Rhigyfarch, a Welsh monk, in around 1095.

Can you now do the following?	Yes	No	If not, go to page
Say where something is located			73
Give a command to someone			75
Tell someone not to do something			77
Ask someone politely to do something			78
Reply to a command to do something			78
Say you have to do something			81

08

beth wnaethoch chi?

what did you do?

In this unit you will learn how to

- ask what somebody did
- say what you did
- say that you didn't do something
- say you have told somebody something

Deialog 1

The course has restarted after half term. Elen is eager to find out how some of the members of her class spent their time.

- Elen** Beth wnaethoch chi dros hanner tymor?
Tom Arhosais i yma, a gweithiais i'n galed yn y llyfrgell ddydd Gwener. Ddydd Sadwrn, daeth fy ngwraig i'r coleg i dreulio'r diwrnod gyda fi a gwelon ni ffilm yn Aberystwyth. Ddydd Sul, ymlaciais i yn fy ystafell a darllenais i lyfr am hanes Cymru. Mae diddordeb mawr 'da fi yn hanes Cymru. Mae'n llyfr hir, ond dw i'n gobeithio ei orffen e erbyn diwedd y cwrs.
- Matthew** Dych chi'n treulio gormod o amser yn darllen llyfrau sych Tom. Roedd fy hanner tymor i'n llawer mwy diddorol. Es i i'r gogledd gyda Marc o'r ail ddosbarth. Ymwelon ni â llawer o leodd diddorol. Cerddon ni o gwmpas Castell Caernarfon ac arhoson ni mewn gwely a brecwast ar Ynys Môn. Mae'r ynys yn bert iawn. Hoffwn i fyw yno a dweud y gwir. Cerddais i am dipyn ar hyd yr arfordir. Beth amdanoch chi Jayne?
- Jayne** Ffoniais i Haf a fy ffrindiau yn America ac ysgrifennais i lawer o lythyron. Nofiais i bob bore yn y pwll nofio. Mae rhaid i fi golli pwysau rhywffordd, mae bwyd y coleg yn rhy flasus. Dw i'n bwyta llawer gormod ohono fe. Beth wnaethoch chi Elen?
- Elen** Dyn ni'n mynd i symud tŷ cyn hir, felly edrychon ni ar lawer o dai yn ardal Caerdydd. Gwelon ni lawer o dai hyfryd ond dyn ni wedi penderfynu rhentu un yn y Bae nes i ni gael hyd i un sy'n berffaith i ni.

- 1 Who visited Tom?
- 2 What is Matthew's opinion of Anglesey?
- 3 Why was Elen in Cardiff?

tymor (m.)	tymhorau	term
aros (arhos-)		to stay
treulio (treuli-)		to spend (time)
diwrnod (m.)	-au	day
ymllacio (ymllaci-)		to relax
gobeithio (gobeithi-)		to hope
gorffen (gorffenn-)		to finish
diwedd (m.)		end
es i		I went
lle (m.)	-oedd	place

o gwmpas	around
castell (m.) cestyll	castle
Ynys Môn	Anglesey
ynys (f.) -oedd	island
yno	there
arfordir (m.) -oedd	coast
ffrind (m.) -iau	friend
ysgrifennu (ysgrifenn-)	to write
llythyr (m.) -on	letter
pwysau	weight
rhywffordd	somehow
blasus	tasty
tŷ (m.) tai	house
rhentu (rhent-)	to rent
bae (m.) -au	bay
nes i ni	until we
cael hyd i (SM)	to find
perffaith	perfect

Points to notice

The past tense of regular verbs is formed by adding the past endings to the stem of the verb. The past endings are as follows:

-ais i	-on ni
-alst ti	-och chi
-odd e	-on nhw
-odd hi	

dysgais i	I learnt	dysgon ni	we learnt
dysgaist ti	you learnt	dysgoch chi	you learnt
dysgodd e/hi	he/she learnt	dysgon nhw	they learnt

The direct object in a sentence is that which receives the action of the verb. It usually follows the verb. In the sentence 'I read a book', 'a book' is the direct object. The direct object of a short-form verb in Welsh is mutated softly: **Darllenais i lyfr**. You have seen examples of this in earlier units: **Gaf i goffi?**; **Hoffwn i fynd**. A short-form verb is one which is formed by an ending being added to the stem. **Darllenais i** is a short-form verb, whereas **Dw i'n darllen** and **Roedd hi'n darllen** are long-form verbs as no stem has been added.

The verbs following do not express the past tense by having an ending placed on the stem. Instead, the imperfect tense of **bod** (see Unit 11) is used:

poeni	to worry	roedd hi'n poeni	she worried
gwybod	to know	roedd hi'n gwybod	she knew

adnabod	to know (a person)	roedd hi'n adnabod Sue	she knew Sue
credu	to believe	roedd e'n credu'r dyn	he believed the man
gobeithio	to hope	roedd e'n gobeithio	he hoped
meddwl	to think	roedd e'n meddwl	he thought
byw	to live	roedd e'n byw yn Llanbedd	he lived in Lampeter

There are two words for to know in Welsh, **gwybod** and **nabod**. Gwybod means to know a fact: **Maen nhw'n gwybod ble mae'r orsaf dân.** Nabod means to know a person: **Dych chi'n nabod Maer Llanberis?** Do you know the mayor of Llanberis? Nabod is the spoken form; the written form is **adnabod**.

Exercise 1

Listen to the recording. Three friends are telling each other how they spent their weekend. Listen to what they say and fill in the grid.

	Nos Wener	Dydd Sadwrn	Dydd Sul
Ffion			
Cynon			
Rhodri			

1 Asking a question in the past tense

Questions are formed by mutating the verb softly:

Gerddoch chi ar hyd yr arfordir?	Did you walk along the coast?
Ddarllenodd Tom lyfr yn ei ystafell?	Did Tom read a book in his room?
Gollodd Jayne bwysau?	Did Jayne lose any weight?

The answer to questions in the past tense are **do** (yes) and **naddo** (no):

Welon nhw Gastell Caernarfon?	Do.
Arhosodd Matthew yn y coleg?	Naddo.

Exercise 2

Mr Davies, the manager of a small company, is checking that Linda, his secretary, has done certain things. Linda is very efficient and did everything Mr Davies wanted her to this morning. Write Linda's replies in full sentences. The first one has been done for you.

- Ateboch chi'r llythyr? Do, atebais i fe'r bore 'ma.
- Ffonioch chi Morgan & Williams?
- Anfonoch chi'r biliau?
- Ddechreuoch chi ar y gwaith teipio?
- Gyrhaeddoch chi'n gynnar?

ateb (ateb-)	to answer
anfon (anfon-)	to send

2 Forming a negative in the past tense

Verbs that begin with a b, d, g, ll, m or rh form the negative by using the soft mutation and adding **ddim**:

Ddarllenodd Matthew ddim.	Matthew didn't read.
Welon nhw ddim ffilm.	They didn't see a film.

Verbs whose initial letter is c, p, or t form the negative by using the aspirate mutation:

Chollodd Tom ddim arian.	Tom didn't lose any money.
Theimlais i ddim byd.	I felt nothing.
Phrynais i ddim llyfr.	I didn't buy a book.

Exercise 3

Read what Meleri decided to do last Friday. Unfortunately, her friends came round unexpectedly and she didn't have time to do everything she wanted. The things she did manage to do before her friends came round are ticked. The things she didn't do are crossed. Say in Welsh what she did and didn't do.

- Golchi'r ci. (✓)
- Siopa yn yr archfarchnad. (X)
- Gorffen ei llyfr ar lenyddiaeth Cymru. (✓)
- Prynu anrheg i John. (X)
- Darllen y cylchgrawn. (✓)
- Ffonio ei ffrindiau. (✓)
- Gweithio ar y cyfrifiadur. (X)
- Ymweld â'i chwaer. (✓)

Exercise 4

Read through or listen to Deialog 1 again and then answer the questions in full sentences. Question 1 has been done for you.

Edrychodd Elen ar lawer o geir? Naddo, edrychodd Elen ar lawer o dai.

- 1 Edrychodd Elen ar lawer o geir?
- 2 Nofiodd Jayne bob nos?
- 3 Welodd Matthew Gastell Cydweli?
- 4 Weithiodd Tom yn galed?
- 5 Yrrodd Matthew i Gaerdydd?
- 6 Ffoniodd Jayne ei ffrindiau?
- 7 Gerddodd Matthew yn y mynyddoedd?

Deialog 2

Matthew wants to know where Tom was last night.

Matthew Beth wnaethoch chi neithiwr Tom? Welais i mohonocho chi yn y bar.

Tom Ffoniais i fy mam i ddweud wrthi hi fod Steffan wedi dyweddio. Roeddwn i i fod i ddweud wrthi hi yr wythnos diwethaf ond anghofiais i. Roeddwn i'n nerfus iawn ar y ffôn.

Matthew Nerfus? Dych mam mor annymunol â hynny? Beth ddwedodd hi?

Tom Mae fy mam yn fenyw hyfryd iawn Matthew, ond penderfynais i gael sgwrs yn Gymraeg gyda hi am y tro cyntaf.

Matthew Sut aeth pethau?

Tom Yn dda iawn ar y cyfan, ond chlywais i mohoni hi'n iawn ar y dechrau. Roedd swm ofnadwy ar fy ffôn symudol. Beth amdanoch chi?

Matthew Chwaraeais i ddartiau yn y bar ond enillais i mo'r gêm, roedd Marc yn llawer rhy dda. Yfais i lawer gormod hefyd a dw i ddim yn teimlo'n rhy dda nawr.

- 1 Why was Tom nervous on the phone?
- 2 Why did Matthew think Tom was nervous?
- 3 Why does Matthew not feel well?

i fod i (SM)	supposed to
anghofio (anghofi-)	to forget
annymunol	unpleasant
sgwrs (f.) sgysiau	conversation
tro (m.)	time, occasion
sut aeth pethau?	how did things go?
ar y dechrau	at the beginning
swm (m.) synau	noise, sound
ofnadwy	awful
symudol	mobile
llawer rhy (SM)	much too

Points to notice

Earlier in this unit you learnt about the direct object of short-form verbs. If the direct object of a short-form verb is definite (see Unit 4), it is preceded by the preposition **o**:

Welais i ddim car.	I didn't see a car.
Welais i ddim o'r car.	I didn't see <u>the</u> car.
Theimlais i ddim poen.	I didn't feel any pain.
Theimlais i ddim o'r poen.	I didn't feel <u>the</u> pain.
Chlywais i ddim ci.	I didn't hear a dog.
Chlywais i ddim o'r ci.	I didn't hear <u>the</u> dog.
Phrynais i ddim llyfr.	I didn't buy a book.
Phrynais i ddim o'r llyfr.	I didn't buy <u>the</u> book.

In everyday speech, **ddim o** becomes contracted to **mo**: **Phrynais i mo'r llyfr.**

You will have noticed that some verb-nouns are followed by certain prepositions, for instance **cwrdd â**, to meet, **ymweld â**, to visit, **edrych ar**, to look at. These are discussed in greater detail in Unit 15. If the verb-noun in the sentence is followed by a particular preposition, **mo** is not used.

Ymwelais i ddim â fy mam.	I didn't visit my mother.
Edrychais i ddim ar y teledu.	I didn't watch the television.

Many prepositions in Welsh decline. You have seen an example of this when you learnt the pattern **mae rhaid iddo fe**. The preposition **i** declined before **fe**, **hi** and **nhw** (**iddo fe**, **iddi hi**, **iddyn nhw**). Here are the forms of the preposition **o**:

ohono i	of me	Welodd e ddim ohono i.
		He didn't see me.
ohonot ti	of you	Welodd e ddim ohonot ti.
		He didn't see you.

ohono fe	of him	Welodd e ddim ohono fe. <i>He didn't see him/it.</i>
ohoni hi	of her	Welodd e ddim ohoni hi. <i>He didn't see her/it.</i>
ohonon ni	of us	Welodd e ddim ohonon ni. <i>He didn't see us.</i>
ohonoch chi	of you	Welodd e ddim ohonoch chi. <i>He didn't see you.</i>
ohonyn nhw	of them	Welodd e ddim ohonyn nhw. <i>He didn't see them.</i>

The word **wrth** also declines. You will have noticed in Deialog 2 that Tom said 'ffoniais i hi neithiwr i ddweud wrthi hi' (*I phoned her last night to tell her*). **Dweud wrth** means *to tell to*. Look at the forms of the preposition **wrth**:

wrtho i	Dwedodd e wrtho i.	<i>He told me.</i>
wrthot ti	Dwedodd e wrthot ti.	<i>He told you.</i>
wrtho fe	Dwedodd hi wrtho fe.	<i>She told him.</i>
wrthi hi	Dwedais i wrthi hi.	<i>I told her.</i>
wrthon ni	Dwedon nhw wrthon ni.	<i>They told us.</i>
wrthoch chi	Dwedon ni wrthoch chi.	<i>We told you.</i>
wrthyn nhw	Dwedaist ti wrthyn nhw.	<i>You told them.</i>

Exercise 5

Match the following questions with the appropriate answers.

- | | |
|------------------------|-----------------------------------|
| 1 Brynaist ti'r cysau? | a Naddo, chanon nhw mohoni hi. |
| 2 Weloch chi ni? | b Naddo, agorodd e mohoni hi. |
| 3 Ganon nhw'r anthem? | c Naddo, chasglodd e mohonyn nhw. |
| 4 Ddilynodd hi chi? | d Naddo, welon nhw mohono i. |
| 5 Gasglodd e'r plant? | e Naddo, welais i mohonoch chi. |
| 6 Welon nhw ti? | f Naddo, phrynais i mohonyn nhw. |
| 7 Agorodd e'r ffenest? | g Naddo, ddilynodd hi mohonon ni. |

Exercise 6

Form negative sentences using the words following the example given. **Fe/gweld/y plant** → **Welodd e mo'r plant.**

- Fi/agor/y ffenest
- Nhw/ennill/y gêm
- Chi/newid/y ffrog
- Hi/symud/y car
- Ti/talu/y bil
- Fi/gweld/Caerdydd
- Fe/ysmygu/y sigarét
- Ni/dilyn/hi

Exercise 7

Next week the school inspectors are coming to Rhydybont Primary School where you are the deputy head. The headmaster asks you whether you have told the staff what their duties are. You told everyone yesterday morning. Answer the headmaster according to the example given.

Dych chi wedi dweud wrth Mrs Williams am ddod yn gynnar?
Ydw, dwedais i wrthi hi bore ddoe.

- Dych chi wedi dweud wrth Mr Jones am lanhau'r neuadd?
- Dych chi wedi dweud wrth Mrs Evans am dacluso'r llyfrgell?
- Dych chi wedi dweud wrth Mr Evans a Mrs Thomas am y cyfarfod heno?
- Dych chi wedi dweud wrth staff y gegin am wneud coffi am 11.00?
- Dych chi wedi dweud wrth y plant am wisgo eu hiwniform?
- Dych chi wedi dweud wrth Mr Thomas am glirio'r dail o'r iard?
- Dych chi wedi dweud wrtho i faint o'r llywodraethwyr sy'n dod?

dweud wrth (rywun) am (SM)	<i>to tell (someone) to</i>
glanhau (glanh-)	<i>to clean</i>
tacluso (taclus-)	<i>to tidy</i>
cyfarfod (m.) -ydd	<i>meeting</i>
clirio (cliri-)	<i>to clear</i>
deilen (f.) dail	<i>leaf</i>
llywodraethwr (m.) llywodraethwyr	<i>governor</i>

Points to notice

The Welsh word for year is **blwyddyn** (f.):

y flwyddyn nesaf	<i>next year</i>
yr all flwyddyn	<i>the second year</i>

The plural of **blwyddyn** is **blynnyddoedd**:

am flynyddoedd	<i>for years</i>
blynnyddoedd yn ôl	<i>years ago</i>

After numbers, the word **blynedd** is used when you are talking about time and the word **blwydd** is used if you are referring to someone's age.

Time	Age
dwyr flynedd (two years)	dwyr flwydd (two years)
tair blynedd	tair blwydd
pedair blynedd	pedair blwydd
pum mlynedd	pum mwydd
chwe blynedd	chwe blwydd
saith mlynedd	saith mwydd
wyth mlynedd	wyth mwydd
naw mlynedd	naw mwydd
deg mlynedd	deg mwydd
can mlynedd	can mwydd (hundred years)

Ers faint dych chi'n byw
ym Mhontypridd?

For how long have you lived
in Pontypridd?

Dw i'n byw ym Mhontypridd
ers deg mlynedd.

I have lived in Pontypridd for
10 years.

The present tense is used with 'ers'.

Numbers over 10 usually use the pattern ... o flynyddoedd: dau ddeg pump o flynyddoedd.

Exercise 8

Compose sentences based on the information in the grid, e.g.
Mae Ifan yn byw ym Mangor ers deg mlynedd.

Enw	Byw	Faint
Ifan	Bangor	10
Huw	Treffynnon	7
Elin	Pontypridd	30
Llinos	Gorseinon	9
Jack	Dolgellau	14

The Welsh flag and National Anthem

In 1959 Queen Elizabeth II declared that a red dragon on a green and white background be flown as the official Welsh flag. It is not known, however, how the red dragon became the emblem of Wales. It is believed that the early Britons used it as a battle standard after the Roman occupation and that it may derive from a Roman standard.

An early legend tells of a fight between a red and a white dragon with the eventual triumph of the red dragon, representing Wales.

The Welsh National Anthem, Hen Wlad fy Nhadau, was composed in Pontypridd in 1856 by a father and son, Evan and James James. It is believed that Evan James was responsible for the words and his son for the music. There is a memorial to the two composers in Parc Ynys Angharad in Pontypridd. No one knows exactly when Hen Wlad fy Nhadau was adopted as the National Anthem. A Breton version – Bro Gozh ma Zadoù – was adopted as the Breton National Anthem in 1902.

Can you now do the following?	Yes	No	If not, go to page
Tell someone what you did			85
Say what someone else did			85
Tell someone you didn't do something			87
Say someone else didn't do something			87
Ask someone what they did			84
Say you have told someone something			90

09

mae rhywbeth
yn bod ar fy
nghar
there is something wrong
with my car

In this unit you will learn
how to

- say what is wrong with your car
- give your opinion on something
- say you went somewhere
- say how you came somewhere
- say what you had to eat or drink and say what someone else had to eat or drink

Deialog 1

Tom missed the previous day's class and explains the reason for his absence to his friends.

- Elen** Ble buoch chi ddoe Tom? Colloch chi wers bwysig.
Tom Mae'n ddrwg 'da fi Elen, ces i broblem 'da'r car ac roedd rhaid i fi fynd â fe i'r garej.
Elen Beth ddigwyddodd?
Tom Roeddwn i ar fy ffordd i weld fy ngwraig yn Abertawe pan sylweddolais i fod y car tu ôl i fi yn fflachio ei oleuadau. Roedd hi'n amlwg ei fod e eisiau i fi stopio. Stopiais i'n syth a daeth e draw i siarad â fi. Dwedodd e wrtha i am edrych ar y biben fwg. Roedd y biben yn siglo o ochr i ochr.
Jayne Beth wnaethoch chi Tom, oedd garej gerllaw?
Tom Nac oedd, roedd rhaid i fi yrru'n araf iawn i Gaerfyrddin. Ces i hyd i garej lle trwsion nhw'r biben.
Matthew Gostiodd e lawer i chi?
Tom Do. Ches i ddim llawer o newid o ddau gan punt. Dwedon nhw wrtha i hefyd fod rhaid newid dau deiar.
Elen Doedd e ddim yn ddiwrnod lwcus iawn i chi 'te Tom.

- 1 Why was Tom absent from yesterday's class?
- 2 How did he know that the car behind him wanted him to stop?
- 3 Why was the bill so expensive?

pwysig	<i>important</i>
digwydd (digwydd-)	<i>to happen</i>
sylweddoli (sylweddol-)	<i>to realize</i>
fflachio (fflachi-)	<i>to flash</i>
amlwg	<i>obvious</i>
draw	<i>over</i>
piben fwg (f.)	<i>exhaust</i>
siglo (sigl-)	<i>to swing</i>
ochr (f.) -au	<i>side</i>
gerllaw	<i>nearby</i>
Gaerfyrddin	<i>Carmarthen</i>
trwsio (trwsi-)	<i>to repair</i>
teiar (m.) -s	<i>tyre</i>

Points to notice

In Unit 8, you learnt the past tense of regular verbs. Deialog 1 has examples of some of the five irregular verbs in Welsh:

Mynd	Dod	Gwneud	Cael	Bod
es i (I went)	des i (I came)	gwnes i (I did, I made)	ces i (I got, had)	bues i (I was)
est ti	dest ti	gwnest ti	cest ti	buest ti
aeth e/hi	daeth e/hi	gwnaeth e/hi	cafodd e/hi	buodd e/hi
aethon ni	daethon ni	gwnaethon ni	cawson ni	buon ni
aethoch chi	daethoch chi	gwnaethoch chi	cawsoch chi	buoch chi
aethon nhw	daethon nhw	gwnaethon nhw	cawson nhw	buon nhw

Question forms, as in the case of regular verbs, are expressed by using the appropriate soft mutation on the verb where applicable:

Ddaethon nhw yn y car?	<i>Did they come in the car?</i>
Wnaeth e'r bwyd?	<i>Did he make the food?</i>
Gawsoch chi fath neithiwr?	<i>Did you have a bath last night?</i>

The forms of **dod**, **gwneud** and **bod** mutate softly in the negative, whereas **cael**, as with all other verb-nouns beginning with t, c or p, takes an aspirate mutation:

Chawson ni ddim cyfle.	<i>We had no opportunity.</i>
Ddaethon nhw ddim yn fy nghar.	<i>They didn't come in my car.</i>
Wnaeth e mo'r te.	<i>He didn't make the tea.</i>

In Welsh 'to take' and 'to bring' are **mynd â** and **dod â** respectively. **Mynd** and **dod** conjugate as normal in this context. An aspirate mutation follows **â**:

Dewch â photel.	<i>Bring a bottle.</i>
Es i â'r llyfr yn ôl i'r llyfrgell.	<i>I took the book back to the library.</i>

You will sometimes hear the word **fe** (mi in the north) in front of verbs in Welsh. **Mi/fe** causes the soft mutation: **Fe ges i/mi ges i**. **Fe/mi** is never used before a question, a negative or the present tense and does not change the meaning in any way.

1 Saying there is something wrong with the car

Mae rhywbeth yn bod ar y goleuadau.	<i>There is something wrong with the lights.</i>
Dyw'r brêcs ddim yn gweithio.	<i>The brakes don't work.</i>

Mae'r batri'n fflat.
Mae twll yn y teiar.

The battery is flat.
There is a puncture in the tyre.

Mae leinin y brêc wedi mynd.

The brake lining has gone.

Mae'r rheiddiadur yn gollwng.

The radiator is leaking.

Dyw'r car ddim yn dechrau.

The car won't start.

Dw i'n gallu clywed

I can hear a strange noise.

sŵn rhyfedd.

Mae'r disgiau wedi treulio.

The discs are worn.

Mae nam trydanol ar y car.

The car has an electrical fault.

Mae nam ar y goleuadau.

The lights are faulty.

twll (m.) tyllau hole, puncture
mae rhywbeth yn bod ar (SM) there is something wrong with

D Exercise 1

Listen to Lleucu speaking to a garage mechanic about her car, and choose the right option in each sentence.

- Lleucu asks him if he can a clean her car b look at her car c repair her car.
- She has a a flat battery b faulty lights c a puncture.
- The mechanic will look at it a straightaway b before dinner c after dinner.

2 Saying what needs to be done

Dw i'n credu bod cisiau ffanbelt newydd.	<i>I think that a new fan belt is needed.</i>
Bydd rhaid i chi adael y car dros nos.	<i>You will have to leave the car overnight.</i>
Bydd rhaid i fi archebu darn newydd i chi.	<i>I will have to order you a new part.</i>
Dych chi cisiau i fi ci diwnio fe?	<i>Do you want me to tune it?</i>
Mae cisiau newid y pwyntiau.	<i>The points need changing.</i>

3 Asking how long the job will take

Faint byddwch chi?	<i>How long will you be?</i>
Faint cymeriff hi?	<i>How long will it take?</i>
Ydy hi'n job hir iawn?	<i>Is it a long job?</i>

Bydda i ddwy awr o leiaf. *I will be two hours at least.*
Dewch yn ôl mewn awr. *Come back in an hour.*
Ffonia i chi pan fydd e'n barod. *I'll phone you when it's ready.*

brêc troed (m.)	foot brake
drych (m.) -au	mirror
sbardun (m.) -au	accelerator
peiriant (m.) peiriannau	engine

Exercise 2

There is something wrong with your car and you take it to your local garage and speak to the mechanic (peiriannydd). Fill in your side of the conversation:

Chi Tell the mechanic there is something wrong with your car.

Peiriannydd Beth yw'r problem?

Chi Tell him the brakes don't work properly and there is a strange noise coming from the engine. There is a lot of water on the floor. The car does not go very fast even with the accelerator on the floor.

(The mechanic looks at the car.)

Peiriannydd Mae eisiau llawer o waith ar y car 'ma. Brêcs newydd, gwaith ar y pedalau, rheiddiadur newydd a phwyntiau a phlygiau newydd.

Chi Ask him how long it will take?

Peiriannydd Dewch yn ôl yfory.

llawr (m.) lloriau	floor
hyd yn oed	even

Deialog 2

Elen is interested to know how many of her class can drive.

Elen Faint ohonoch chi sy'n gyrru?

Jayne Dw i'n gyrru ond dw i ddim wedi gyrru yn Ewrop. Dw i erioed wedi gyrru mewn gwlad lle maen nhw'n gyrru ar y chwith. Dw i ddim eisiau cael damwain mewn gwlad estron. Dw i ddim yn hoffi gyrru a dweud y gwir. Bues i'n byw yn Efrog Newydd am flynyddoedd pan oedd Haf yn fach a doedd dim pwynt cael car achos bod gormod o draffig yno. Roedd pawb yn defnyddio tacsî.

Matthew Dw i ddim wedi pasio fy mhrawf gyrru eto ond dw i wedi cael gwersi yn Llundain.

Tom Hoffwn i ddim dysgu gyrru yn Llundain. Mae mynd i Gaerdydd bob bore yn gallu bod yn hunllefus weithiau. Dw i ddim yn gyrru cymaint ag roeddwn i nawr. Dw i'n mynd ar y tren os galla i.

Elen Mae rhaid i fi gael car i fynd â'r plant o gwmpas. Dw i erioed wedi cael damwain ond unwaith gyrrais i i'r gwaith mewn niwl trwchus ac anghofiais i ddifodd y goleuadau. Pan ddaeth yr amser i gasglu Hêlodd o'r ysgol sylweddolais i fod y batri'n fflat. Daeth fy ffrind Linda â gwifrau cyswllt i ddechrau'r car.

Tom Digwyddodd yr un peth i fi unwaith. Mae fy nghar presennol yn cadw sŵn nawr os bydda i'n agor y drws pan mae'r goleuadau ymlaen.

- 1 How many of the people in the dialogue can drive?
- 2 Why didn't Jayne drive in New York?
- 3 Has Elen ever had an accident?

erioed	never, ever
lle	where
damwain (f.) damweiniâu	accident
estron	foreign
a dweud y gwir	to tell the truth
Efrog Newydd	New York
achos	because
prawf (m.) profion	test
hunllefus	nightmarish
diffodd	to turn off, to extinguish
gwifren gyswllt (f.) gwifrau cyswllt	jump lead
yr un	the same
presennol	present
cadw sŵn	to make a noise
os bydda i'n agor	if I open

Points to notice

'That'

Mae Tom yn meddwl bod Elen yn edrych yn ifanc.

Tom thinks that Elen looks young.

Sylweddolais i fod y batri'n fflat.

I noticed that the battery was flat.

**Mae e'n dweud bod elra
ar yr heol.**

*He says that there is snow
on the road.*

**Dw i'n credu y bydd hi'n
sych yfory.**

*I think that it will be dry
tomorrow.*

'That' in sentences such as these is expressed as **bod** when you are referring to the past or present and **y** when you are using the future (Units 14 and 15) and conditional (Unit 18) tenses. In grammatical terms this 'that' clause is known as the nominative clause.

There are different forms for 'that I am', 'that they are' etc.:

fy mod i that I am/was

ein bod ni that we are/were

dy fod di that you are/were

eich bod chi that you are/were

ei fod e that he is/was

eu bod nhw that they are/were

ei bod hi that she was/is

Dw i'n credu fy mod i'n iawn. *I think that I am right.*

**Dwedodd e dy fod di'n
egniol.** *He said that you were
energetic.*

**Roeddwn i'n meddwl ei fod
e'n hapus.** *I thought that he was happy.*

**Clywon ni ei bod hi'n
mynd i fwrw.** *We heard that it was going
to rain.*

**Dwedodd pawb ein bod
ni'n dda.** *Everyone said that we
were good.*

**Dw i'n credu eich bod chi
wedi pasio.** *I think that you have passed.*

**Mae hi'n gobeithio eu bod
nhw'n colli.** *She hopes that they lose.*

Exercise 3

Make each pair of sentences into one new sentence as shown in the example.

Mae'n ddrwg 'da fi. Dw i'n hwyr. Mae'n ddrwg 'da fi fy mod i'n hwyr.

- Mae e'n meddwl. Mae hi'n ddiflas.
- Clywais i ddoe. Dych chi'n mynd i Ffrainc.
- Maen nhw'n dweud. Mae e yn yr ysbty.
- Dwedodd ei fam. Maen nhw'n rhy egniol.
- Mae hi'n meddwl. Mae'r postmon wedi bod.
- Roeddwn i'n gwybod. Roedd y trên yn hwyr.
- Dyn ni'n siŵr. Dyn ni'n mynd i gyrraedd yn gynnar.
- Mae e'n credu. Mae rhywbeth yn bod ar y car.

4 Giving your opinion

**Beth dych chi'n ei feddwl
o ...?**

What do you think about ...?

Beth yw'ch barn chi am ...?

*What is your opinion
about ...?*

**Beth dych chi'n ei feddwl
o operâu sebon?**

*Dw i'n credu eu bod nhw'n
ddiflas.*

**Beth dych chi'n ei feddwl
o gerddoriaeth glasurol?**

Dw i'n credu ei bod hi'n wych.

**Beth yw'ch barn chi am
y newyddion?**

*Dw i'n credu ei fod e'n
ddiddorol iawn.*

**Beth yw'ch barn chi am
syracasau anifeiliaid?**

*Dw i'n meddwl eu bod
nhw'n greulon.*

**Beth yw ei barn hi am
ysmygu mewn lleoedd
cyhoeddus?**

*Mae hi'n meddwl ei fod
e'n afiach.*

clasurol	<i>classical</i>
gwyb	<i>excellent, brilliant</i>
cyhoeddus	<i>public</i>
afiach	<i>unhealthy</i>

Exercise 4

The town council of Llanfechan has decided to build a clock tower to commemorate the bicentenary of the town. A local reporter goes to ask the townspeople their opinion. Listen to the recording and fill in the grid.

	Opinion
Person 1	
Person 2	
Person 3	
Person 4	

5 Asking about someone's evening out

Ble aethoch chi echnos?	<i>Where did you go the night before last?</i>
Ble aethoch chi echdoe?	<i>Where did you go the day before yesterday?</i>
Es i i'r bwyty.	<i>I went to the restaurant.</i>
Gyda phwy aethoch chi?	<i>With whom did you go?</i>
Es i gyda fy nghariad/ nghymar.	<i>I went with my sweetheart/ partner.</i>

Exercise 5

Three people spent the evening in different restaurants. Listen to the recording and fill in the grid.

Name	Went	With	Ate

Exercise 6 Darn darllen

Do you remember what Matthew said he had done during half term? Matthew has written a letter to one of his friends. Are there any differences in his account?

Anmwyyl Nathan,

Diolch am dy lythyr a ges i y bore 'ma. Ces i lythyr oddi wrth Ifan yr wythnos diwethaf. Mae e'n dal i weithio i'r un cwmni yn Llundain. Dw i'n dal i gael llawer o hwyl ar y cwsr a dw i wedi curdd â llawer o bobl ddi-ddorol. Dw i'n mwynhau'r cwsr yn fawr iawn, mae'n gurs bendigedig. Wyt ti'n cofio fy mod i wedi dod yn ffrindiau da gyda bachgen o'r enw Marc. Mae Marc yn egniol iawn ac mae e'n hoffi ei beint hefyd. Aethon ni i'r gogledd yn ystod hanner tymor. Dw i erioed wedi cael cymaint o hwyl. Ddaethon ni ddim yn ôl i'r coleg tan yn hwy iawn. Cafodd y ddau ohonon ni lawer gormod i'w yfed, cerddon ni o gwmpas Caernarfon yn mynd o dafarn i dafarn. Rhywffordd neu'i gilydd cyrhaeddodd ni Ynys Môn, a chawson ni hyd i wely a brecwast. Mae Ynys Môn yn lle bendigedig. Buon ni'n cerdded ar hyd yr arfordir am amser hir yn y bore i glirio ein pennau ni.

Cofion

Matthew

dal i (SM)	still
oddi wrth (SM)	from (a person)
bendigedig	brilliant, splendid
dod yn (SM)	to become
yn ystod	during
hwyl (f.)	fun
tan (SM)	until
cymaint o (SM)	so much, so many
neu'i gilydd	or other
ein pennau ni	our heads
cofion	regards

Answer these questions based on Matthew's letter. Begin your answers 'Mae e'n meddwl...'

- 1 Beth yw barn Matthew am bobl eraill y cwsr?
- 2 Beth yw barn Matthew am y cwsr?
- 3 Beth yw barn Matthew am Marc?
- 4 Beth yw barn Matthew am Ynys Môn?

Points to notice

There are two words that mean *when* in Welsh. **Pryd** is used when you are asking a question: **Pryd dych chi'n mynd?** *When are you going?* **Pan**, which is a conjunction, a word such as 'and', 'because' and 'although', links clauses or sentences together:

Roedd Tom yn hapus pan ddaeth y gohebydd.	<i>Tom was happy when the reporter came.</i>
--	--

The Welsh music scene

Welsh popular music began in the 1960s with the satirical protest songs of Dafydd Iwan. The 1970s, however, saw a move towards rock music with singers such as Meic Stevens and bands such as Edward H. Dafis. The quality of Welsh music rose rapidly after the setting up of the recording company Sain in 1970. By the mid-1980s new labels led to different types of music including punk.

The 1990s saw the Welsh music scene come of age. Bands such as Catatonia and Super Furry Animals gained international status and lucrative recording deals, while still preserving their Welsh identity. This was also true of non-Welsh-speaking bands from Wales such as the Manic Street Preachers and Stereophonics who gained tremendous popularity and recognition worldwide. This along with similar successes achieved by young Welsh actors such as Ioan Gruffudd, Catherine Zeta Jones and Rhys Ifans led to the coining of the phrase 'cool Cymru' in the late 1990s.

Can you now do the following?	Yes	No	If not, go to page
Say where you went			96
Ask where someone went			101
Say where someone else went			102
Say what is wrong with your car			97
Ask how long it will take to repair your car			97
Give your opinion on something			101

10

**dw i ddim yn
teimlo'n dda
I don't feel well**

In this unit you will learn
how to

- describe illnesses
- make a doctor's appointment
- use the preposition ar
- use possessive pronouns

Deialog 1

Jayne meets Tom on her way to class; he is obviously unwell.

Jayne Tom! Dych chi'n edrych yn ofnadwy. Oes rhywbeth yn bod arnoch chi?

Tom Dw i ddim yn teimlo'n dda iawn o gwbl. Mae gwres uchel arna i ac mae pen tost 'da fi. Wnes i ddim cysgu'n dda iawn o gwbl neithiwr. Ches i ddim ond ddwy awr o gwsg.

Jayne Dych chi'n crynu fel deilen Tom. Mae rhaid i chi fynd i weld y meddyg. Ffonia i'r feddygfa. Mae'n lwcus bod ffôn symudol 'da fi.

Tom Mae tipyn o annwyd arna i dyna i gyd, ond mae tipyn o boen 'da fi yn fy mol hefyd. Bydda i'n iawn, mae'n well i ni fynd i'r dosbarth, dw i ddim eisiau bod yn hwyr.

Jayne Dych chi ddim yn mynd i unman Tom.

(Jayne phones the surgery.)

Dyw fy ffrind ddim yn teimlo'n dda iawn. Ydy hi'n bosib iddo fe weld y meddyg? Ydy, mae'n gallu dod nawr. Mae'r meddyg yn gallu eich gweld chi'n syth Tom. Mae'n lwcus ein bod ni wedi gwneud apwyntiad mor gynnar yn y bore.

- 1 How does Jayne know Tom is unwell?
- 2 Does Tom want to go to see the doctor at first?
- 3 When can the doctor see Tom?

gwres (m.)	heat, temperature
dim ond	only
crynu (crynu-)	to shake
ffonia i	I will phone
meddygfa (f.) -feydd	surgery
poen (f.) -au	pain
bol (m.) -iau	stomach
bydda i	I will be
unman	anywhere
apwyntiad (m.) -au	appointment

Points to notice

When an illness affects a particular part of the body, the possession construction described in Unit 3 is used: **Mae pen tost 'da fi.** *I have a headache.*

When an illness affects the whole body, an idiomatic construction involving the preposition **ar** is used: **Mae annwyd arna i.** *I have a cold.*

The one exception to this rule is **y ddannodd**: **Mae'r ddannodd ar Alun.** *Alun has toothache.*

1 Asking someone how they feel

Beth sy'n bod arnoch chi?

Oes rhywbeth yn bod?

Oes clust dost 'da ti?

Oes annwyd arnat ti?

Sut dych chi'n teimlo

erbyn hyn?

What is the matter with you?

Is there anything wrong?

Have you got earache?

Have you got a cold?

How do you feel now?

Beth oedd yn bod arnoch chi?

What was the matter with you?

2 Describing illness when a specific part of the body is affected

Mae clust dost 'da fi.

Does dim llaw dost 'da hi.

Mae cefn tost 'da fi.

Oes gwddw tost 'da nhw?

Mae fy llaw i'n boenus iawn.

I have earache.

She hasn't got a sore hand.

I have a sore back.


Have they a sore throat?

My hand is very painful.

Points to notice

Tost literally means 'ill', or 'sick' and like all adjectives mutates after a feminine singular noun such as **clust** or **coes**.

Rhannau'r corff The parts of the body



Exercise 1

Look at the diagram showing the parts of the body. Can you now say the following?

- 1 I have not got a sore throat.
- 2 They have sore feet.
- 3 Have you got a tummy ache?
- 4 He has a sore arm.
- 5 Has she got earache?

3 Describing an illness which affects the whole body

Mae peswch arna i. *I have a cough.*
(lit. there is a cough on me)

Mae'r ffliw arna i. *I have flu.*

You saw in Unit 8 that some prepositions decline in Welsh. The preposition *ar*, used to describe illness affecting the whole body, is another example of a preposition which declines. Here are the forms of *ar*:

arna i	on me
arnat ti	on you
arno fe	on him
arni hi	on her
arnon ni	on us
arnoch chi	on you
arnyn nhw	on them
Beth sy'n bod arno fe?	<i>What's the matter with him?</i>
Mae'r ddannodd arno fe.	<i>He has toothache.</i>
Does dim byd yn bod arnon ni.	<i>There's nothing wrong with us.</i>

Some of the ailments which use *ar* can be found below.

y ddannodd (f.)	toothache
peswch (m.)	cough
annwyd (m.) -on	cold
y ffliw (f.)	influenza
y frech goch (f.)	measles

Exercise 2

Answer the following questions. An example has been done for you.

- Oes rhywbeth yn bod arnat ti? (cough) ✓
- Oes, mae peswch arna i.
- 1 Oes rhywbeth yn bod ar Mair? (cold) ✓
- 2 Oes rhywbeth yn bod ar y plant? ✗
- 3 Wyt ti'n dost? (ffliw) ✓
- 4 Ydy e'n dost? (toothache) ✓
- 5 Dyn nhw'n dost? (measles) ✓

Exercise 3

You are the secretary of a company. This morning there are messages on the answer phone from five non-Welsh-speaking members of staff who phoned to say that they wouldn't be in work today. You quickly write down the messages in English. Your boss then comes in wanting to know where the five staff members are. What do you tell him? The first one has been done for you.

Megan	high temperature
James	not feel well
Mr Williams	sore throat
Mrs Johns	backache
Mr Evans	toothache

Megan → Mae gwres uchel ar Megan.

4 Describing general ailments

- Dw i ddim yn teimlo'n hwylus iawn. *I don't feel very well.*
- Dyw hi ddim yn gallu anadlu'n iawn. *She can't breathe properly.*
- Dw i'n cael gwaith mynd i gysgu. *I'm having difficulty sleeping.*
- Dw i'n dioddef o hyd. *I'm still suffering.*

anadlu (anadl-)	to breathe
cael gwaith	to have difficulty
o hyd	still

5 Describing and discussing injuries

Dw i wedi brifo fy nghoes.	<i>I've hurt my leg.</i>
Dw i wedi anafu fy mraich.	<i>I've injured my arm.</i>
Mae hi wedi torri ei bys.	<i>She has cut her finger.</i>
Mae e wedi torri ei law.	<i>He has broken his hand.</i>
Mae hi wedi troi ei migwrn.	<i>She has twisted her ankle.</i>
Dw i wedi llosgi fy hunan.	<i>I've burnt myself.</i>
Dw i wedi cael dolur.	<i>I'm hurt.</i>
Beth sydd wedi digwydd iddi hi?	<i>What has happened to her?</i>

brifo (brif-)	<i>to hurt</i>
anafu (anaf-)	<i>to injure</i>
torri (torr-)	<i>to cut, to break</i>
troi (tro-)	<i>to turn, to twist</i>
llosgi (llog-)	<i>to burn</i>
cael dolur	<i>to be hurt</i>

Deialog 2

Tom has reached the waiting room of the surgery and is chatting to some of the other people there. He starts up a conversation with Morgan.

Tom	Beth sy wedi digwydd i chi?
Morgan	Ces i ddamwain. Cwypais i oddi ar fy ngheffyl. Dw i wedi gwneud niwed i fy ngwddw a dw i wedi torri fy mraich.
Tom	Druan â chi. Dych chi mewn poen?
Morgan	Bues i mewn poen ofnadwy ond ces i dabledi gan y doctor a dw i'n teimlo'n well nawr, gwell o lawer a dweud y gwir. Pam dych chi yma? Mae golwg wael amoch chi.
Tom	Dw i'n credu fy mod i wedi dal rhyw fyg neu'i gilydd. Bues i lan drwy'r nos. Dw i'n dechrau chwyssu nawr.
Morgan	Buodd fy nhad yn dost iawn yr wythnos diwethaf. Mae'n swnio fel yr un peth, dych chi wedi bod yn chwydu?
Tom	Nac ydw, ond dw i'n teimlo'n wael iawn. Dw i ddim yn mynd at y meddyg yn aml.
Morgan	Yr un peth yw e siŵr o fod.

- 1 What happened to Morgan?
- 2 Why is Morgan no longer in any pain?
- 3 Has Tom been sick?

cwmpo (cwyp-)	<i>to fall</i>
oddi ar (SM)	<i>from (upon)</i>
niwed (m.)	<i>damage</i>
tabled (f.) -i	<i>pill</i>
golwg (f.)	<i>sight, look</i>
gwael	<i>bad, poor</i>
dal	<i>to catch</i>
gwell o lawer	<i>a lot better</i>
byg (m.) bygiau	<i>bug</i>
swnio (swni-)	<i>to sound</i>
chwydu (chwyd-)	<i>to vomit</i>
mynd at (SM)	<i>to go to</i>

Points to notice

Oddi ar is made up of two prepositions, **o** and **ar** and literally means 'from on'. It is used when somebody or something comes down from somewhere. e.g. **Mae'r esgid ar y gwely.** **Mae'r esgid wedi cwmpo oddi ar y gwely.**

Mynd at/mynd i both mean 'to go to'. **Mynd at** is used if you are going to see a person and **mynd i** is used if you are going somewhere.

Dw i ddim yn mynd at y meddyg yn aml.	<i>I don't go to see the doctor very often.</i>
Mae hi wedi mynd i Lamped.	<i>She has gone to Lampeter.</i>

Exercise 4

Listen to the recording. Four people are leaving messages on an answer phone. They are saying why they cannot go to a meeting that evening. When you have listened to the messages, fill in the grid.

Name	Excuse

6 Talking about an illness someone has had

Am faint buoch chi'n dost?	<i>For how long were you ill?</i>
Bues i'n dost am dri diwrnod.	<i>I was ill for three days.</i>
Oedd rhaid i chi gael llawdriniaeth?	<i>Did you have to have surgery?</i>
Gest ti rywbeth oddi wrth y meddyg?	<i>Did you get something from the doctor?</i>
Pryd dest ti'n ôl o'r ysbyty?	<i>When did you come back from hospital?</i>
Cafodd hi lawdriniaeth.	<i>She had surgery.</i>
Buodd hi yn yr ysbyty am bedair wythnos.	<i>She was in hospital for four weeks.</i>

Exercise 5

What is wrong with these people? Connect the sentences to the correct picture.

- 1 Mae gwres arno fe.
- 2 Mae hi'n cael llawdriniaeth.
- 3 Does dim byd yn bod arno fe.
- 4 Mae annwyd arno fe.
- 5 Mae bol tost 'da fe.
- 6 Mae e wedi torri ei goes.
- 7 Mae e wedi cael damwain.
- 8 Mae e wedi gwneud niwed i'w ben e, mae llygad dost 'da fe, ac mae e wedi torri ei fraich.
- 9 Mae hi wedi torri ei braich.

Deialog 3

Tom has finally gone in to see Dr Hughes.

Dr Hughes	Dewch i mewn. Cymerwch sedd. Beth alla i ei wneud i chi?
Tom	Dw i ddim yn teimlo'n hwylus iawn doctor, ces i waith mynd i gysgu neithiwr ac mae pen tost ofnadwy 'da fi. Dw i'n gwaethygu wrth yr awr. Dw i ddim wedi bwyta ers prynhawn ddoe.
Dr Hughes	Mae eich tymheredd yn uchel iawn, dych chi wedi cymryd rhywbeth at y pen tost?
Tom	Nac ydw, dw i ddim yn hoffi cymryd moddion.



Dr Hughes Firws sy arnoch chi. Does dim llawer y galla i ei wneud. Ysgrifenna i bapur doctor i chi. Mae'r tabledi 'ma'n dda iawn; mae rhaid i chi eu cymryd nhw dair gwaith y dydd ar ôl pryd bwyd. Dych chi'n gweithio?

Tom Ydw, ond dw i'n mynychu cwrs yn y coleg ar hyn o bryd. Dw i wedi colli un bore'n barod achos bod problem 'da fi gyda'r car.

Dr Hughes Wel mae ofn arna i bod rhaid i chi aros yn y gwely am dri diwrnod o leiaf. Dewch i fy ngweld i os na fyddwch chi wedi gwella ymhen wythnos.

- 1 Did Tom sleep well last night?
- 2 How often does Tom have to take the pills?
- 3 How many days of his course will Tom miss?

sedd (f.) -i	seat
gwaethygu (gwaethyg-)	to get worse
wrth yr awr	by the hour
moddion	medicine
firws (m.) firysau	virus
y galla i ei wneud	that I can do
papur doctor (m.) papurau doctor	prescription
pryd bwyd (m.)	meal
mynychu (mynych-)	to attend
os na fyddwch chi wedi	if you haven't
gwella (gwell-)	to get better, to improve
ymhen	within

7 Other idioms using the preposition ar

As well as being used to describe illness affecting the whole body, the preposition ar is also used to express the following:

syched	thirst	Oes syched arni hi?	Is she thirsty?
cywilydd	shame	Oes cywilydd arno fe?	Is he ashamed?
hiraeth	homesickness	Mae hiraeth arna i.	I'm homesick.
ofn	fear	Mae ofn arnon ni.	We are afraid.
eisiau bwyd	hunger	Mae eisiau bwyd arnyn nhw.	They are hungry.
bai	blame	Does dim bai ar neb.	No one is to blame.
dyled (f.) -ion	debt	Mae dyled arnon ni.	We are in debt.

When used with ar, eisiau means 'to need'

eisiau cwsg a need of sleep Mae eisiau cwsg arnoch chi.
You need sleep.

eisiau gorffwys a need of rest

Mae eisiau gorffwys arni hi.
She needs rest.

eisiau gwaith a need of work

Mae eisiau gwaith ar y tŷ.
The house needs work.

Ar also features in some idioms:

Mae'n draed moch arno fe. (lit. it's pig's feet on him!)
He's in a mess.

Does dim dal arnyn nhw. There's no relying on them.

8 Edrych ar

You are familiar with edrych ar (to look at). As in the examples in this unit, ar declines:

Edrychais i arnyn nhw. I looked at them.

Edrych is only one example of a verb-noun which can be followed by ar. Here is a list of some of the most common examples of verbs which are followed by ar:

gwrando ar to listen to Gwrandawais i arnyn nhw.
I listened to them.

blino ar to tire of Blinodd e ar y gwaith.
He tired of the work.

dibynnu ar to depend on Dw i'n dibynnu ar bawb.
I depend on everyone.

gweiddi ar to shout at Mae hi'n gweiddi arno fe.
She shouts at him.

sylwi ar to notice Dw i ddim yn sylwi arno fe erbyn hyn.
I don't notice it by now.

Exercise 6

Fill in the gaps with the appropriate form of ar. The first one has been done for you.

- Mae pawb yn edrych _____ chi. arnoch
- Does dim cywilydd _____ fe.
- Does neb yn gwrando _____ i.
- Maen nhw'n gwrando _____ bawb.
- Oes rhywbeth yn bod _____ chi?
- Does dim dal _____ hi.
- Mae eisiau gorffwys _____ nhw.
- Mae hiraeth _____ Jayne.
- Roedd hi wedi blino _____ ni.

9 Personal pronouns

You have met some of the prefixed possessive pronouns already in the course, for example *fy* (Unit 2), *ei* (Unit 2). The following table contains a complete list of personal pronouns and the mutations associated with them. Look at the way the two words *car* and *oren* change after the pronouns.

Personal pronoun	Meaning	Examples
<i>fy</i> (NM)	<i>my</i>	<i>fy nghar</i> <i>fy oren</i>
<i>dy</i> (SM)	<i>your (fam.)</i>	<i>dy gar</i> <i>dy oren</i>
<i>ei</i> (SM)	<i>his</i>	<i>ei gar</i> <i>ei oren</i>
<i>ei</i> (AM) + <i>h</i> before a vowel	<i>her</i>	<i>ei char</i> <i>ei horen</i>
<i>ein</i> + <i>h</i> before a vowel	<i>our</i>	<i>ein car</i> <i>ein horen</i>
<i>eich</i>	<i>your</i>	<i>eich car</i> <i>eich oren</i>
<i>eu</i> + <i>h</i> before a vowel	<i>their</i>	<i>eu car</i> <i>eu horen</i>

You have already seen such expressions as *Beth yw'ch enw chi?* *Beth yw'ch rhif ffôn chi?* The *chi* belongs to another set of pronouns which can imply emphasis.

Pronoun	Examples	Meaning
<i>i</i>	<i>fy nghar i</i>	<i>my car</i>
<i>di</i>	<i>dy gar di</i>	<i>your car</i>
<i>e</i>	<i>ei gar e</i>	<i>his car</i>
<i>hi</i>	<i>ei char hi</i>	<i>her car</i>
<i>ni</i>	<i>ein car ni</i>	<i>our car</i>
<i>chi</i>	<i>eich car chi</i>	<i>your car</i>
<i>nhw</i>	<i>eu car nhw</i>	<i>their car</i>

Peidiwch â defnyddio fy nghar i! *Don't use my car!*

Verb-nouns can follow prefixed pronouns:

<i>gweld</i>	<i>fy ngweld i</i>	<i>see me</i>	Does <i>neb</i> yn gallu <i>fy ngweld i</i> .
<i>clywed</i>	<i>dy glywed di</i>	<i>hear you</i>	<i>Mae pawb</i> yn gallu <i>dy glywed di</i> .
<i>gwerthu</i>	<i>ei werthu e</i>	<i>sell him/it</i>	<i>Dych chi wedi ei werthu e?</i>
<i>talw</i>	<i>ei thalu hi</i>	<i>pay her</i>	<i>Dyn nhw wedi ei thalu hi?</i>
<i>poeni</i>	<i>ein poeni ni</i>	<i>bother us</i>	<i>Maen nhw'n ein poeni ni.</i>
<i>gadael</i>	<i>eich gadael chi</i>	<i>leave you</i>	<i>Ydy hi wedi eich gadael chi yma?</i>
<i>codi</i>	<i>eu codi nhw</i>	<i>lift them</i>	<i>Wnes i ddim o'u codi nhw.</i>

This pattern does not apply to verb-nouns which are usually followed by prepositions, e.g. *siarad â* (AM), *edrych ar* (SM), *dweud wrth* (SM):

siarad â *Siaradais i â hi y bore 'ma.* *I spoke with her this morning.*

or to short-form verbs:

Gwelais i fe. *I saw him.* (short-form verb)
Dw i'n ei weld e. *I see him.* (long-form verb)

Some of the prefixed pronouns contract after vowels:

ei becomes 'i: *Aeth e i'r orsaf gyda'i fam.*
He went to the station with his mother.

ein becomes 'n: *Dyma'n cyfle.*
Here is our chance.

eich becomes 'ch: *Ble mae'ch gwaith cartref?*
Where is your homework?

eu becomes 'u: *Ces i afalau o'u gardd.*
I got apples from their garden.

Ei becomes 'w after the preposition *i*:

Es i i'w thy hi neithiwr. *I went to her house last night.*

You have already seen examples of the above contraction in the phrase *neu'i gilydd* (Unit 9). The word *gilydd* is also used in the expression *ei gilydd*, *each other*:

Maen nhw'n helpu ei gilydd. *They help each other.*
Mae Tom a Matthew'n helpu ei gilydd. *Tom and Matthew help each other.*

Ein gilydd is used when you are talking about *us* and *eich gilydd* is used with *you* (plural):

Dyn ni'n helpu ein gilydd. *We help each other.*
Dych chi'n helpu eich gilydd? *Do you help each other?*

10 Dw i wedi llosgi fy hunan I've burnt myself

'Self', 'alone' and 'own' are expressed in Welsh by placing the form *hunan* in the singular and *hunain* in the plural after personal pronouns:

fy hunan	<i>myself</i>	ein hunain	<i>ourselves</i>
dy hunan	<i>yourself (fam.)</i>	eich hunan (ain)	<i>yourself (selves)</i>
ei hunan	<i>himself</i>	eu hunain	<i>themselves</i>
ei hunan	<i>herself</i>		

Helpwch eich hunan i fisgedi. *Help yourself to biscuits.*
 Daethon nhw â'u bwyd eu hunain. *They brought their own food.*

wrth fy hunan *by myself*
 fy nghar fy hunan *my own car*

i Meddygon Myddfai

Meddygon Myddfai (the Physicians of Myddfai) were a family of country doctors who lived in the parish of Myddfai, Carmarthenshire, in the thirteenth century. Rhiwallon and his three sons, Cadwgan, Gruffudd and Einion, were the court physicians to Rhys Grug, Lord Dinefwr. We know so much about this medical family because they wrote all their notes down. Several copies have survived to the present day, the earliest copy being in The British Library in London. There is evidence that there were medical successors to the original Myddfai Physicians up to the eighteenth century.

A lot of the medicines Rhiwallon and his sons used were made from the herbs and plants which grew locally, such as garlic, fennel, rosemary and thyme.

Can you now do the following?	Yes	No	If not, go to page
Ask if there is something wrong with someone			107
Give the Welsh names for parts of the body			107
Describe an injury or illness			107, 108, 110
Say what illness someone has had			112
Say you are going to the doctor			111
Say you are hungry or thirsty			114
Say you have done something yourself			117

Now turn to page 242 and try progress test 2.



**sut roedd eich
gwylliau?**
how were your holidays?

In this unit you will learn how to

- describe a holiday you have had
- say what you used to do
- ask if someone has ever done something
- say you have never done something
- talk about your school days
- ask someone about their school days

Deialog 1

- Elen** Wel, dyn ni dipyn dros hanner ffordd drwy'r cwsr erbyn hyn; dw i'n falch ein bod ni heb golli neb. Dw i'n falch iawn hefyd eich bod chi'n well erbyn hyn Tom. Beth wnaethoch chi yr haf diwethaf? Rhywbeth mwy cyffrous na dysgu Cymraeg, mae'n siŵr!
- Tom** Mae'n ddrwg 'da fi eich siomi chi Elen, ond roeddwn i'n gweithio'n galed iawn ar achos cyfreithiol cymhleth. Ches i ddim cyfle i gael gwyliau.
- Jayne** Wel, ces i a Haf a'i chariad wyliau hyfryd yn New England.
- Matthew** Sut roedd y tywydd? Dw i erioed wedi bod yn New England.
- Jayne** Mae'n well mynd yn yr hydref pan mae'r dail yn cwmpo ond aethon ni am fis, ym mis Awst ac roedd hi'n braf ond roedd gormod o bobl o gwmpas.
- Tom** Beth wnaethoch chi tra oeddech chi yno?
- Jayne** Roedden ni'n cerdded bob dydd yn y mynyddoedd. Erbyn diwedd yr wythnos roeddwn i'n teimlo'n flinedig iawn. Roedd Haf a'i chariad wedi blino'n lân hefyd. Dych chi wedi bod yn America Tom?
- Tom** Nac ydw ond aeth fy ngwraig a'i brawd a'i blant e i Galiffornia rai blynedd yn ôl. Roedd y tywydd yn fendigedig a chawson nhw lawer o hwyl. Roedd y plant wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

- How does Elen say 'something more exciting than learning Welsh'?
- Did Tom have a holiday last year?
- Why was Jayne tired by the end of her holiday?

balch	glad, proud
cyffrous	exciting
siomi (siom-)	to disappoint
cymhleth	complicated
tra	while
blinedig	tired
wedi blino'n lân	completely exhausted
rhal	some
yn ôl	ago

Points to notice

Cartref (home), **gartref** (at home), **adref** (homewards): Notice the difference in the use of these three words:

Mae hi'n gweithio mewn cartref hen bobl.	She works in an old people's home.
Oes rhywun gartref?	Is there someone at home?
Cerddais i adref wrth fy hunan.	I walked home by myself.

Cartref is used when talking about a home and is a popular house name. **Gartref** means 'at home' and **adref** is usually used when describing movements towards the home and usually follows a verb which describes movement: **mynd adref, dod adref, rhedeg adref.**

Exercise 1

Fill in the blanks with the the correct word: **cartref, gartref** or **adref.**

- Rhedodd y bachgen _____.
- Bues i _____ yn edrych ar ôl fy ngwraig.
- Es i i siopa er mwyn prynu pethau i fy _____ newydd.
- Pryd aeth hi _____?
- Maen nhw _____ trwy'r dydd nawr.
- Mae _____ cŵn yn y pentref.

1 Dych chi erioed wedi? Have you ever?

Ever, never: In English there is a difference between these two words, in Welsh, there is not. **Erioed** means both **ever** and **never** and is used only with **wedi** and the past tense.

Wedi

Dw i erioed wedi bod yn Efrog Newydd.	I have never been to New York.
Doedden nhw erioed wedi nofio.	They had never swum.
Dych chi erioed ennill erioed?	Have you ever won?
Oedd e wedi cystadlu erioed?	Had he ever competed?

Past tense

Chlywais i erioed gymaint o sŵn.	I never heard so much noise.
Fuodd e erioed yn Iwerddon.	He was never in Ireland.
Atebon nhw erioed?	Did they ever answer?

As you can see from these examples, **erioed** takes the place of **ddim** in a sentence:

Dw i ddim wedi bod yn Efrog Newydd.	<i>I have not been to New York.</i>
Dw i erioed wedi bod yn Efrog Newydd.	<i>I have never been to New York.</i>

Erioed can also mean *always*:

Mae hi wedi bod yn ddiog erioed.	<i>She has always been lazy.</i>
----------------------------------	----------------------------------

Exercise 2

Six questions and answers are given here. Connect the right answer to its question.

- 1 Dych chi wedi mynd â'r plant i'r pwll nofio erioed? Nac ydy, mae'n gas 'da hi raglenni ffugwyddonol.
- 2 Dyn nhw wedi sgïo erioed? Ydw, bues i ar raglen gwis yr wythnos diwethaf.
- 3 Ydy e wedi dringo Tŵr Eiffel erioed? Nac ydyn, maen nhw'n mynd wrth eu hunain.
- 4 Wyt ti wedi bod yn Iwerddon erioed? Nac ydy, mae ofn lleoedd uchel arno fe.
- 5 Dych chi wedi bod ar y teledu erioed? Nac ydyn, dyn nhw ddim yn hoff o eira.
- 6 Ydy hi wedi gweld *Star Trek* erioed? Ydw, bues i yno rai blynyddoedd yn ôl.

Exercise 3

Listen to the recording and then fill in the grid. Four people are being asked if they have ever been abroad and when they went.

	Ever been?	When?	Where?
1			
2			
3			
4			

2 The imperfect tense

There are several examples of the imperfect tense of **bod** in Deialog 1.

The imperfect tense is used in general:

- a to describe an action in the past which was continuous or relatively lengthy that was still in progress when interrupted by a shorter one expressed by the past tense:

Roeddwn i'n gwylio'r teledu pan ganodd y ffôn.	<i>I was watching the television when the phone rang.</i>
Roedden ni yn yr ysgol pan ddigwyddodd y ddamwain.	<i>We were in school when the accident happened.</i>

All events described took place in the past but watching the television and being at school are longer than the few seconds in which it took the phone to ring and the accident to happen.

- b when reminiscing, talking about and describing how things used to be and referring to events which occurred repeatedly in the past.

Pan oeddwn i'n ifanc, roeddwn i'n treulio fy ngwylliau yn y gogledd.	<i>When I was young, I used to spend my holidays in the north.</i>
--	--

You will sometimes hear the verb-noun **arfer** (*used to*) which reinforces the meaning of something you used to do: **roedden ni'n arfer gweithio bob haf, we usually worked every summer.**

The forms of the imperfect tense of the verb **bod** are:

roeddwn i	<i>I was</i>
roeddet ti	<i>you were</i>
roedd e	<i>he was/it was</i>
roedd hi	<i>she was/it was</i>
roedden ni	<i>we were</i>
roeddech chi	<i>you were</i>
roedden nhw	<i>they were</i>

To form a question, the 'r' is dropped: **Oeddwn i?, Was I?**

To form the negative, the 'r' becomes 'd' and **ddim** is added: **doedd e ddim, he wasn't; doedden nhw ddim, they weren't.**

In North Wales, you will hear the preverbal particle **mi** before the affirmative forms of the imperfect: **mi oeddwn i, mi oedd o** etc. The preverbal particle **fe** is never used with the imperfect.

Exercise 4

Catrina Evans is homesick for Patagonia. On the left, you have to say what used to happen in Patagonia and on the right, how things are in Wales. The first one has been done for you.

Ym Mhatagonia, roedd hi'n byw mewn hasienda ond yng Nghymru, mae hi'n byw mewn fflat.

byw mewn hacienda	byw mewn fflat
tywydd yn dwym	tywydd yn oer
yfed maté a gwin	yfed te a bwyta pysgod a sglodion
nabod pawb	nabod neb
mynd o le i le ar geffyl	mynd ar y bws
bob dydd	
clywed Sbaeneg bob dydd	ddim yn clywed Sbaeneg

3 Describing your last holiday

Some useful sentences:

Gawsoch chi wyliau eleni?	<i>Did you have a holiday this year?</i>
Aethoch chi dros y môr?	<i>Did you go abroad?</i>
Gawsoch chi wyliau tramor?	<i>Did you have a foreign holiday?</i>
Pryd aethoch chi?	<i>When did you go?</i>
Aethon ni dros y Pasg.	<i>We went over Easter.</i>
Gawsoch chi amser da?	<i>Did you have a good time?</i>
Am faint est ti?	<i>For how long did you go?</i>
Ble roeddech chi'n aros?	<i>Where did you stay?</i>
Oedd y gwesty'n iawn?	<i>Was the hotel all right?</i>

Exercise 5

Wyn, a friend whom you have not seen for some time, is asking about your last holiday. Fill in your side on the conversation.

Wyn Ble est ti llynedd?
Chi Say you went to Pwllheli.
Wyn Ble arhosaist ti?
Chi Tell him you stayed in a four-star hotel.
Wyn Oedd hi'n ddud i aros yno?
Chi Tell him that it wasn't as expensive as your holidays in Barbados.
Wyn Sut roedd y bwyd?
Chi Tell him it was very tasty, much better than the previous year.
Wyn Sut roedd y tywydd?
Chi Tell him it was splendid.
Wyn Beth am y plant? Oedd digon iddyn nhw ei wneud?
Chi Tell him they were very happy, there were lots of things for them to do, they used to leave the hotel every morning after breakfast and not come back until very late.

gwesty (m.) gwestai	hotel
seren (f.) sêr	star
cynt	previous
gadael (gadaw-)	to leave

Exercise 6

Listen to the recording and then answer the questions that follow. Meleri is talking about her foreign travels.

- 1 To which countries has she been?
- 2 What did she like about Spain?
- 3 What did she do in France?
- 4 What didn't she like about the hotel in Italy?
- 5 Where did she go after that?
- 6 When did she see Mr Parry?
- 7 What was he doing?

Deialog 2

Tom and Matthew are reminiscing about their school days.

Tom Dych chi'n darllen eto Matthew? Roeddech chi'n swot mawr yn yr ysgol siŵr o fod.
Matthew Nac oeddwn, ond roeddwn i'n gwneud fy ngwaith yn gydwybodol. Roeddwn i'n hoffi'r ysgol. Roedd yr athrawon yn gyfeillgar iawn, roedden nhw i gyd yn siarad Cymraeg ac roedden nhw'n amyneddgar iawn gyda'r rhai oedd yn dysgu'r iaith. Sut roedd eich dyddiau ysgol chi?
Tom Roedd yn gas 'da fi'r ysgol. Roedd rhaid i fy nhad a fy mam fy llusgo i i'r ysgol bob dydd. Doedd yr athrawon ddim yn fy hoffi i, roedden nhw'n pico arna i drwy'r amser ond doeddwn i ddim yn ddrwg iawn.
Matthew Wel, dych chi wedi newid, chi yw swot mwyaf y cwrs.
Tom Dim ond pan benderfynais i ddod yn gyfreithiwr dechreuais i weithio.

- 1 Did Matthew work hard in school?
- 2 How does Matthew ask Tom how his school days were?
- 3 Why did Tom not like school?
- 4 How does Matthew say 'You are the biggest swot on the course'?

cydwybodol	conscientious
cyfeillgar	friendly
amyneddgar	patient
llusg (llusg-)	to drag
pico (pic-)	to pick

Points to notice

As with the present tense (Unit 5), there are different answer forms in the imperfect tense:

oeddwn yes, I was	nae oeddwn no, I wasn't
oeddet yes, you were	nae oeddet no, you weren't
oedd yes, he/she/it was	nae oedd no, he/she/it wasn't
oedden yes, we were	nae oedden no, we weren't
oeddech yes, you were	nae oeddech no, you weren't
oedden yes, they were	nae oedden no, they weren't

Don't forget that the third person singular is used with plural nouns in all tenses: **Mae'r bechgyn yn drist iawn**, *The boys are very sad*; **Roedd y bechgyn yn drist iawn**, *The boys were very sad*; **Crïodd y bechgyn**, *The boys cried*.

Exercise 7

Answer the following in full sentences according to the examples.

Oedd yr arian yn ei fag? (✓) Oedd, roedd yr arian yn ei fag.

Oedden nhw'n gweithio i'r un cwmni? (X) Nae oedden, doedden nhw ddim yn gweithio i'r un cwmni.

- a Oedd hi'n fwyn ddoe? (✓)
- b Oedd yr athrawon yn amyneddgar? (X)
- c Oeddet ti'n hwyr i'r gwaith y bore 'ma? (X)
- d Oedden nhw'n cystadlu mewn eisteddfodau pan oedden nhw'n fach? (✓)
- e Oedd eich modryb yn edrych ymlaen at ei gwyliau? (X)
- f Oeddech chi'n mynd dair gwaith yr wythnos? (✓)
- g Oedd y caws yn ffres? (X)
- h Oedd dreigiau Jayne dros ei thŷ i gyd? (✓)

Sut roedd eich dyddiau ysgol chi? Here are some possible answers to this question:

Roedden nhw'n hapus iawn.	<i>They were very happy.</i>
Roedd yn gas 'da fi'r ysgol.	<i>I hated school.</i>
Doeddwn i ddim yn gallu aros i adael.	<i>I couldn't wait to leave.</i>
Doeddwn i ddim yn gweithio'n ddigon caled.	<i>I didn't work hard enough.</i>
Roeddwn i'n colli llawer o ysgol.	<i>I missed a lot of school.</i>
Roedd yr athrawon yn ddymunol iawn.	<i>The teachers were very pleasant.</i>

Deialog 3

Matthew has some good news to share with Tom. Listen to the recording, without reading the script, and then answer the three questions that follow. Listen to the recording again, with the aid of the vocabulary if necessary, and when you are sure you understand everything, answer the second set of questions.

Matthew Dw i newydd gael newyddion da, mae tri chyfweliad 'da fi'r wythnos nesaf.

Tom Llongyfarchiadau. Dw i'n eich cofio chi'n dweud eich bod chi wedi anfon i ffwrdd am fanylion, ond roedd hynny'n amser hir yn ôl nawr. Doeddwn i ddim wedi sylweddoli eich bod chi wedi gwneud cais am y swyddi. Pa fath o swyddi dyn nhw?

Matthew Mae'r tair swydd yn wahanol iawn i'w gilydd. Rheolwr tafarn yng Nghaerdydd yw'r un sy 'da fi ddydd Llun. Wedyn, mae cyfweliad 'da fi gyda chwmni cyfrifiaduron, maen nhw'n chwilio am rywun i werthu meddalwedd yn Ne Cymru. Mae'n rhaid i fi fynd am gyfweliad ym mhencadlys y cwmni ym Mhenybont ddydd Mercher. Ar ddiwedd yr wythnos, bydda i yn y gogledd yn cael cyfweliad am swydd tiwtor cyfrifiaduron mewn coleg addysg bellach.

Tom Llongyfarchiadau eto. Dw i'n siŵr y byddwch chi'n cael un ohonyn nhw. Dych chi'n mynd i fod yn brysus iawn. Dwedwch wrtha i os byddwch chi eisiau fy help.

Matthew Gwnaf.

- 1 What hadn't Tom realized?
- 2 Where will Matthew be on Monday?
- 3 When will Matthew be in the north?

cyfweliad (m.) -au	<i>interview</i>
cais (m.) ceisiadau	<i>application</i>
i'w gilydd	<i>to each other</i>
rheolwr (m.) rheolwyr	<i>manager</i>
meddalwedd (f.)	<i>software</i>
pencaidlys (m.)	<i>headquarters</i>
addysg bellach	<i>further education</i>

True or false?

- 4 Mae pedwar cyfweliad 'da Matthew.
- 5 Mae'r cyfweliadau yr wythnos nesaf.
- 6 Mae'r swyddi'n debyg iawn i'w gilydd.

7 Mae'r dafarn yng Nghaerdydd.

8 Mae pencadlys y cwmni cyfrifiaduron yn y gogledd.

9 Mae cyfweliad 'da Matthew mewn ysgol.

i Patagonia

During the nineteenth and twentieth century many people left Wales to start a new life in Patagonia.

The first ship, called *The Mimosa*, arrived in Porth Madryn on July 28, 1865. The Welsh settled in Dyffryn Camwy (*Chubut*), and in 1885 a group of families crossed 400 miles to Cwm Hyfryd to set up another colony at the foot of the Andes.

People continued to migrate to Patagonia from Wales until 1914. Welsh had been the language of the schools, chapels and courts all this time and a number of Welsh newspapers were produced and Welsh money printed. However, the increase in non-Welsh-speaking immigrants into the area during the early and mid-twentieth century meant the decline of Welsh customs and traditions such as the eisteddfod. Younger generations gradually began to lose their command of the language. In recent years, however, the situation has changed for the better, with many young people once again taking an interest in the language. It is estimated that there are now approximately 5,000 Welsh speakers in Patagonia.

Can you now do the following?	Yes	No	If not, go to page
Ask if someone has ever done something			121
Say you have never done something			122
Describe a holiday you have had			124
Say what you used to do			123
Say what someone else used to do			123
Talk about your school days			126
Say 'yes' and 'no' in the imperfect tense			126

12

**ble cawsoch chi
eich geni?
where were you born?**

In this unit you will learn how to

- ask someone where they were born and brought up
- say where you were born and brought up and where someone else was born and brought up
- use the passive voice
- say the months of the year in Welsh
- give the year in Welsh

Deialog 1

Tom, Jayne, Elen and Matthew are discussing where they were born.

Matthew Gawsoch chi eich geni yng Nghymru Elen?

Elen Do, Cymraes ydw i, ces i fy ngeni yng Nghymrych yn Sir Benfro. Dw i'n trïo cofio ble cawsoch chi eich geni. Rhywle yn y gorllewin os dw i'n cofio'n iawn.

Matthew Ces i fy ngeni yn Aberystwyth a ches i fy magu yno hefyd. Es i i Lundain i chwilio am waith bum mlynedd yn ôl.

Tom Gawsoch chi eich geni yn Ohio Jayne?

Jayne Naddo, ches i mo fy ngeni yn Ohio, ces i fy ngeni yn Missouri. Symudon ni i Ohio pan oeddwn i'n ddeg mlwydd oed pan gafodd fy mam swydd newydd.

Tom Gafodd Haf ei geni yn Ohio?

Jayne Naddo. Cafodd hi ei geni pan oeddwn i'n byw yn Efrog Newydd. Penderfynais i symud yn ôl i Ohio i fod yn agosach at fy rhieni; dyw hi ddim yn hawdd magu plant ar eich pen eich hunan.

Tom Ces i fy ngeni a fy magu yn Abertawe a dw i erioed wedi gadael yr ardal.

Elen Dych chi'n gall iawn Tom, mae symud tŷ yn boen.

- 1 Was Elen born in Wales?
- 2 When did Matthew move to London?
- 3 Why did Jayne decide to move back to Ohio?

geni (gan-)	<i>to be born</i>
Cymraes (f.) -au	<i>Welsh woman</i>
magu (mag-)	<i>to be brought up</i>
rhywle	<i>somewhere</i>
call	<i>sensible</i>

Points to notice

When something is done to something or someone, Welsh uses the verb **cael** where English uses the verb 'to be', or 'to get' in some dialects:

Mae fy lawnt yn cael ei thorri bob dydd Sul.

*My lawn is cut (gets cut)
every Sunday (lit. 'my
lawn has its cutting')*

Roedden nhw'n cael eu talu bob mis.

*They were paid every month
(lit. 'they got their
paying every month')*

Ble cawsoch chi eich geni? *Where were you born?*
(lit. 'where did you
have your birth?')

As you can see from these examples, **cael** is followed by forms of the possessive pronoun. Sentences such as these, where the subject receives the action of the verb, but does not actually do the action itself (**ces i fy ngeni**, *I was born*, i.e. I was not giving birth myself), are said to be in the **passive voice**. Compare the following two sentences:

Lladdodd y ci y gath. *The dog killed the cat.*
(active – the subject of the sentence [**y ci**] is doing the killing)

Cafodd y ci ei ladd. *The dog was killed.*
(passive – the subject of the sentence [**y ci**] is being killed, and not doing the killing)

1 Asking where someone was born or brought up

Ble cest ti dy eni?	<i>Where were you born?</i>
Ble cafodd e ei eni?	<i>Where was he born?</i>
Ble cafodd hi ei magu?	<i>Where was she brought up?</i>
Ble cawsoch chi eich geni?	<i>Where were you born?</i>
Ble cawson nhw eu magu?	<i>Where were they brought up?</i>
Ces i fy ngeni yng Nghaerfyrddin.	<i>I was born in Carmarthen.</i>
Cafodd e ei eni yn Sir Benfro.	<i>He was born in Pembrokeshire.</i>
Cafodd hi ei magu yng Ngwynedd.	<i>She was brought up in Gwynedd.</i>
Cawson ni ein geni yn Sir y Fflint.	<i>We were born in Flintshire.</i>
Cawson nhw eu magu ym Mhowys.	<i>They were brought up in Powys.</i>

Exercise 1

Listen to the recording and then answer the questions.

- 1 Where was Rhiannon born?
- 2 Where was Rhiannon brought up?
- 3 Where were her children born?
- 4 What language does she speak at home?

Exercise 2

Say where the people listed were born. One of the sentences has been done for you.

Nhw – Bangor: Cawson nhw eu geni ym Mangor.

- 1 Ti – Caergybi
- 2 Y plant – Tyddewi
- 3 Hi – Pontypridd
- 4 Chi – Castell-nedd
- 5 Nhw – Bangor
- 6 Fi – Dolgellau
- 7 Steffan ac Eleri – Talybont
- 8 Fe – Gorseinon
- 9 Ni – Penfro
- 10 Megan – Glynebwy

Points to notice

ar eich pen eich hunan, on your own. Note the forms of this idiom, on one's own:

ar fy mhen fy hunan	on my own
ar dy ben dy hunan	on your own (fam.)
ar ei ben ei hunan	on his own
ar ei phen ei hunan	on her own
ar ein pen ein hunain	on our own
ar eich pen eich hunan/hunain	on your own
ar eu pen eu hunain	on their own

Deialog 2

Elen has just found out a piece of interesting information.

- Elen** Dwedodd y frân wen wrtha i gynnu fach eich bod chi'n dathlu eich pen-blwydd ym mis Awst Tom.
- Tom** Mae hynny'n wir, ond pwy ddwedodd wrthoch chi?
- Elen** Dw i byth yn datgelu cyfrinachau Tom.
- Jayne** Pryd yn union mae'ch pen-blwydd Tom?
- Matthew** Roeddwn i'n meddwl bod Tom wedi derbyn llawer o bost y bore 'ma. Mae rhaid bod eich pen-blwydd rhywbryd yr wythnos 'ma.
- Tom** Dych chi'n iawn Matthew, ond dw i ddim yn mynd i ddweud pryd.
- Elen** Wel, dw i ddim yn mynd i ddweud rhagor ond peidiwch â synnu os gwelwch chi fi'n tynnu gwallt Tom yfory.

Matthew Yfory! Dyw hi ddim yn rhoi llawer o amser i ni drefnu parti.

Tom Roeddwn i'n meddwl nad oeddech chi byth yn datgelu cyfrinachau Elen!

- 1 How does Elen say 'a little bird told me'?
- 2 What question does Tom ask Elen?
- 3 What did Tom receive this morning according to Matthew?

y frân wen	the white crow (a little bird)
gynnu fach	just now
dathlu (dathl-)	to celebrate
pen-blwydd (m.) -i	birthday
byth	never
datgelu (datgel-)	to reveal
cyfrinach (f.) -au	secret
yn union	exactly
synnu (synn-)	to be surprised
tynnu (tynn-)	to pull
rhoi (rhodd-)	to give, to put

Points to notice

Dw i byth yn datgelu cyfrinachau I never reveal secrets

You have already seen the word **erloed** which means *ever/never* when used with the past tense and **wedi** in Unit 11. **Byth** means *ever/never* when used with all the other tenses. You will see the future tense in Units 14 and 15 and the conditional tense in Unit 18. Here is a list of some examples of **byth** with the present and imperfect tense:

Dw i byth yn gwisgo het.	<i>I never wear a hat.</i>
Dyw ei gwaith byth yn undonog.	<i>Her work is never monotonous.</i>
(Clywed)	Wyt ti wedi clywed amdano fe?	<i>Have you heard about him?</i>
(Breuddwyddio)	Bues i'n breuddwydio amdani hi neithiwr.	<i>I was dreaming about her last night.</i>
(Anghofio)	Roedd e wedi anghofio popeth amdanat ti.	<i>He had forgotten everything about you.</i>

With other verbs **am** usually corresponds to 'for':

(Chwilio)	Chwilian nhw amdano fe yfory.	<i>They will look for him tomorrow.</i>
(Aros)	Roedd rhaid i fi aros am wythnos amdanyn nhw.	<i>I had to wait for a week for them.</i>
(Galw)	Cewch chi alw amdani hi.	<i>You may call for her.</i>
(Gofalu)	Mae e wedi bod yn gofalu amdani hi.	<i>He has been looking after her.</i>

Exercise 1

Fill in the blanks using the correct form of **am**.

Bydd rhaid i fi feddwl _____ fe.
Clywais i ei fod wedi bod yn siarad _____ i.
Daeth e i'r swyddfa i holi _____ chi.
Dyna'r fenyw a oedd yn gofalu _____ ni pan oedden
ni'n fach.
Dw i'n siŵr y bydda i'n breuddwydio _____ nhw yn
fy nghwsg.
Bydd e wedi anghofio _____ ti erbyn hyn.
Dwedodd e y bydd e'n aros _____ ni wrth y
sgwâr.

! Ysgrifenna i atoch chi yn fuan I'll write to you soon

At is another preposition which follows the same pattern as **ar** and **am**:

ata i	aton ni
atat ti	atoch chi
ato fe	atyn nhw
ati hi	

It is generally used in the sense of 'to/towards' as with the following verbs:

(Ysgrifennu)	Ysgrifenna i atoch chi cyn hir.	<i>I'll write to you before long.</i>
(Mynd)	Bydd yr arian yn mynd at y capel.	<i>The money will go towards the chapel.</i>
(Edrych ymlaen)	Mae'r plant yn edrych ymlaen at y parti.	<i>The children are looking forward to the party.</i>
(Synnu)	Mae pawb yn synnu aton ni.	<i>Everyone is surprised at us.</i>
(Dal)	Daliwch ati!	<i>Keep at it!</i>
(Apelio)	Dyw hynny ddim yn apelio ata i.	<i>That doesn't appeal to me.</i>

Remember that in Deialog 1 Elen asks for information to be sent to her. Note that to send to a person is **anfon at**, but that **anfon i** is used when sending to a place:

Anfonwch y manylion ata i yfory. *Send me the details tomorrow.*
 Anfonodd e'r llythyr i'r adeilad anghywir. *He sent the letter to the wrong building.*

anghywir wrong, incorrect

Exercise 2

You work in a small local library. Your line manager (**rheolwr**) is checking up on you at the end of a busy day. Can you say your part of the conversation in Welsh?

Rheolwr Dych chi wedi ysgrifennu at bawb ar y rhestr?
Chi Yes, I have written to all of them.
Rheolwr Da iawn. Dych chi wedi anfon copi i'r Llyfrgell yng Nghaerfyrddin?
Chi Yes, and I've sent the letter to Mrs Roberts.
Rheolwr Mae ami hi lawer o arian i'r Llyfrgell.
Chi I know. She's worried about it.
Rheolwr Wel siaradwn ni'n fwy am y sefyllfa yfory. Nos da nawr.
Chi Her other letters are in the cupboard. I'll look for them tomorrow.

rhestr (f.) -l list
sefyllfa (f.) -oedd situation

3 Dw i'n ymddiried ynndot ti / trust you

A limited number of verbs are followed by **yn** (in) which also declines:

ynddo i (in me)	ynddon ni
ynndot ti	ynndoch chi
ynddo fe	ynddyn nhw
ynddi hi	

(Ymddiried) Dw i'n ymddiried ynndoch chi. *I trust you.*
 (Cydio) Cydiodd e yn y bag. *He took hold of the bag.*
 (Credu) Roedd hi'n anodd credu ynndyn nhw. *It was difficult to believe in them.*
 (Gafael) Gafaelais i ynndi hi. *I grasped it.*

4 Dw i wedi dweud wrthot ti unwaith! / I've told you once!

As you saw in Unit 8, the verb-noun **dweud** is followed by the preposition **wrth** and means to tell to. Other verbs which are followed by **wrth** include:

(Glynu) Mae e'n glynu wrth ei stori. *He is sticking to his story.*
 (Cyfaddef) Bydd rhaid iddi hi gyfaddef wrthon ni. *She will have to admit to us.*
 (Clymu) Clymon ni'r ceffylau wrthyn nhw. *We tied the horses to them.*

5 Dych chi ddim yn gallu ein stopio ni rhag mynd / You can't stop us from going

Rhag is a less commonly used preposition which also declines:

rhagddo i	rhagddon ni
rhagddot ti	rhagddoch chi
rhagddo fe	rhagddyn nhw
rhagddi hi	

It means 'from' when following verbs such as:

(Stopio) Dych chi ddim yn gallu ei stopio e rhag mynd. *You can't stop him from going.*
 (Achub) Cawson nhw eu hachub rhag y tân. *They were saved from the fire.*
 (Rhybuddio) Mae rhaid i ti ei rhybuddio hi rhagddyn nhw. *You must warn her about them.*
 (Amddiffyn) Mae rhaid amddiffyn y tŷ rhag y dŵr. *The house must be protected from the water.*

Exercise 3

Rewrite the following sentences using the correct form of the preposition as shown in the example.

Chwiliais i *am* y llyfr. Chwiliais i *amdan*o fe.

- 1 Cydiodd e *yn* y bachgen.
- 2 Roedd e wedi ein rhybuddio ni *rhag* y plant.
- 3 Dw i'n edrych ymlaen *at* y cyngerdd.
- 4 Mae'n anodd credu *yn* y stori.
- 5 Ydy e wedi apelio *at* yr heddlu?
- 6 Mae wedi cyfaddef *wrth* yr athrawon.
- 7 Gafaelodd *yn* y ferch a'i thaflu i'r llawr.
- 8 Roedd e'n breuddwydio *am* y prawf.

6 Dw i byth eisiau siarad â ti eto!

I don't want to speak to you ever again!

You have already met the preposition *â* on several occasions. Remember that it *never* declines. Other verbs that it follows include:

- | | | |
|--------------|---------------------------------------|---|
| (Ymladd â) | Buodd Gareth yn ymladd â fe eto ddoe. | Gareth fought with him again yesterday. |
| (Cyffwrdd â) | Doeddwn i ddim eisiau cyffwrdd â nhw. | I didn't want to touch them. |
| (Cymysgu â) | Maen nhw'n poeni am gymysgu â ni. | They are worried about mixing with us. |

Deialog 2

Having received the brochures Elen discusses the Gardens with her class.

- Elen** Wel, beth dych chi'n feddwl o'r gerddi ar ôl darllen y pamffledi? Mae'n hen bryd i ni gael trip arall dw i'n credul!
- Jayne** Dof i gyda chi, mae'n edrych yn ddiddorol.
- Matthew** Dof i hefyd. Gawn ni fynd y penwythnos 'ma?
- Elen** Wel, mae rhaid i mi fynd i Gaerdydd eto dros y Sul, felly awn ni yr wythnos nesaf os yw pawb yn cytuno. Dych chi eisiau dod Tom?
- Tom** Bues i yno llynedd gyda Chymdeithas Edward Llwyd, cyn iddyn nhw agor y lle yn lawn. Roedden nhw'n trefnu teithiau cerdded o gwmpas y safle i ddangos y datblygiadau diweddaraf. Hoffwn i weld beth sy wedi cael ei wneud yno yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Elen

Beth am fynd ddydd Mawrth nesaf 'te? Awn ni ar ôl i chi orffen yn y labordy iaith a down ni yn ôl erbyn amser swper. Ffonia i'r gerddi cyn cinio yfory.

- 1 What does Jayne think of the Gardens?
- 2 When does Matthew want to go?
- 3 Why is Tom particularly keen to see the Gardens?

hen bryd i	high time for
cytuno (cytun-)	to agree
cyn iddyn nhw	before they
safle (m.) -oedd	site
datblygiad (m.) -au	development
diweddaraf	latest
ar ôl i chi	after you
labordy iaith (f.) labordai iaith	language laboratory

Points to notice

A number of expressions of time are included in Deialog 2, many of which you will already be familiar with. Do take particular note of the following:

Past	Present	Future
ddoe	heddiw	yfory
bore ddoe	y bore 'ma	bore yfory
nalhiwr	heno	nos yfory
yr wythnos diwethaf	yr wythnos 'ma	yr wythnos nesaf
llynedd	eleni	y flwyddyn nesaf

Exercise 4

Listen to the recording. Elen is going over a list of things she should have done during the last week. Certain things have not got done and she plans the following week with these in mind.

- 1 Did Elen go to see the doctor last week?
- 2 Did Elen return her library books?
- 3 Who is she intending to write to and when?
- 4 When is she going to phone the bus company?

Exercise 5

Read through or listen to Deialog 2 again and then answer the following questions in full sentences according to the example.
 Fydd Elen yn Llambod dros y Sul? Na fydd, bydd hi yng Nghaerdydd dros y Sul.

- 1 An nhw i'r gerddi ddydd Mercher?
- 2 Fuodd Tom yn y gerddi yr wythnos diwethaf?
- 3 An nhw yn syth ar ôl brecwast?
- 4 Gân nhw swper ar y ffordd yn ôl i'r coleg?
- 5 Fydd Elen yn ffonio'r gerddi brynhawn yfory?

Deialog 3

The group arrive in the Gardens and are met by Geraint.

Geraint Prynhawn da, Geraint ydw i, dw i'n mynd i fynd â chi o gwmpas y gerddi.

Elen O, prynhawn da, roeddwn i'n disgwyl cwrdd â Leslie.

Geraint Mae'r fflw arno fe ar hyn o bryd mae arna i ofn, felly dw i yma yn ei le e.

Elen Iawn, i ble awn ni gyntaf 'te?

Geraint Awn ni i'r tŷ gwydr. Mae llawer o bobl o gwmpas heddiw, felly peidiwch â chrwydro i ffordd os gwelwch yn dda.

Elen Na wnawn. Ar eich ôl chi felly...

(They arrive at the greenhouse.)

Geraint Dyma ni. Cafodd y tŷ gwydr hardd yma ei gynllunio gan Syr Norman Foster. O'n cwmpas ni mae planhigion o bob cornel o'r byd. Mae'r arddangosfa o'ch blaen chi yn disgrifio rôl y gwahanol blanhigion yn edrych ar ôl ein planed.

Matthew Beth rwyf i'n feddwl o'r lle nawr Tom?

Tom Dw i'n falch bod Elen wedi trefnu'r daith yma ar ein cyfer ni. Maen nhw wedi gwneud llawer iawn o waith yma ers llynedd. Rhaid i fi ddweud wrth Glenys. Down ni yma eto cyn hir. Bydd hi wrth ei bodd.

- 1 Why is Leslie unable to meet them?
- 2 Is it a busy day at the Gardens?
- 3 What does the exhibition discuss?
- 4 Does Tom think his wife would enjoy a visit to the Gardens?

disgwyl (disgwyl-)	to expect
crwydro (crwydr-)	to wander
wrth ei bodd	in her element, delighted

Points to notice

In all three dialogues in this unit you will have come across the compound preposition **o gwmpas**. A compound preposition is one that consists of two elements. As you have seen in earlier units in this course, **o** causes a soft mutation and therefore **cwmpas** becomes **gwmpas**.

Gaf i eistedd ar eich pwys chi?

May I sit beside you?

Compound prepositions are declined by placing personal pronouns in front of the second element:

ar bwys near, beside

ar fy mhwyys i	beside me,	ar ein pwys ni	beside us,
	near me		near us
ar dy bwys di	beside you,	ar eich pwys chi	beside you,
	near you		near you
ar ei bwys e	beside him,	ar eu pwys nhw	beside them,
	near him		near them
ar ei phwys hi	beside her, near her		

Gaf i eistedd ar ei phwys hi?	May I sit beside her?
Dewch i eistedd ar fy mhwyys i.	Come and sit beside me.

8 Mae'r lle wedi cael ei gadw ar dy gyfer di

The place has been kept for you

Ar gyfer (for) can also mean 'in preparation for':

ar fy nghyfer i	for me	ar ein cyfer ni	for us
ar dy gyfer di	for you	ar eich cyfer chi	for you
ar ei gyfer e	for him	ar eu cyfer nhw	for them
ar ei chyfer hi	for her		

Mae'r parti ar ei chyfer hi.	The party is for her.
Bydd rhaid i fi brynu llawer o bethau ar gyfer y Nadolig.	I will have to buy lots of things for Christmas.

Exercise 6

Can you now say the following in Welsh?

- 1 No one came to sit beside her.
- 2 Will it be ready for them?

- 3 They were standing near us.
 4 He did everything for you. (fam.)
 5 When we arrived there was nothing for us.

9 Rhedon nhw ar eich ôl chi They ran after you

Ar ôl means after:

ar fy ôl i	after me	ar ein hôl ni	after us
ar dy ôl di	after you	ar eich ôl chi	after you
ar ei ôl e	after him	ar eu hôl nhw	after them
ar ei hôl hi	after her		

Ar dy ôl di. After you.
 Nage, ar eich ôl chi. No, after you.

10 Gwnes i fe er dy fwyn di I did it for you

Er mwyn means for or for the sake of:

er fy mwyn i	for my sake	er ein mwyn ni	for our sake
er dy fwyn di	for your sake	er eich mwyn chi	for your sake
er ei fwyn e	for his sake	er eu mwyn nhw	for their sake
er ei mwyn hi	for her sake		

Gwnes i fe er dy fwyn di. I did it for you. (fam.)
 Gwnaeth e bopeth er mwyn y plant. He did everything for the sake of the children.

Exercise 7

Answer according to the example given. Ydy e'n eistedd ar bwys y plant? (✓) Ydy mae e'n eistedd ar eu pwys nhw.

- Brynaist ti ddillad newydd ar gyfer y briodas? (X)
- Oedd e wedi cyrraedd o flaen y lleill? (✓)
- Wnaeth e bopeth er mwyn ei fam? (✓)
- Ydy e'n byw ar bwys Janet? (X)
- Fydd lle ar eich cyfer chi? (X)
- Oedd Meri yn rhedeg ar ôl y ci? (✓)

11 Mae e'n syth o'ch blaen chi It is straight in front of you

O flaen means in front, ahead:

o fy mlaen i	in front of me	o'n blaen ni	in front of us
o dy flaen di	in front of you	o'ch blaen chi	in front of you
o'i flaen e	in front of him	o'u blaen nhw	in front of them
o'i blaen hi	in front of her		

Wyt ti'n gwybod beth sydd Do you know what's ahead
 o dy flaen di? of you?
 Pwy sy'n eistedd o'i flaen e? Who is sitting in front of him?

12 Edrychwch ar bawb o'n cwmpas ni Look at everyone around us

o fy nghwmpas i	around me	o'n cwmpas ni	around us
o dy gwmpas di	around you	o'ch cwmpas chi	around you
o'i gwmpas e	around him	o'u cwmpas nhw	around them
o'i chwmpas hi	around her		

Cerddais i o'i gwmpas e. I walked around it.

13 Dw i'n teimlo bod pawb yn fy erbyn i I feel everyone is against me

yn fy erbyn i	against me	yn ein herbyn ni	against us
yn dy erbyn di	against you	yn eich erbyn chi	against you
yn ei erbyn e	against him	yn eu herbyn nhw	against them
yn ei herbyn hi	against her		

Mae e'n cystadlu yn ei He's competing against her.
 herbyn hi.
 Roedd pawb yn eu Everyone was against them.
 herbyn nhw.

14 Af i yn dy le di I'll go instead of you

Yn lle is the preposition used to mean in place of, instead of:

yn fy lle i	in my place, instead of me	yn ein lle ni	in our place, instead of us
yn dy le di	in your place, instead of you	yn eich lle chi	in your place, instead of you

yn ei le e *in his place,* yn eu lle nhw *in your place,*
 instead of him *instead of them*
 yn ei lle hi *in her place,*
 instead of her

Ddaw neb yn ei le e. *Nobody will come in his place.*
 Daeth hi i ddysgu yn fy lle i. *She came to teach in my place.*
 Hoffwn i ddim bod yn *I wouldn't like to be in your*
 dy le di. *place. (in your shoes)*

Exercise 8

Sara has won a great deal of money on the lottery and describes to her friend Pat how she has spent some of her winnings.

Dw i wedi prynu tŷ mawr yn y wlad. Mae'r tŷ yn agos i lyn mawr ac mae digon o gaeau gwyrdd o'i gwmpas e i fy ngheffylau. Dw i wedi prynu car newydd yn lle fy Fiat bach. Dw i ddim yn gwybod beth sydd o fy mlaen i, felly dw i'n mynd i wario fy arian nawr.

Pat tells her partner Jeff all about Sara.

Her new house is by a big lake. She has horses and there are enough fields around the house for them. She has sold her car and has bought a Porsche in its place. She says she doesn't know what's ahead of her, so she is going to spend her money now.

Can you say what she tells him in Welsh?

Exercise 9

Listen to Gaenor asking her friend Clare about her plans for the summer. After listening to the recording, answer the following questions.

- 1 For how long will Clare be going?
- 2 When will she go?
- 3 Why has she decided to go at that time?
- 4 To where will she go?
- 5 What will she do on her holidays?
- 6 Is she looking forward to her holidays?
- 7 With whom will she go?
- 8 How does Gaenor describe the city where Clare will stay?

The National Botanic Garden of Wales

The National Botanic Garden of Wales opened in 2000. It is based in Llanarthne in Southern Carmarthenshire. The main feature of the Garden is the domed Great Glasshouse which is the largest single-span glasshouse in Europe and contains a complete representation of the spectacular floras of the world. Linked to the glasshouse is the Bioverse, a hands-on interactive exhibition, designed to promote an understanding of plantlife and an appreciation of the importance of plants to the world. Other special features of the Garden include a Genetic Garden which aims to raise public understanding of this controversial field. Another garden contains the herbs that were grown and used by the Physicians of Myddfai (see Unit 10) and an exhibition looks at their work within a worldwide context of traditional healing.

Can you now do the following?	Yes	No	If not, go to page
Use am and at with various verbs			166, 167
Use the prepositions yn , wrth , rhag , â			168, 169, 170
Say something happened, or will happen, at a particular time			165, 171
Ask if you may sit beside someone			173
Use ar gyfer , ar ôl , er mwyn , o flaen , yn lle and o gwmpas in a sentence			173, 174, 175
Say that you feel that everyone is against you			175
Say that you wouldn't like to be in his place			175

Now turn to page 243 and try progress test 3.

16

yn y bwyty in the restaurant

In this unit you will learn how to

- ask for things in a restaurant
- give your opinion on the food you have eaten
- talk in Welsh on the phone

Deialog 1

Elen, Jayne, Tom and Matthew decide to go for a meal in a local restaurant to celebrate the fact that Elen and her family have finally settled into their temporary home.

- Elen Mae'n braf dod allan ac anghofio'r holl bethau sy 'da fi i'w gwneud yn y fflat newydd yng Nghaerdydd. Mae bocsys dros y lle i gyd a bydd rhaid i ni bacio popeth eto os cawn ni hyd i le yn y dyfodol agos. Mae'n neis iawn 'ma.
- Matthew Ydy. Mae'r awyrgylch yn gyfeillgar iawn. Gobeithio y bydd y bwyd yn dda.
- Jayne Beth am gael rhywbeth i'w yfed cyn edrych ar y fwydlen. Tala i am y rhain. Beth gymerwch chi?
- Elen Glasaid o sudd pînafal i fi, os gwelwch yn dda.
- Tom Beth am rywbeth cryfach, dych chi'n dathlu heno cofiwch. Mae'n well i fi gael sudd o ryw fath, mae'r car 'da fi.
- Elen Maen nhw'n gwerthu cwrw di-alcohol 'ma.
- Tom Ych a fi, mae'n gas 'da fi'r stwff 'na. Dw i'n credu y caf i lasaid o sudd grawnffrwyth. Mae sudd pînafal yn rhy felys i fi.
- Elen Iawn, hanner seidr i fi 'te os gwelwch yn dda.
- Jayne Beth am bawb arall? Dw i'n credu y caf i lasaid o win coch.
- Matthew Peint o chwerw, os gwelwch yn dda. Gobeithio bydd corgimychiaid 'da nhw. Dw i'n hoff iawn o fwyd y môr.

Why is Elen glad to be out?

Who is going to pay for the drinks?

Why is Tom drinking juice?

pacio (paci-)	<i>to pack</i>
dyfodol	<i>future</i>
awyrgylch (m.) -oedd	<i>atmosphere</i>
bwydlen (f.) -ni	<i>menu</i>
pînafal (m.) -au	<i>pineapple</i>
o ryw fath	<i>of some sort</i>
di-alcohol	<i>non-alcoholic</i>
grawnffrwyth (m.) -au	<i>grapefruit</i>
melys	<i>sweet</i>
corgimwch (m.) corgimychiaid	<i>prawn</i>

Points to notice

glasaid o win coch. When **-aid** is added on to a noun, it renders the meaning 'full of': **plataid o sglodion**, a *plateful of chips*, **llwyaidd o siwgr**, a *spoonful of sugar*, **potelaidd o laeth**, a *bottle of milk*, etc.

Exercise 1

Listen to the recording. Someone is placing an order at the bar. Which of these drinks listed do they order?

hanner pint o lager
pint o chwerw
pint o lager di-alcohol
wisgi mawr
brandi
pint o seidr sych
gwin gwyn
gwin coch
glasaid o sieri

Exercise 2

Bwydlen

Tafarn Cefn Hafod, Gorsgoch
01570 434480 neu 434238

SAIG GYNTAF

MADARCH MEWN GARLLEG:

Madarch ffres mewn saws garleg a hufen gyda bara ffres

COCTÊL CORGIMWCH:

Corgimwch mewn 'mayonnaise' gyda salad a bara ffres

COCTÊL MELON A GRAWNWIN:

Peli o felon a hancesi o rawnwin wedi eu gorchuddio â gwin sinsir
CAWL:

Cawl traddodiadol Cymreig wedi ei weini â chaws a bara ffres
CEBAB BWYD Y MÔR:

Cebab pysgodyn gwyn a chorgimwch wedi ei weini â bara ffres a salad

SUDD FFRWYTHAU:

Sudd o'ch dewis - oren, pinafal, tomato neu rawnffrwyth

MAYONNAISE WY:

Wy wedi ei ferwi a'i weini gyda salad a bara ffres

PORC BARBECIW:

Asennau o borc wedi eu gweini ar salad gyda bara ffres

Look at the starter menu of the restaurant in which Elen and her friends are eating. After reading through the menu, answer the questions that follow. You don't have to understand everything.

- Which would you not choose if you wanted to avoid alcohol?
- Which item would you choose if you wanted a traditional Welsh dish?
- What choice would you have if you wanted seafood?
- Which phrase corresponds to 'a juice of your choice'?

Deialog 2

The friends look at the menu and try to decide what to order.

- Jayne** Gawn ni weld y fwydlen, os gwelwch yn dda? Diolch.
Elen Dw i wedi penderfynu beth dw i ei eisiau am fy saig gyntaf, y madarch mewn garleg. Dw i'n dwlu ar fadarch, yn enwedig rhai ffres.
Matthew Dw i'n mynd i fod yn draddodiadol am unwaith a dewis y cawl. Bwyd Cymreig.
Tom Dw i ddim eisiau dim byd mawr fel saig gyntaf, dw i ddim eisiau bod yn rhy lawn i fwyta'r brif saig ond dw i wedi cael sudd unwaith felly dw i'n credu caf i'r wy.
Jayne Rhywbeth ysgafn dw i ei eisiau hefyd, y melon a grawnwin i fi.
Tom Pa fath o win gawn ni? P'un sy'n well 'da pawb, gwin gwin neu win coch?
Elen Mae'n well 'da fi win gwyn.
Tom Gwin gwyn amdani 'te. Gawn ni weld y rhestr win, os gwelwch yn dda?

- 1 Why does Tom decide on an egg for his starter?
- 2 What does Jayne decide to order?
- 3 What type of wine do they choose in the end?

saig (f.) seigiau	course (of a meal)
madarchen (f.) madarch	mushroom
garleg (m.)	garlic
traddodiadol	traditional
cawl (m.)	soup

Points to notice

Cymreig is an adjective used to describe things pertaining to Wales whereas **Cymraeg** is used to describe objects in the Welsh language:

llyfr Cymraeg
caws Cymreig

a book in Welsh
cheese made in Wales

Exercise 3

You are in a restaurant with your friend Siôn. You are discussing what to eat for your starter. Fill in your side of the dialogue.

- Siôn** Mae'n well i ni gael rhywbeth ysgafn i ddechrau, mae llawer o ddewis 'da nhw.
Chi Say, you think you'll have the orange juice.
Siôn Mae digon o sudd oren 'da ti yn yr oergell gartref, dylet ti ddewis rhywbeth na fyddet ti'n ei fwyta gartref. Dw i'n credu y caf i'r madarch mewn garleg.
Chi Tell him you'll have the melon and grapefruit cocktail.
Gweinydd Dych chi'n barod i archebu'r bwyd?
Chi Say, yes, we are and may we have... and then give the order, beginning with Siôn's order. Ask for two glasses of water and ask to see the wine menu please.

oergell (f.) -oedd fridge

Deialog 3

The friends are chatting over their starter. Tom is worried that Matthew is taking his forthcoming interviews too lightly.

- Tom** Ond mae rhaid dy fod di wedi gwneud rhyw fath o baratoi Matthew. Elli di ddim cerdded i mewn i gyfweiliad heb feddwl am beth rwyf ti eisiau ei ddweud ymlaen llaw.
Matthew Does dim llawer y galla i ei wneud. Dw i wedi astudio manylion y swyddi'n ofalus iawn.
Jayne Ond mae rhaid i ti wneud mwy na hynny. Mae iaith y corff yn bwysig iawn mewn cyfweiliad. Sut rwyf ti'n eistedd a beth rwyf ti'n ei wneud gyda dy ddwylo.
Elen Dw i'n gwybod am lyfr da iawn, does dim copi 'da fi a dw i ddim yn cofio'r teitl chwaith, ond Michael Bird yw'r awdur.
Tom How to Survive an Interview yw'r teitl. Mae'n llyfr da iawn, cer i'r siop lyfrau y peth cyntaf bore yfory. Sut mae'r madarch Elen? Maen nhw'n edrych yn flasus iawn.
Elen Maen nhw'n flasus dros ben a dyw'r garleg ddim yn rhy gryf chwaith.

- 1 What has Matthew studied carefully?
- 2 Has Elen got the book Matthew needs?
- 3 What does Elen say about her mushrooms?

paratoi (parato-) to prepare
 ymlaen llaw beforehand
 dros ben extremely

Exercise 4

Matthew has made a list of everything he wants to do before the interview. Match the verbs to the items on the list and then write sentences as if Matthew were telling Tom what he is going to do. The first one has been done for you. **tocyn trêrn** → **prynu**. Prynw tocyn trêrn.

fy esgidiau	golchi
siwt	cyrraedd
crys	paratoi
y manylion eto	glanhau
yn gynnar	prynu
atebion	edrych ar
fy ngwallt	prynu
tocyn trêrn	golchi

Exercise 5

Have a look at the menu for the main course on the next page. After reading through the menu, answer the question that follows. You don't have to understand everything.

Which Welsh phrases correspond to the following words and phrases?

- | | |
|--------------------------------|------------------|
| 1 cooked | 2 smoked salmon |
| 3 filled with garlic sauce | 4 grilled tomato |
| 5 and covered with breadcrumbs | 6 soaked in mint |

Deialog 4

Having enjoyed their starter, the group discuss what they will have for their main course.

- Gweinydd** Dych chi'n barod i archebu?
Tom Dw i'n credu ein bod ni.
Elen Wel dw i'n gwybod beth dw i'n mynd i'w gael – eog y tarth, dw i'n hoff o unrhywfath o bysgod. Pa lysiau sy'n dod gyda'r eog?
Gweinydd Moron, brocoli, blodfresych, pys a thatws rhos a thatws wedi'u berwi.

Y BRIF SAIG

PRYDAU WEDI EU GRIDYLLU

STÊC FFOLEN 10 owns:

gyda madarch ffres, cylchoedd winwnsyn a thomatos wedi eu gridyllu

GAMWN 10 owns:

gyda madarch ffres, cylchoedd winwnsyn, wy wedi ei ffrio, pinafal a thomatos wedi'u gridyllu

2 OLWYTHEN CIG EIDION:

gyda madarch ffres, cylchoedd winwnsyn, tomato wedi ei gridyllu a saws mintys

GLODDEST YR HAFOD:

Cyfuniad o gamon, stêc syrllwyn, golwythen cig mochyn, selsig, wy wedi ei ffrio, madarch, tomato a chylchoedd winwnsyn wedi eu ffrio

GOLWYTH CIG OEN MINTYS:

2 olwythen wedi eu mwyo mewn mintys gyda madarch, cylchoedd winwnsyn a thomato wedi ei gridyllu

PRYDAU CYW IÂR

CYRRI CYW IÂR:

Darnau o gyw iâr wedi eu coginio mewn saws cyrri cartref gyda reis neu ddewis o datws

'KIEV' CYW IÂR:

Brest cyw iâr wedi ei lanw â saws garlleg a'i orchuddio â briwsion bara

'CHASSEUR' CYW IÂR:

Darnau o gyw iâr wedi eu coginio mewn saws madarch, tomato, winwns a gwin gwyn

PRYDAU PYSGOD

LLEDEN:

wedi ei gridyllu a'i gorchuddio â briwsion bara

FFILED O HADOG:

wedi ei ridyllu a'i orchuddio â briwsion bara a phupur

EOG Y TARTH:

eog wedi ei gochi

PENFRAS:

wedi ei ridyllu a'i orchuddio â briwsion bara

SGAMPI:

wedi eu ffrio a'u gorchuddio â briwsion bara

Gweinir y prydau pysgod gyda saws tartar a lemwn

PASTAI GIG EIDION AC AREN:

Darnau o gig eidion ac aren mewn grefi wedi eu gorchuddio â 'puff pastry'

LASAGNE:

Cig eidion briw rhwng haenau o basta a saws caws

Matthew

Mae'n anodd penderfynu, mae cymaint o ddewis. Hoffwn i gael pryd wedi ei ridyllu ond dw i ddim yn siŵr p'un ohonyn nhw.

Gweinydd

Mae stêc syrllwyn gyda ni hefyd, ac mae brest o gyw iâr rhost.

Matthew

Mae Gloddest yr Hafod yn swno'n hyfryd – paradwys ar blât. Dw i ddim wedi cael cig moch ers tro.

Elen

Sut gallwch chi feddwl am fwyta yr holl fwyd 'na ar ôl y powlennaid enfawr o gawl dych chi newydd ei fwyta?

Matthew

Dw i'n hoffi fy mwyd Elen, ond dw i ddim mor hoff o winwns. Alla i gael y gloddest heb yr winwns?

Gweinydd

Wrth gwrs. Os dych chi'n hoffi cig mochyn, mae'n bosib gael dwy olwythen a saws afal, madarch a thomato.

Matthew

Dych chi'n fy nhemtio nawr, dw i'n credu y caf i'r golwyth yn lle y gloddest.

1 How does the waiter ask if they are ready to order?

2 Why is Matthew unable to decide what to order at first?

3 Which bit of his meal does Matthew not want and why?

gweinydd (m.) -ion	<i>waiter</i>
eog (m.) -iaid	<i>salmon</i>
moronen (f.) moron	<i>carrots</i>
gridyllu (gridyll-)	<i>to grill</i>
gloddest (m.) -au	<i>feast</i>
paradwys (f.) -au	<i>paradise</i>
cig mochyn (m.) cigoedd mochyn	<i>ham</i>
golwythen (f.) golwythion	<i>chop</i>
yn lle	<i>instead of</i>

Deialog 5

The waiter turns to Jayne and Tom. Jayne has made up her mind but Tom needs to look at another menu before deciding what he will order.

Jayne

Ydy'r cig oen yn dod o Gymru?

Gweinydd

Ydy, mae'n cig ni i gyd yn gynnyrch Cymreig.

Jayne

Wel gaf i'r cig oen 'te, dw i eisiau cefnogi'r ffermwyr. Alla i gael y pryd heb y tatws rhost?

Gweinydd

Gallwch.

Tom

Dw i ddim yn bwyta llawer o gig, oes prydau lllysieuol ar gael?

Gweinydd

Oes, mae'r rhestr ar y tudalen nesaf, uwchben y melysfwyd.

Tom Dw i'n gweld. Gaf i'r omlet os gwelwch yn dda.
 Gweinydd Beth hoffech chi yn yr omlet?
 Tom Caws a thomato, os gwelwch yn dda.

- 1 What doesn't Jayne want with her meal?
- 2 What does Tom order?
- 3 Does either Tom or Jayne order ham?

clig oen (m.)	lamb
cynnyrch (m.) cynhyrchion	produce
cefnogi (cefnog-)	to support
clig (m.) -oedd	meat
llysieuol	vegetarian
tudalen (m.) -nau	page
uwchben	above
melysfwyd (m.)	dessert

Exercise 6

Connect the correct replies from the right column to the question on the left.

Beth hoffech chi i'w yfed?	Does dim corgimychiaid ar ôl, hoffech chi fadarch yn eu lle?
Pa bwdinau sy 'da chi?	Moron a phanas os gwelwch yn dda.
Gaf i gorgimychiaid i ddechrau?	Pastai gig eidion ac aren dw i'n meddwl.
Beth hoffech chi am y brif saig?	Dof i â'r fwydlen i chi.
Pa lysiau hoffech chi?	Dim ond sudd, os gwelwch yn dda.

pastai (f.) pastelod	pie
cig eidion (m.)	beef
aren (f.) -nau	kidney
panasen (f.) panas	parsnip

MELYSFWYD

PAFLOFA:

Meringue wedi ei lantw â mafon a hufen iâ a'i orchuddio â hufen ffres

BLAS YR HAUL:

Cyfuniad o eirin gwlanog, hufen iâ blas mefus, saws mefus, cnau, hufen ffres a waffer

HUD YR HWYR:

Cyfuniad o geirios, hufen iâ blas mefus a siocled, saws mefus, cnau, hufen ffres, waffer a mints siocled

ENFYS YR HAFOD:

Cyfuniad o binafal, banana, 3 math o hufen iâ, saws mafon, cnau, hufen ffres a waffer

SALAD FFRWYTHAU FFRES:

Gyda hufen iâ neu hufen ffres

CACEN GAWS:

Mefus, mwyar neu fias lemwn

TARTEN YR HAFOD:

Afal, rhiwbob neu gwsberen

Exercise 7

The members of Elen's group chose different desserts. Decide what each member ate by reading the menu and the clues given in the passage.

Matthew didn't feel like ice cream and was quite full after his large starter and main course. He loves strawberries. Jayne felt like treating herself and her dessert was very colourful and had two different kinds of fruit in it. Elen's dessert consisted of both ice cream and fresh cream. It also had nuts. Elen hates cherries. Tom is allergic to nuts and his dessert had one scoop of vanilla ice cream and fresh cream.

mafonen (f.) mafon	raspberry
blas (m.) -au	taste, flavour
cyfuniad (m.) -au	combination
eirinen wlanog (f.) eirin gwlanog	peach
mefusen (f.) mefus	strawberry
cneuen (f.) cnau	nut
hud (m.)	magic
ceiriosen (f.) ceirios	cherry
enfys (f.) -au	rainbow
mwyaren (f.) mwyar	blackberry
tarten (f.) -nau	pie (sweet), tart

Deialog 6

While eating dessert, Elen gives her group an invitation and Matthew makes a promise.

- Jayne** Dw i ddim yn credu y bydda i'n bwyta eto am amser hir. Roedd y bwyd yn fendigedig, roedd y cig oen yn dyner iawn. Bydd rhaid i fi nofio am hanner awr ychwanegol yfory ar ôl bwyta'r pwdin 'na. Sut roedd eich bwyd chi Elen?
- Elen** Yn flasus iawn, roedd yr eog yn ffres iawn ac wedi cael ei goginio'n dda iawn. Bydd rhaid i fi ddod â Rob a'r merched yma rywbryd.
- Tom** Mwynheals i'r bwyd yn fawr iawn, ond mae'n drueni nad oedd mwy o ddewis llysieuol. Wedi dweud hynny, roedd yr omlet yn flasus iawn.
- Elen** Beth am ddod draw i weld fy ffilat newydd cyn mynd i weld y ddrama nos yfory?
- Matthew** Syniad da.
- Tom** Wyt ti'n dod i weld y ddrama Matthew? Ro'n i'n meddwl y byddet ti'n paratoi ar gyfer y cyfweiliadau. Cofia am y llyfr.
- Matthew** Af i i'r siop y peth cyntaf bore yfory Tom, dw i'n addo. Ond alla i ddim symud modfedd nawr. Beth am i ni gael coffi cyn mynd? Yn ôl y fwydlen, dyn ni'n gallu cael coffi gwirod o'n dewis ein hunain.

- 1 Why does Jayne think she should swim for an extra half hour tomorrow?
- 2 What does Tom regret about the meal?
- 3 What does Matthew promise to do?

tyner	tender
ychwanegol	extra
trueni (m.)	pity
rywbryd	sometime
byddech chi	you would
modfedd (f.) -i	inch
yn ôl	according to
gwirod (m.) -ydd	spirit, liquor

Describing a meal

- Roedd y gacen gaws yn felys iawn.** *The cheesecake was very sweet.*
- Roedd y cyrri'n boeth a sbeisi iawn.** *The curry was very hot and spicy.*
- Doedd y pysgod ddim yn ffres.** *The fish was not fresh.*
- Roedd blas gwael arno fe.** *It had a nasty taste.*
- Roedd e wedi cael ei goginio gormod.** *It had been overcooked.*
- Roedd y llysiau'n feddal iawn.** *The vegetables were very soft.*
- Doedd dim llawer o flas ar y cig eidion.** *The beef did not have a lot of flavour.*

Exercise 8

Listen to the recording and answer the following questions. Megan and her friend Bleddyn are on their way to visit friends and decide to stop for a meal.

- What does Bleddyn suggest they do for lunch?
 What type of eating establishment do they choose in the end?
 Where is it?
 What do they drink with their meal?
 Do they both order the same thing?
 Who pays?
 How much is the bill?
 Will they go again?

Deialog 7

True to his word, Matthew visits a local bookshop to find a book to help him with his interview. Listen to the recording before answering the questions that follow.

- Siopwr** Gaf i'ch helpu chi?
- Matthew** Mae cyfweiliad 'da fi ddydd Llun a dw i'n chwilio am lyfr am sgiliau cyfweild.
- Siopwr** Oes llyfr arbennig 'da chi mewn golwg?
- Matthew** Oes, mae fy ffrindiau wedi awgrymu *How to Survive an Interview* gan Michael Bird. Oes copi 'da chi?
- Siopwr** Nac oes, yn anffodus. Hoffech chi i fi archebu copi o'r llyfr? Bydd e 'ma mewn dau ddiwrnod. Ffonia i chi pan gyrhaedd diff e; beth yw'ch rhif ffôn chi?

- Matthew** Does dim ffôn 'da fi. Dw i'n aros yn yr ardal dros dro.
Galwa i i mewn ddydd Mercher. Faint yw'r llyfr?
- Siopwr** Naw punt naw deg naw ceiniog.
- Matthew** lawn, tala i pan ddaw'r llyfr.

- 1 Who wrote the book?
- 2 How long will Matthew have to wait for the book?
- 3 What is Matthew's phone number?
- 4 When will Matthew pay?
- 5 How much change will Matthew get from £10.00?

sgil (f.) -iau	skill
cyfnewid	to interview
awgrymu (awgrym-)	to suggest
gan (SM)	by
dros dro	temporary, temporarily

2 Speaking on the phone

Asking for someone

- Hoffwn i siarad â Megan os gwelwch yn dda. *I would like to speak to Megan please.*
- Helo, John sy'n siarad, ydy Ian i mewn? *Hello, John speaking, is Ian in?*
- David sydd 'ma, gaf i siarad â Lisa? *David here, may I speak to Lisa?*
- Ydy Gethin ar gael? *Is Gethin available?*
- Allwch chi fy rhoi i drwyddo i Mr Davies? *Can you put me through to Mr Davies?*

Responding to a request to speak to someone

- Does neb i mewn ar hyn o bryd. *There is no one in at the moment.*
- Rhoa i chi drwyddo. *I'll put you through.*
- Daliwch y lein. *Hold the line.*
- Does dim ateb. *There is no answer.*
- Mae ei ffôn yn brysur. *His/her phone is engaged.*
- Gaf i gymryd neges? Mae hi ar y lein arall. *May I take a message? She is on the other line.*
- Wnewch chi ddweud hynny eto? *Will you say that again?*

Telling someone they have a caller

- Mae galwad i chi. *There is a call for you.*
Mae Mr Huws ar y lein. *Mr Huws is on the line.*

Exercise 9

Matthew phones the college where he will be going for an interview. He needs to explain that he won't be able to arrive before 10 o'clock. Fill in the receptionist's side of the conversation.

- Derbynnydd** Good afternoon, can I help you?
- Matthew** Matthew Williams sy'n siarad. Allwch chi fy rhoi i drwyddo i swyddfa Mr Evans os gwelwch yn dda?
- Derbynnydd** Hold the line for a minute, please. I'll put you through.
- Matthew** Diolch.
- Derbynnydd** His line is busy at the moment, do you want to wait?
- Matthew** Alla i ddim, dw i'n galw o foch ffôn.
- Derbynnydd** Do you want to leave him a message?
- Matthew** Dyna'r peth gorau.

Traditional Welsh foods

Cawl is one of a host of traditional Welsh dishes. Many use ingredients such as leeks, fish, ham, lamb, oatmeal and cheese. Several, such as pikelets, which are small thick pancakes, are cooked on a griddle or bakestone. Other specialities include **cawl Cennin** (leek soup) and **bara lawr** (laver bread), an edible seaweed which comes mainly from the Gower Peninsula. It is usually eaten hot mixed with oatmeal and bacon. **Pice ar y maen** (Welsh cakes) are small currant cakes cooked, like pikelets, on a bakestone or griddle. **Bara brith**, which literally means speckled bread, is a spicy currant loaf served with butter. **Lobscows**, a thick broth, is a traditional North Walian dish and is thought to be the reason why Liverpudlians are nicknamed 'Scousers'. **Teisen lap**, a moist sponge cake, was taken down the mines as part of a miner's lunch pack because it does not crumble easily.

There are many initiatives nowadays, such as **Blas ar Gymru** (Taste of Wales), which emphasize the quality of food produced in Wales and encourage eating establishments to include traditional recipes and dishes in their menus.

Can you now do the following?	Yes	No	If not, go to page
Order a meal			181, 182, 183
Understand the main items of a menu			180
Describe a meal			189
Ask for someone on the phone			190
Deal with a request to speak to someone on the phone			191

17

disgrifio'ch tŷ a'ch ardal describina'ch house and your

In this unit you will learn
how to

- describe your home and ask
about a house you wish to
buy
- describe the area in which
you live and ask about
another area
- understand the main
details on an
advertisement for a house

Deialog 1

Matthew, Jayne and Tom have reached Elen's flat in Cardiff and are invited in.

- Elen** Dewch i mewn, mae'r tegell newydd ferwi. Awn ni i'r gegin.
Jayne Melyn! Mae'r lliw'n ofnadwy, ych a fi! Byddai'r lliw 'ma'n rhoi pen tost i fi. Mae'n llawer rhy lachar.
Elen Mae'r lliw tipyn bach yn llachar i gegin mor fach, mae rhaid i fi ddweud. Ond mae lliwiau llachar yn ffasiynol iawn nawr, cofiwch. A dim ond dros dro byddwn ni yma.
Tom Ond mae'r fflat yn ganolog iawn, dyw hi ddim yn bell o ganol y ddinas.
Elen Mae'n gyfleus iawn i ni, mae'n ddigon agos i'r siopau heb fod yn rhy bell allan. Mae'n well 'da fi fyw ar gyrion y ddinas. Beth am ddod i weld gweddill y fflat?

- 1 What colour is Elen's kitchen?
- 2 Does Jayne like the colour?
- 3 Is the kitchen large?
- 4 Is Elen's flat far from the city centre?

tegell (m.) -au	kettle
berwi (berw-)	to boil
cegin (f.) -au	kitchen
byddai	would
llachar	bright
canolog	central
cyfleus	convenient
ar gyrion	on the outskirts of
milltir (f.) -oedd	mile

1 Describing the location of your house

Mae fy fflat ynghanol y dref.	<i>My flat is in the middle of town.</i>
Mae e ar gyrion tref brysur.	<i>It is on the outskirts of a busy town.</i>
Mae e mewn ardal wledig.	<i>It is in a rural area.</i>
Mae e ar lan y môr.	<i>It is by the seaside.</i>
Mae e ger y siopau.	<i>It is near the shops.</i>
Mae e mewn pentref glan y môr tawel.	<i>It is in a quiet seaside village.</i>

Exercise 1

Eifion, Alys, Owain and Siwan are describing their homes. After reading each description, say whether the four statements that follow are true or false.

- Eifion** Dw i'n byw mewn hen fwthyn. Does dim trydan 'da fi.
Alys Dw i'n byw dwy filltir o ganol dinas fawr mewn tŷ teras Fictoraidd. Mae'r stryd yn brysur iawn ac mae llawer o draffig.
Owain Dw i'n dwlu ar y môr, a dyna'r peth cyntaf dw i'n ei weld wrth agor llenni fy ystafell wely yn y bore. Mae fy nhŷ'n fawr iawn a dw i'n rhedeg gwely a brecwast yma yn ystod yr haf.
Siwan Dw i'n byw ar fferm ynghanol y wlad. Mae pentref bach tawel tua phum milltir o'r ffermdy.

Eifion lives in a large modern house in the country.

Alys lives in a terrace house on the outskirts of a large city.

Owain lives in a house by the seaside.

Siwan lives in a cottage in a rural area, not far from the village.

Deialog 2

After coffee Elen takes her friends on a guided tour of her flat.

- Elen** Mae dwy ystafell wely 'da ni. Dyma ystafell wely'r merched. Bydd rhaid i chi gau eich llygaid i'r llanast. Mae'r plant yn anniben iawn. Dyn nhw byth yn rhoi pethau i gadw. A dyma'n hystafell wely ni. Mae'n llawn o focsys ar hyn o bryd fel y gallwch chi ei weld.
Matthew Mae golygfa hyfryd 'da chi.
Elen A dyma'r ystafell fyw a rhagor o focsys. Ac yn olaf – yr ystafell ymolchi. Does dim cawod 'da ni yn anffodus, dim ond bath.
Tom Mae'n dwym iawn yn y fflat.
Elen Mae'r gwres canolog wedi bod ymlaen drwy'r dydd.

- 1 How many bedrooms are there in Elen's flat?
- 2 What are there a lot of in Elen's bedroom?
- 3 What does Tom notice about the flat?

llanast (m.)	mess
anniben	untidy
rhoi i gadw	to tidy up, to put away
gwres canolog (m.)	central heating

Exercise 2

Here are some details of houses which have been placed in a *papur bro* or local community newspaper. After reading the advertisements answer the questions that follow. Don't worry if you don't understand everything.

a **Ar werth.** Tŷ teras yng nghanol Aberteifi. Tair ystafell wely, lolfa a chegin fawr. Ffenestri dwbl a gwres canolog olew. Gardd fach a lard. Grant ar gael i lagio'r nentfwd. £78,000.
Ffôn 01239 672348

b **Tŷ pâr ar werth.** Ynghanol pentref. Gwag ers dwy flynedd ar ôl marwolaeth y perchennog. Dwy ystafell wely, cegin, lolfa. Dim gwres canolog. Trydan. Garej. Grant ar gael i'w foderneiddio.

c **Bwthyn ar werth** mewn ardal dawel. Gwres canolog a ffenestri dwbl lan llofft. Caniatâd cynllunio i estyn y tŷ. Gardd fawr. Garej a gweithdy. 14 erw hefyd ar werth ar wahân.

d **Ar werth.** Tŷ ar ei ben ei hun ynghanol tref. Gardd. Garej. Gwres canolog. Siopau, canolfan hamdden ac ysgollon gerllaw.

e **Ar werth.** Hen ficerdy. Yn cael ei ddefnyddio fel cartref hen bobl ar hyn o bryd. Un deg chwech o ystafelloedd gwely. Yn sefyll mewn 3 erw. 3 garej. Tŷ gwydr.

f **Fflat ar werth.** Ar lan y môr. Cegin. Tair ystafell. Gwres canolog. Parcio tu allan i'r tŷ. Gardd fach o flaen y tŷ.

Which house would suit you if you:

- 1 wanted to live by the sea?
- 2 wanted to live in a rural area?
- 3 wanted a house to modernize?
- 4 wanted to buy a business?
- 5 wanted to buy land?
- 6 wanted an empty house?
- 7 wanted a house in the middle of a village?

ar werth	<i>for sale</i>
lolfa (f.) lolfeydd	<i>lounge</i>
olew (m.)	<i>oil</i>
nenfwd (m.) nenfydau	<i>ceiling</i>
tŷ pâr (m.) tai pâr	<i>semi-detached house</i>
gwag	<i>empty</i>
marwolaeth (m.) -au	<i>death</i>
perchennog (m.) perchnogion	<i>owner</i>
lan llofft	<i>upstairs (in North Wales you will hear i fyny'r grisiau)</i>
caniatâd cynllunio	<i>planning permission</i>
estyn (estynn-)	<i>to extend</i>
gweithdy (m.) gweithdal	<i>workshop</i>
erw (f.) -au	<i>acre</i>
ar wahân	<i>separate</i>
tu allan	<i>outside</i>

Which of the following statements, based on these advertisements, are true, and which are false?

- 1 Mae tŷ (d) yn y dref.
- 2 Mae eisiau llawer o waith ar dŷ (b).
- 3 Mae mwy o ystafelloedd gwely 'da tŷ (e) na thŷ (f).
- 4 Mae gwres canolog trydan 'da tŷ (a).
- 5 Mae mwy o dir 'da tŷ (e) na thŷ (c).

2 Asking about the area where someone lives

Pa fath o le yw Llanddewi? *What sort of place is Llanddewi?*

Dych chi'n byw mewn ardal wledig? *Do you live in a rural area?*

3 Describing the area in which you live

Dw i'n byw mewn ardal fynyddig.	<i>I live in a mountainous area.</i>
Dw i'n byw mewn ardal ddinesig.	<i>I live in an urban area.</i>
Mae hi'n faestref dawel.	<i>It is a quiet suburb.</i>
Mae hi'n dref hanesyddol.	<i>It is a historic town.</i>
Mae hi'n dref brifysgol.	<i>It is a university town.</i>
Mae hi'n dref farchnad.	<i>It is a market town.</i>
Mae hi'n ardal boblog iawn.	<i>It is a very populated area.</i>

Exercise 3

Listen to Elfed describing his house and the area where he lives. After you have listened to the recording several times and are sure that you understand everything, answer the following questions.

- 1 Where does Elfed live?
- 2 Near which building does Elfed live?
- 3 How old is his home?
- 4 On what floor does he live?
- 5 How many rooms does he have?
- 6 Does he have a garden to himself?
- 7 Does Elfed like his home?
- 8 In what type of house did he live before moving?

Deialog 3

Mr Evans has gone to an estate agent (*asiant tai*) to look for a suitable house.

- Mr Evans** Dw i'n chwilio am dŷ ym mhentref Llanddewi, neu yn yr ardal gyfagos.
- Asiant tai** Hyd at faint o arian roeddech chi'n meddwl ei wario?
- Mr Evans** Dw i ddim eisiau mynd dros wyth deg mil.
- Asiant tai** Sawl ystafell wely dych chi ei heisiau?
- Mr Evans** O leiaf tair, ond yn ddelfrydol hoffwn i gael hen ysgubor bydda i'n gallu ei hadnewyddu.
- Asiant tai** Mae tri thŷ ar werth yn y pentref. Beth am hwn? Mae e'n wag ac mae eisiau llawer o waith arno fe. Tŷ carreg yw e ac mae e dros gan mlynedd oed.
- Mr Evans** Faint o ystafelloedd sydd yno?

Asiant tai Pum ystafell wely ac ystafell ymolchi lan llofft. Lawr staer mae cegin, pantri, ystafell twyta, lloffa, a stydi. Hen ficerdy yw e, ac mae gardd lawr iawn 'da fe. Mae garej dwbl a siediau yn yr ardd. Mae'r perchennog wedi ymfudo ac mae'r allwedd i 'da ni. Hoffech chi fynd i weld y tŷ?

Mr Evans Hoffwn, mae'n swnio'n addawol iawn.

- 1 How many bedrooms does Mr Evans want?
- 2 How much money is he willing to spend on a house?
- 3 Does the house the estate agent offers him have a garden?

delfrydol	<i>ideal</i>
ysgubor (f.) -iau	<i>barn</i>
adnewyddu (adnewydd-)	<i>to renovate</i>
carreg (f.) cerrig	<i>stone</i>
lawr staer	<i>downstairs</i>
ymfudo (ymfud-)	<i>to emigrate</i>
allwedd (f.) -i	<i>key</i>

Exercise 5

You have phoned an estate agent to ask about details of houses in the area. The estate agent has given you the details of some houses but none has been suitable. He is about to give you the details of another house. Fill in your side of the conversation.

- Asiant tai** Mae tŷ arall 'da ni yn yr ardal. Mae e ar werth am chwe deg pum mil o bunnau.
- Chi** *How many bedrooms are in the house?*
- Asiant tai** Tair, ac mae stydi lan llofft hefyd. Bydd modd i chi ei droi'n ystafell wely arall.
- Chi** *Is there central heating in the house?*
- Asiant tai** Oes, mae gwres canolog nwy: mae tanc propane tu allan i'r tŷ.
- Chi** *Is there double glazing in the house?*
- Asiant tai** Dim ond lawr staer. Mae'r tŷ wedi cael ei foderneiddio yn ddiweddar: mae cegin newydd yno ac mae'r tŷ mewn cyflwr da.
- Chi** *Is there a garden and a garage?*
- Asiant tai** Mae gardd fach yn y cefn ond does dim garej 'da'r tŷ. Mae digon o le i barcio car o flaen y tŷ.
- Chi** *Is there someone living there?*
- Asiant tai** Oes, mae'r perchennog a'i deulu'n byw yno. Hoffech chi i fi drefnu i chi weld y tŷ?
- Chi** *Yes, I would like to see the house tomorrow. I'll be free all day.*

modd (m.) -au	way, means
yn ddiweddar	recently
cyflwr (m.) cyflyrau	condition

1 Papurau bro

